Making a positive difference
**for energy consumers**

# 2023-24

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon



HC 321

ofgem

# 2023-24

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

(Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau adrannol sydd, ynghyd â Phrif Amcangyfrifon 2024-25 a'r ddogfen Gwariant Cyhoeddus: Dadansoddiadau Ystadegol 2024, yn cyflwyno alldro'r llywodraeth ar gyfer 2023-24 a gwariant a gynlluniwyd ar gyfer 2024-25.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 21 Ionawr 2025.

HC 321

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn Ofgem, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU.

ISBN 978-1-5286-4875-2

E03123541 01/25

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | 6 |
| Adroddiad ar Berfformiad | 8 |
| Adroddiad ar Atebolrwydd | 40 |
| Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio | 79 |
| Cyfrifon Adnoddau | 94 |
| Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol | 101 |
| Atodiadau | 123 |
| Atodiad I – Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 124 |
| Atodiad II – Ymchwiliadau a Chamau Gorfodi 2023-24 | 127 |
| Atodiad III – Trefniadau statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau 2000 | 138 |

# Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn flwyddyn arall lle mae diogelu cwsmeriaid wedi bod yn ganolog i bawb yma yn Ofgem.

Ar ôl codiadau ym mhrisiau ynni na welwyd eu tebyg o'r blaen yn ystod 2022, mae'r farchnad wedi dechrau ymsefydlogi, ac rydym wedi gallu adlewyrchu hyn yn y cap ar brisiau, sy'n gostwng biliau cyfartalog i bob aelwyd. Roedd y cap diweddaraf ar brisiau, sef £1,690, yn weithredol o 1 Ebrill, yn golygu gostyngiad o bron £700 i'r aelwyd gyffredin o gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn diwethaf.

Er bod hynny'n welliant amlwg yn sgil y prisiau uchaf erioed yn ystod yr argyfwng ynni, rydym yn ymwybodol iawn bod yr argyfwng costau byw ehangach yn golygu bod nifer o aelwydydd yn dal i gael trafferth talu eu biliau. Er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yr oedd angen cymorth arnynt yn cael y cymorth hwnnw, a bod pob defnyddiwr ynni yn gwybod beth y gall ei ddisgwyl gan ei gyflenwr, gwnaethom gyflwyno safonau defnyddwyr newydd a oedd yn codi'r hyn a ddisgwyliwn gan gyflenwyr, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau ynni fynd ati'n rhagweithiol i nodi defnyddwyr a allai wynebu risg o fynd i ddyled a chynnig cymorth iddynt ymdrin â'r risg honno. Mae'r safonau newydd hynny wedi bod ar waith ers diwedd 2023, ac rydym wedi dechrau cyhoeddi lefelau boddhad cwsmeriaid gyda chyflenwyr ynni unigol, sy'n dangos pa gyflenwyr sy'n darparu'r gwasanaeth gorau. Rydym yn ffyddiog y byddwn yn parhau i weld gwelliannau o ganlyniad i hynny; lle y gallwn gymryd camau ymarferol fel y rheoleiddiwr rydym wedi gwneud hynny. Ym mis Mawrth 2024, gwnaethom gadarnhau ein bwriad i barhau â'r penderfyniad i wneud taliadau sefydlog yn gyfartal rhwng y dulliau talu gwahanol, a oedd wedi cael ei ariannu gan y llywodraeth yn flaenorol.

Gwnaeth ein tîm cydymffurfio a gorfodi adennill cyfanswm o £77.2 miliwn mewn dirwyon, ad-daliadau i gwsmeriaid, iawndal a thaliadau gweithredu amgen – sy'n gynnydd o £50.5 miliwn, o gymharu â chyfanswm o £27.3 miliwn yn 2022, ac mae'n cynnwys dirwyon gwerth £5 miliwn. Ochr yn ochr â hyn, gwnaeth ein rhaglenni cyflawni a'n cynlluniau helpu i gynhyrchu tua 10 awr terawat o drydan a gwres carbon isel yn ogystal ag arbed £399 miliwn ar filiau ynni cwsmeriaid mewn sefyllfa fregus.

Y nod yw diogelu cwsmeriaid yn y dyfodol, yn ogystal â'u diogelu yn awr, a chymerwyd camau breision i'w gwneud yn bosibl i ni bontio i system ynni lanach, fforddiadwy a mwy diogel. Yn y Cynllun Gweithredu Cysylltiadau, a gyhoeddwyd yn ystod hydref 2023, nodwyd uchelgais i ddiwygio'r system sy'n goruchwylio'r broses o gysylltu cyflenwyr ynni newydd â'r grid pŵer. Ac yn aros yn y ciw mae prosiectau ynni newydd, y mae llawer ohonynt yn brosiectau ynni adnewyddadwy, yn cynhyrchu cannoedd o gigawatiau, ac mae'n hollbwysig ein bod yn eu cysylltu mor fuan â phosibl. Mae rôl Gweithredwr y System Ynni Genedlaethol yn hollbwysig o ran cyflawni'r nod hwnnw, yn ogystal â rhoi trosolwg mwy strategol o'r broses o ddatblygu system ynni genedlaethol a lleol sydd wedi'i diogelu at y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae Ofgem wedi cymryd camau uniongyrchol eraill i gyflymu'r broses bontio honno, megis symleiddio'r gwaith o gyflawni prosiectau ynni strategol drwy'r fframwaith Buddsoddi Trawsyrru Strategol Carlam (ASTI). Drwy'r broses hon bydd modd cynhyrchu mwy o drydan drwy ynni'r gwynt ar y môr, i'w ddarparu i ddefnyddwyr ym Mhrydain. Roeddem yn falch o weld y ddau brosiect cyntaf a allai helpu i bweru pedair miliwn o gartrefi i gyd, yn cael eu cymeradwyo drwy'r rhaglen hon yn gynharach eleni.

Fodd bynnag, un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yn ystod y 12 mis diwethaf oedd y dystiolaeth o hyd ein bod bellach wedi symud y tu hwnt i'r argyfwng ynni mwyaf erioed pan gynyddodd biliau'n aruthrol. Fodd bynnag, mae'r argyfwng hwnnw wedi gadael ei ôl ac aeth llawer o ddefnyddwyr i ddyled pan gynyddodd biliau ynni, ynghyd â chostau eraill aelwydydd, i lefelau uchel iawn. Ac i ormod o bobl mae costau byw yn parhau'n her. Dyna pam rydym wedi cymryd cam yn ôl i ystyried mater fforddiadwyedd drwy'r sector ynni cyfan a'r hyn y gallwn ni, y llywodraeth, cyflenwyr a'r sector cyfan ei wneud i fynd i'r afael â hyn.

Fodd bynnag, mae ymsefydlogi'r marchnadoedd ynni yn golygu y gallwn bellach edrych ymlaen ac ystyried y ffordd orau o sicrhau y caiff defnyddwyr eu diogelu a bod modd manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd wrth i newidiadau ar y daith tuag at system ynni sero net gyflymu.

Yn y strategaeth amlflwydd hirdymor a gyhoeddwyd gennym, nodwyd ein gweledigaeth ar gyfer cyflwyno'r system ynni well hon. System lle mae safonau cwsmeriaid ac ymddiriedaeth yn uchel ac mae'r seilwaith wedi'i gynllunio'n dda ac wedi'i ddarparu ar amser, a lle mae ein marchnadoedd yn mynd ati i sbarduno arloesedd ac effeithlonrwydd, gan ein galluogi i gyrraedd sero net ar y gost isaf, gyda buddsoddwyr yn cael enillion teg ond nid gormodol.

Ochr yn ochr â'n Blaenraglen Waith flynyddol reolaidd, mae'r strategaeth yn rhoi eglurder a sefydlogrwydd i'r sector cyfan ynglŷn â sut y cyrhaeddwn y nod, a sut y byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid i wneud hynny.

Gan edrych i'r dyfodol, rydym hefyd yn cydnabod bod angen i Ofgem ei hun newid: gwneud mwy, symud yn gyflymach, a dod yn sefydliad llawer ehangach. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni ein dyletswydd sero net newydd, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'n dyletswydd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr er mwyn pennu targedau sero net, sy'n gofyn nid yn unig am benderfyniadau rheoleiddiol da a wneir yn amserol, ond hefyd am roi'r sylfaen i fyd busnes ym Mhrydain ffynnu a thyfu.

Ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni barhau i weithio gyda'r diwydiant i ailennyn ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sector. Mae gan gwsmeriaid yr hawl i ddisgwyl gwasanaeth cwsmeriaid da, biliau sy'n deg ac yn gywir, ac ymateb di-oed pan fyddant yn cysylltu â'u cyflenwr. Mae'n hanfodol ein bod yn ennyn cefnogaeth y cyhoedd, drwy ddangos empathi a dealltwriaeth o bryderon gwirioneddol cymunedau lleol, ond peidio â cholli golwg ar natur frys ein nodau sero net. Bydd hyn yn dod yn gynyddol bwysig wrth i ni adeiladu'r system ynni newydd ac, fel rheoleiddiwr, byddwn yn monitro perfformiad y sector yn fanylach ac yn ymyrryd yn gadarn pan na fydd safonau nac ymddygiadau yn unol â'n disgwyliadau.

Yn debyg i unrhyw adroddiad blynyddol, mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'n gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Yr heriau a wynebwyd gennym, y gwaith rydym wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud i ddiogelu buddiannau defnyddwyr. Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw sut y byddwn yn symud ymlaen. Credwn fod gan Ofgem rôl bwysig tu hwnt i'w chwarae wrth i bob un ohonom adeiladu tuag at system ynni well ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n holl bartneriaid i'w sicrhau.



**Mark McAllister**
Cadeirydd



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr







# Adroddiad ar Berfformiad

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2023-24

# Adroddiad ar Berfformiad

Diben yr adroddiad ar berfformiad yw helpu pobl i ddeall Ofgem a sut y mae wedi perfformio yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. Mae'r trosolwg o berfformiad yn rhoi crynodeb byr o rai o'r uchafbwyntiau allweddol a'r buddiannau a sicrhawyd drwy gydol y flwyddyn.

## Trosolwg o berfformiad

### Diben a strwythur Ofgem

Ofgem yw rheoleiddiwr ynni annibynnol Prydain Fawr. Diben Ofgem yw diogelu defnyddwyr ynni, yn enwedig pobl mewn sefyllfa fregus, drwy sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn cael budd o amgylchedd glanach a gwyrddach.

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan yw corff llywodraethu Ofgem a chyfeirir ato fel GEMA, yr Awdurdod, neu Fwrdd Ofgem. Cadeirir yr Uwch-bwyllgor Gweithredol gan ein Prif Swyddog Gweithredol. Fforwm i reolwyr ydyw, sy'n eu galluogi i gymryd perchnogaeth adeiladol a chyfunol o berfformiad cyffredinol Ofgem a'r ffordd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau. Ceir rhagor o fanylion am y strwythur yn adroddiad y cyfarwyddwyr ar dudalen 43.

Ceir Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ofgem yn Atodiad I. Am ragor o wybodaeth am risgiau Ofgem a sut y mae'r rhain wedi cael eu lliniaru, cyfeiriwch at y Trosolwg o Risgiau ar dudalen 54.

### Buddiannau i ddefnyddwyr

Bob blwyddyn, mae Ofgem yn gwerthuso gwerth penderfyniadau a wnaed, y gellir eu mesur drwy asesiadau o'r effaith. Cyfrifwyd bod hyn yn golygu buddiannau gwerth dros £1.6 biliwn i ddefnyddwyr o ganlyniad i'n gweithgareddau yn 2023-24. Mae hyn yn golygu am bob punt a werir, fod budd o tua £9 i ddefnyddwyr. Mae rhai o'r penderfyniadau arwyddocaol yn cynnwys addasiadau i God y Grid, y penderfyniad i gadw cymhelliant cyflawni allbwn Optimeiddio Perchnogion Trawsyrru Gweithredwr y System am weddill cyfnod rheoli prisiau trawsyrru trydan RIIO-2 a'r penderfyniadau ynglŷn â diwygio'r Cap ar Brisiau. Mae'r mwyafrif o'r mentrau hyn wedi sicrhau buddiannau uniongyrchol, ond maent hefyd wedi creu buddiannau anuniongyrchol ac ehangach.

**Methodoleg**

Mae'r dadansoddiad yn defnyddio canlyniadau'r asesiadau effaith a'r dadansoddiad cadarn a lywiodd bob penderfyniad. Mae ein dull gweithredu yn anelu at fesur effeithiau mor dryloyw â phosibl ac mewn termau ariannol lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau bod cysondeb o ran y ffordd y cânt eu cyflwyno. Ceir gofyniad statudol i gyhoeddi asesiadau effaith lle mae newidiadau mewn polisi yn cael effaith sylweddol. Mae asesiadau effaith yn cynnig fframwaith strwythurol a thryloyw ar gyfer deall effeithiau amcangyfrifedig polisïau a chymharu rhwng prosiectau. Felly, mae asesiadau effaith ex ante yn ffordd dda o asesu effaith ein polisïau ar ddefnyddwyr.

Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y cyfrifir buddiannau, rydym yn gwneud rhai addasiadau i'w wneud yn bosibl i gymharu canlyniadau e.e. addasiadau o ran chwyddiant a gwerth presennol net.

Gan fod ein dadansoddiad ond yn ymdrin â phenderfyniadau a wnaed drwy ddefnyddio asesiad effaith ffurfiol neu sy'n werth dros £1 filiwn, a ystyrir yn arwyddocaol i GEMA, mae hyn yn golygu y bydd angen tanddatgan cyfanswm holl fuddiannau Ofgem.

Yn ychwanegol at hynny:

- O dan gynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol a weinyddir gan Ofgem ar ran y llywodraeth rhoddwyd cymorth gwerth tua £10 biliwn drwy gyfuniad o drethiant a chyllido biliau.
- Sicrhawyd taliadau gwneud iawn gwerth tua £79.7 miliwn gan gwmnïau drwy waith gorfodi a chydymffurfio.

Am ragor o wybodaeth am ymchwiliadau a chamau gorfodi Ofgem yn ystod 2023-24, cyfeiriwch at Atodiad II.

# Ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid

Yn ystod y flwyddyn hon dechreuodd proses bontio i ddefnyddwyr, busnesau a'r diwydiant, wrth i farchnadoedd ynni ymsefydlogi ac wrth i brisiau ynni ddechrau gostwng. Fodd bynnag, gyda dyled yn cynyddu i fwy na £3 biliwn, wrth i'r argyfwng costau byw barhau i effeithio ar ddefnyddwyr, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod cyn bwysiced ag erioed.

## Rhaglen 'Llais Defnyddwyr'

Mae Ofgem yn ymgysylltu â grŵp eang o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau'r diwydiant a chynrychiolwyr defnyddwyr, ac yn ystod y flwyddyn hon mae wedi ymdrechu o'r newydd i ymgysylltu â defnyddwyr ynni yn fwy uniongyrchol, yn y sector domestig a'r sector annomestig, er mwyn gwella dealltwriaeth y sefydliad cyfan o anghenion presennol a newidiol defnyddwyr ynni a'u profiadau. Mae'r rhaglen yn helpu aelodau bwrdd Ofgem i ganolbwyntio ar ddefnyddwyr – rhai domestig ac annomestig – mewn sesiynau archwilio dwfn â siaradwyr allanol arbenigol, a hefyd drwy ryngweithio â defnyddwyr, er mwyn deall eu profiadau'n well. Drwy sicrhau bod diwylliant Ofgem yn rhoi mwy o ffocws ar ddefnyddwyr, ein nod yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'n gwaith, gan arwain at bolisïau effeithiol a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr.

## Grwpiau defnyddwyr ac elusennau

Parhaodd Ofgem i feithrin cydberthnasau â grwpiau defnyddwyr ac elusennau drwy ein sianeli ymgysylltu rheolaidd, ac mae wedi ymgymryd â mwy o ymgysylltu ar lefel uwch drwy drefnu cyfres o weithdai wedi'u targedu a digwyddiadau bord gron ar lefel y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol. Mae'r gweithdai hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr am ddefnyddwyr, gan helpu i lywio ein blaenoriaethau a'n gwaith polisi.

Yn ein Huwchgynhadledd ar Fregusrwydd yn ystod gwanwyn 2023 daeth arweinwyr o'r sector cyfleustodau, grwpiau defnyddwyr, elusennau, cynrychiolwyr masnach a'r llywodraeth ynghyd i fyfyrio ar heriau'r gaeaf blaenorol. Gwnaeth Ofgem hefyd ystyried sut i gefnogi aelwydydd, sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf i gael gwasanaethau hanfodol cyn y gaeaf hwn.

Cynhaliodd Ofgem gyfres o weminarau ar gyfer staff cynghori rheng flaen sy'n cefnogi cwsmeriaid domestig, gan gynnig arweiniad ar yr hyn y dylent ei ddisgwyl gan gyflenwyr, gan gynnwys rheoli dyled a sut i baratoi ar gyfer y gaeaf drwy baratoi ar gyfer toriadau mewn cyflenwad a defnyddio'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth newydd.

## Bod yn barod ar gyfer y Gaeaf a'n Hymgyrch Ymwybyddiaeth o Ynni

Parhaodd Ofgem i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hysbysu am yr hyn y dylent ei ddisgwyl os bydd toriad yn eu cyflenwad pŵer. Ar y cyd â chyrff yn y diwydiant, gwnaeth Ofgem ddwyn rhanddeiliaid allweddol ynghyd i drafod y rhagolygon ar gyfer y gaeaf nesaf.

Gweithiodd Ofgem gyda rhanddeiliaid i gefnogi a hyrwyddo ymgyrch cyfathrebu â defnyddwyr, a oedd yn hyrwyddo hawliau defnyddwyr, ac yn rhoi cyngor ar y camau y gellid eu cymryd i helpu defnyddwyr. Roedd hyn yn cynnwys cydlynu cyflwyniadau i bartneriaid, darparu deunyddiau ymgyrch yn uniongyrchol i'r sawl sy'n cefnogi rhai o'r cwsmeriaid yn y sefyllfa fwyaf bregus, a chymryd rhan yn y Sioe Cartrefi Delfrydol, lle y rhoddodd cydweithwyr Ofgem gyngor yn uniongyrchol i ddefnyddwyr ar faterion, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, arbed ynni a chynlluniau a weinyddir gan Ofgem.

## Diogelu defnyddwyr a gwella safonau

Drwy gydol y flwyddyn, gweithiodd Ofgem yn agos gyda grwpiau defnyddwyr a chyflenwyr i wella mesurau diogelu a chefnogi defnyddwyr mewn sefyllfa fregus a gwella safonau i ddefnyddwyr yn gyffredinol. Drwy ddefnyddio fforymau â'r Prif Swyddog Gweithredol, galwadau misol â Chyfarwyddwyr Rheoleiddio, galwadau â grwpiau defnyddwyr ac elusennau, yn ogystal â gweithdai a digwyddiadau bord gron pwrpasol, gweithiodd Ofgem gydag eraill i ddatblygu ein Cod Ymarfer ar Fesuryddion

Rhagdalu sydd bellach wedi cael ei ymgorffori yn amodau trwyddedau, ac i lywio'r broses o ddatblygu safonau gwasanaeth cwsmeriaid newydd i gyflenwyr, a ddaeth i rym yn ystod hydref 2023.

## Defnyddwyr annomestig: Busnesau a sefydliadau nid er elw

Parhaodd defnyddwyr annomestig i wynebu heriau o ran eu darpariaeth ynni yn ystod y flwyddyn diwethaf, er gwaethaf rhywfaint o sefydlogrwydd cymharol a phrisiau is yn y farchnad. Bu cryn ddiddordeb a phryder o hyd o ran lefel prisiau ynni, gwasanaeth cwsmeriaid cyflenwyr, eglurder ynglŷn â chanllawiau, a mesurau diogelu rhag gwasanaeth gwael.

Er mwyn ymateb i hyn, ochr yn ochr â'r gweithgarwch arferol, gwnaeth y tîm rhanddeiliaid helpu'r tîm polisi Manwerthu Annomestig i ymgysylltu ar ei becyn polisi, gan ei dywys drwy gais am fewnbwn, ymgynghoriad ar bolisi a phroses ymgynghori statudol dros y 12 mis diwethaf. Arweiniodd hyn at benderfyniad i ehangu mesurau diogelu i grŵp mwy o fusnesau, a oedd yn gofyn am fwy o eglurder ynglŷn â ffioedd canolraddol trydydd parti am drefnu contractau annomestig.

## Pontio i sero net

Wrth i'r broses o bontio i sero net ddechrau ar gam newydd, mwy heriol, gyda'r galw newidiol am ynni yn gofyn am adeiladu mwy o seilwaith nag erioed o'r blaen, gwnaeth Ofgem gryfhau ein hymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sectorau rhwydweithiau. Drwy weithgarwch ymgysylltu dwyochrog mwy cydgysylltiedig ar lefel uwch â rhanddeiliaid allweddol, a hefyd sefydlu fforymau ymgysylltu newydd, megis y Fforwm i Gynhyrchwyr a Fforwm Codi Taliadau'r Dyfodol, mae Ofgem wedi llwyddo i gasglu gwybodaeth i lywio ein penderfyniadau a'n polisïau a chyfleu negeseuon allweddol mewn ffordd fwy effeithlon a chyson.

## 'Fforwm Ynni Dyfodol Cynaliadwy'

Partneriaeth rhwng Ofgem a Sustainability First yw'r 'Fforwm Ynni Dyfodol Cynaliadwy', sy'n helpu pobl ifanc (18-25 oed) i rannu dirnadaethau gwerthfawr a chyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau yn y sector ynni ym Mhrydain Fawr. Rhoddodd y gweithdai a gynhaliwyd fel rhan o'r Fforwm gyfle i bobl ifanc drafod, dysgu a dadlau dros atebion ynni cynaliadwy a theg a fydd yn llywio ein dyfodol.

## Cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol

Y flwyddyn hon, gan fod nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a chymdeithasol a weinyddir gan Ofgem wedi cynyddu, aethom ati i sefydlu fforymau newydd i randdeiliaid ar y cyd â chyfranogwyr a grwpiau eraill er mwyn rhannu gwybodaeth, ei gwneud yn haws cael gafael ar gymorth ac arweiniad, a hefyd gasglu dirnadaethau. Yn ystod y flwyddyn, trefnodd Ofgem 10 o fforymau ar gyfer cynlluniau penodol a 17 o gyfarfodydd lefel gweithio un i un â rhanddeiliaid. Gwnaethom hefyd anfon 12 o ymgyrchoedd dros e-bost i fwy na 42,000 o unigolion, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynlluniau.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fewnol a thrwy'r sector ynni cyfan dal yn flaenoriaeth allweddol i Ofgem. Ym mis Medi 2023, cyhoeddwyd diweddariad ar ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed ac yn amlinellu cynlluniau Ofgem at y dyfodol.

Parhaodd Ofgem i fod yn bartner gweithredol yn y Fenter 'Tackling Inclusion Diversity in Energy' (TIDE), sy'n gyfrwng allweddol i ni gefnogi gwelliannau ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy'r sector cyfan. Mae dau Gyd-gadeirydd newydd ar gyfer TIDE wedi cael eu penodi ac mae Mynegai Iechyd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi cael ei lansio i olrhain cynnydd.

Yn ystod y Gynhadledd flynyddol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym maes Ynni eleni, bydd cyfle i glywed rhagor am TIDE, herio arweinwyr ynni ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn ogystal â dysgu mwy o astudiaethau achos sy'n dangos arferion da.

# Dadansoddi perfformiad

Mae'r adran ar ddadansoddiad perfformiad yn yr adroddiad hwn yn manylu ar y ffordd y mae Ofgem wedi cyflawni yn erbyn cerrig milltir y prosiect a nodwyd yn ei Blaenraglen Waith ar gyfer 2023-24.

## Strategaeth 2022 i 2024 Ofgem

Ym mis Rhagfyr 2022, nododd Ofgem chwe blaenoriaeth strategol ar gyfer ei gwaith rheoleiddio – tair blaenoriaeth fyrdymor a thair blaenoriaeth hirdymor – a nodir isod. Roedd y chwe blaenoriaeth hyn yn cael eu cefnogi gan 20 o brosiectau a rhaglenni â blaenoriaeth – a gwaith rheoleiddio craidd – a oedd yn canolbwyntio (yn y byrdymor) ar fynd i'r afael ag amodau presennol y farchnad, ac (yn yr hirdymor) ar sicrhau proses bontio cost isel i system ynni sero net. Adlewyrchwyd y strwythur hwn yn y Flaenraglen Waith a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer prosesau cyflawni ac adrodd Ofgem yn 2023-24. Ers hynny, mae Ofgem wedi diweddaru ei blaenoriaethau strategol, gan gyhoeddi strategaeth amlflwydd ym mis Mawrth 2024. Hon fydd sail gwaith dadansoddi perfformiad yn y dyfodol yn ein hadroddiad blynyddol.

### Blaenoriaethau byrdymor

*Sicrhau bod prisiau yn deg*

Mae natur anwadal prisiau nwy o hyd yn golygu bod costau ynni yn cynyddu a bydd Ofgem yn gweithio gyda'r llywodraeth, gan weithredu'n gyflym i ddiogelu cwsmeriaid, er mwyn helpu i sicrhau bod prisiau yn deg drwy'r gadwyn gwerth ynni gyfan.

*Creu cadernid ym mhob rhan o'r sector ynni*

Mae anwadalrwydd prisiau, bygythiadau geo-wleidyddol i ddiogeledd ynni Ewropeaidd, a chystadleuaeth fyd-eang i gyd wedi golygu mwy o angen am gadernid drwy'r sector cyfan. Byddwn yn cryfhau safonau diogeledd cyflenwad a chyflwyno newidiadau pellach i sicrhau marchnad fanwerthu ddiwygiedig, fel y gall wrthsefyll ysgytwadau'r farchnad yn well.

*Monitro a gorfodi ansawdd a safonau*

Yn ddiweddar, canfuwyd bod safonau perfformiad yn ddiffygiol mewn rhannau o'r sector. Byddwn yn parhau i fonitro a gorfodi safonau a mesurau diogelu allweddol i ddefnyddwyr, a hefyd gyflwyno safonau newydd lle mae ein cylch gwaith yn ehangu. Rydym yn disgwyl i'r sector wneud rhagor i gefnogi cwsmeriaid, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.

### Blaenoriaethau hirdymor

*Hwyluso buddsoddiadau mewn seilwaith*

Er mwyn datgarboneiddio ynni, bydd angen ystod newydd o dechnolegau yn y system, gyda'r galw am drydan, nwy a ffynonellau ynni eraill yn newid. Bydd Ofgem yn gweithredu i alluogi buddsoddiadau mewn seilwaith yn gyflym, er mwyn hwyluso proses bontio gyflym a chosteffeithiol i sero net.

*Datblygu a chyflwyno diwygiadau i'r farchnad*

Er mwyn cael system sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn bennaf bydd angen datblygu a chyflwyno diwygiadau i'r farchnad er mwyn helpu i sicrhau ei bod cystal â phosibl, gan gynnwys rhoi mwy o hyblygrwydd.

*Diwygio trefniadau llywodraethu*

Mae'r broses bontio yn gofyn am system ynni sydd wedi'i chynllunio'n fwy strategol a diwygiadau i'r trefniadau llywodraethu presennol a sefydliadau.

### Strategaeth Amlflwydd Ofgem

Ym mis Rhagfyr 2023, ymgynghorodd Ofgem ar ei Blaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2024-25, a oedd yn cynnwys manylion fframwaith strategol newydd ar gyfer ei gwaith rheoleiddio. Cytunodd bwrdd Ofgem ar Strategaeth Amlflwydd newydd Ofgem, '*Protect, Build, Change, Deliver*', ar ddechrau 2024 ac fe'i cyhoeddwyd ar ddiwedd mis Mawrth. Mae'n amlinellu blaenoriaethau hirdymor Ofgem ym mhob agwedd ar ei gwaith dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

Y blaenoriaethau strategol yw:

1. Creu marchnad fanwerthu sy'n gweithio i ddefnyddwyr
2. Galluogi seilwaith ar gyfer symud i sero net yn gyflym
3. Sefydlu system ynni effeithlon, deg a hyblyg

4. Hyrwyddo datgarboneiddio drwy gynlluniau ynni carbon isel a chymdeithasol
5. Cryfhau Ofgem fel sefydliad.

Esblygiad o'r blaenoriaethau byrdymor a hirdymor a drafodir yn yr adroddiad hwn yw'r rhain – a dylid ystyried eu bod yn cyd-fynd â nhw.

### *Dyletswyddau Ofgem*

Fel y'i nodwyd yn y Strategaeth Amlflwydd, prif amcan Ofgem, a ymgorfforwyd mewn deddfwriaeth, yw diogelu buddiannau defnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol. Yn 2023, cyhoeddodd Ofgem Fframwaith Buddiannau Defnyddwyr, sy'n helpu i esbonio'r hyn y mae'r ddyletswydd hon yn ei olygu'n ymarferol.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd dyletswyddau Ofgem eu diweddaru i gynnwys sero net a thwf.

Mae'r Ddyletswydd Sero Net newydd yn diffinio prif amcan Ofgem i gynnwys buddiannau defnyddwyr o ran cyflawni targed sero net 2050 a thargedau cysylltiedig eraill. Mae hyn yn golygu y bydd Ofgem yn gwneud penderfyniadau, gan ddefnyddio cynlluniau cyflawni'r llywodraeth fel llinell sylfaen, sy'n galluogi sero net yn rhagweithiol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, bydd angen hefyd i Ofgem ddeall holl fuddiannau defnyddwyr yn well yn y broses o bontio i sero net, a helpu'n well i gyflwyno proses bontio deg a chosteffeithiol sy'n gweithio iddynt.

Hefyd, mae Dyletswydd Twf newydd ar Ofgem yn 2024-25, i roi sylw i hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy drwy ei gweithgareddau rheoleiddio. Prif gyfraniad Ofgem i dwf economaidd yw drwy reoleiddio sy'n lleihau costau ynni i'r eithaf, gan sicrhau bod y cyflenwad yn gadarn a bod marchnadoedd ynni yn gweithredu'n effeithiol. Wrth i Ofgem integreiddio'r Ddyletswydd Twf, bydd manylion ynglŷn â sut y caiff ei hymgorffori yn ein dull gweithredu rheoleiddio yn cael eu hegluro. Disgwylir y bydd hyn yn cynnwys datblygu metrigau, i asesu ein cyfraniad i dwf mewn prosesau gwneud penderfyniadau rheoleiddiol Ofgem, adolygu arferion rheoleiddio yn ddi-oed, a gwneud mwy i ddeall anghenion defnyddwyr busnes.

## Blaenoriaeth fyrdymor: Sicrhau bod prisiau yn deg

### **Cymorth Biliau'r Llywodraeth**

#### *Gwarant Pris Ynni*

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Warant Pris Ynni i redeg i gwsmeriaid domestig, gan ddisodli'r Cap ar Brisiau Tariffau Diofyn (y 'Cap ar Brisiau' – gweler manylion isod) drwy gyfyngu ar faint y gallai cyflenwyr ei godi fesul uned o ynni, cyn pontio i ostyngiad a ariennir gan y llywodraeth yn y premiwm ar gyfer mesuryddion rhagdalu yr oedd cwsmeriaid yn ei dalu am ynni o gymharu â chwsmeriaid debyd uniongyrchol. Ar 1 Ebrill 2024, disodlwyd y Warant Pris Ynni drwy wastatáu taliadau mesuryddion rhagdalu, sy'n 'cymdeithasoli' cost y gostyngiad hwn rhwng cyflenwyr domestig (gweler y manylion isod). Mae Ofgem yn parhau i sicrhau cydymffurfiaeth cyflenwyr ynni â'r dulliau hyn, gan gymryd camau priodol pan nodir afles i gwsmeriaid neu fath arall o ddiffyg cydymffurfiaeth.

#### *Y Cynllun Cymorth Biliau Ynni*

Yn ystod y flwyddyn, cefnogodd Ofgem y gwaith o gyflwyno'r Cynllun Cymorth Biliau Ynni i gwsmeriaid domestig. Rôl Ofgem oedd monitro cydymffurfiaeth a chymryd camau gorfodi lle y bo angen. Helpodd hyn i sicrhau bod cwsmeriaid cymwys yn cael disgownt o £400 ar eu biliau ynni, wedi'i rannu'n rhandaliadau chwe mis rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023. Gwnaeth Ofgem fonitro gweithgarwch cau cyflenwyr, er mwyn sicrhau bod taliadau siec a oedd heb eu talu wedi cael eu talu'n briodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad cau terfynol, ynghyd â llythyr cau'r cynllun i'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ym mis Tachwedd 2023.

#### *Y Cynllun Taliadau Tanwydd Amgen*

Gwnaeth y cynllun hwn – sydd bellach wedi'i gau i gwsmeriaid newydd – ddarparu taliad untro o £150-200 i gwsmeriaid penodol sydd oddi ar y grid ac sy'n defnyddio tanwyddau amgen. Rôl Ofgem oedd cymryd camau i orfodi'r cynllun a, thrwy weithio gyda'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, ddatblygu trefniadau llywodraethu a deall cydymffurfiaeth gyffredinol cyflenwyr.

*Y Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni a'r Cynllun Gostyngiad mewn Biliau Ynni*

Rhwng 1 Hydref 2022 a 31 Mawrth 2023, cynigiodd y Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni ostyngiad oddi ar filiau cwsmeriaid annomestig, yn seiliedig ar gyfran o bris ynni cyfanwerthu. Rôl Ofgem oedd monitro cydymffurfiaeth â'r elfen o'r cynllun a oedd yn ymwneud â 'Chwsmeriaid dan Anfantais Ariannol sy'n Gymwys', a oedd yn cynnig gostyngiad ychwanegol mewn prisiau i rai cwsmeriaid â chontract tybiedig. Helpodd hyn i sicrhau bod y cwsmeriaid hyn yn cael gostyngiadau priodol. Roedd Ofgem hefyd yn gyfrifol am orfodi'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni. Er bod y cynllun hwn wedi cau bellach, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net yn ystod cam cysoni'r cynllun, er mwyn nodi achosion lle mae angen gweithgarwch gorfodi o bosibl.

Disodlwyd y Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni gan y Cynllun Gostyngiad mewn Biliau Ynni, a oedd yn rhedeg o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024. Mae Ofgem yn gyfrifol am y swyddogaeth orfodi, ar ôl atgyfeiriad gan yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net. Mae Ofgem yn parhau i roi cymorth a chyngor ynglŷn â materion cydymffurfio a allai arwain at atgyfeiriad ar gyfer camau gorfodi.

## Defnyddwyr mewn sefyllfa fregus

*Gwastatáu*

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Ofgem i weithio gyda'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net i ddatblygu opsiynau polisi er mwyn gallu 'gwastatáu' prisiau i gwsmeriaid â mesuryddion rhagdalu traddodiadol, a chyhoeddodd ei phenderfyniad terfynol ar wastatáu anfeintiol ym mis Chwefror 2024. Cyflwynodd newidiadau i wastatáu taliadau sefydlog mesuryddion rhagdalu. Ar yr un pryd, addaswyd y Cod Ynni Manwerthu, a gyflwynodd ddull cysoni i leihau effeithiau gwastatáu ar y farchnad. Daeth y prosesau i wastatáu a chysoni taliadau yn weithredol ar 1 Ebrill 2024. Yn y dyfodol, bydd Ofgem yn monitro cydymffurfiaeth cyflenwyr, er mwyn sicrhau bod gwastatáu yn digwydd a bydd yn cymryd camau lle y bo angen.

*Mesuryddion rhagdalu*

Er mwyn gwella mesurau diogelu i gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu, datblygodd Ofgem God Ymarfer ar gyfer gosod mesuryddion. i gyflenwyr. Cyhoeddwyd y Cod ym mis Ebrill 2023, ac ymgynghorodd Ofgem arno ynghyd â'r canllawiau ategol, gan gyhoeddi penderfyniad terfynol ym mis Medi 2023, a daeth rheolau newydd i rym ym mis Tachwedd 2023.

Fel rhan o'r Cod Ymarfer, nododd Ofgem feini prawf y mae'n rhaid i gyflenwyr eu bodloni cyn argymell gosod mesurydd yn anwirfoddol. Cymeradwywyd y cyflenwyr cyntaf i ailddechrau gosod mesuryddion ym mis Ionawr 2024, y mae Ofgem wedi'u monitro'n agos.

*'Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth'*

Yn sgil cynhadledd a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2023, gwnaeth Ofgem, gan weithio'n agos gyda'r sector ynni a'r sector dŵr rheoleiddiedig, lansio gweithgor i'w alluogi i rannu data 'Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth'. Disgwylir i'r Gofrestr fod yn weithredol erbyn diwedd 2024 a thrwyddi bydd modd i ddata defnyddwyr mewn sefyllfa fregus gael eu rhannu'n fwy effeithiol, gan helpu defnyddwyr i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Yn ystod y flwyddyn, gwaeth Ofgem hefyd weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried system 'Dywedwch wrthym unwaith', er mwyn nodi cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus, sydd wedi arwain at ddatblygu'r diffiniad o sut beth y gallai cofrestr amlsector fod, a sut y gallai weithio.

Nododd yr Adran Busnes a Masnach gynigion ar gyfer cofrestr amlsector mewn ymgynghoriad diweddar a bydd yn cyhoeddi'r camau nesaf o ran hyn cyn hir.

## Diwygio'r farchnad fanwerthu

Ochr yn ochr â'n mesurau i ddiogelu prisiau defnyddwyr a chadernid a rheolaethau ariannol, mae Ofgem wedi datblygu safonau diogelu defnyddwyr nad ydynt yn ymwneud â phrisiau ar gyfer cwsmeriaid domestig ac annomestig.

*Safonau defnyddwyr*

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd Ofgem safonau defnyddwyr a sut y maent yn cael eu cyflawni gan gyflenwyr ynni. Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gyhoeddi penderfyniad ar safonau

defnyddwyr newydd, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2023. Ers hynny, mae Ofgem wedi monitro cydymffurfiaeth cyflenwyr â'n rheolau newydd a phresennol.

*Adolygiad o'r farchnad annomestig*

Cyhoeddodd Ofgem benderfyniad hefyd yn sgil adolygiad o'r farchnad annomestig ym mis Ebrill 2024, ar ôl 'Cais am Fewnbwn' ac ymgyngoriadau drwy gydol y flwyddyn. Mae newidiadau'r penderfyniad yn cynnwys:

- Ehangu'r amod 'Safonau Ymddygiad' o'r drwydded i fod yn gymwys i bob cwsmer annomestig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr drin pob cwsmer yn deg.
- Diweddaru'r 'Safonau Ymdrin â Chwynion', er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn rhoi prosesau cwyno addas ar waith i ddefnyddwyr sy'n fusnesau bach ac yn eu cyfeirio at yr Ombwdsmon Ynni pan nad yw'r cwsmer yn teimlo bod y mater wedi cael ei ddatrys.
- Cyflwyno ac ehangu amodau trwydded i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr wneud y canlynol:
    - dim ond gweithio gyda chyfryngwyr trydydd parti sy'n aelodau o gynllun gwneud iawn, wrth sicrhau contractau Busnes Bach.
    - cyfeirio defnyddwyr sy'n ficrofusnesau ac yn fusnesau bach at y Ganolfan Cyngor ar Bopeth am gymorth.
    - datgelu ffioedd gwasanaeth cyfryngwyr trydydd parti mewn contractau i ficrofusnesau, er mwyn sicrhau bod pob cwsmer annomestig yn cael tryloywder o'r fath.

## Mesurau diogelu prisiau defnyddwyr – Y Cap ar Brisiau

Gwnaeth Ofgem nifer o addasiadau i'r Cap ar Brisiau yn ystod y flwyddyn, er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn costau a wynebir gan gyflenwyr, a fydd yn eu galluogi i gefnogi cwsmeriaid yn well. Roedd hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer costau ychwanegol sy'n ymwneud â dyledion a diwygiadau i'r lwfans 'Enillion cyn Llog a Threth'. Fel y nodir uchod, gwnaeth Ofgem hefyd 'wastatáu'r' tâl sefydlog rhwng cwsmeriaid debyd uniongyrchol a chwsmeriaid â mesurydd rhagdalu er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i gwsmeriaid â mesurydd rhagdalu.

Cyhoeddwyd Rhaglen waith y Cap ar Brisiau ddiwygiedig Ofgem ym mis Mawrth 2024, a oedd yn cwmpasu'r flwyddyn. Mae'n amlinellu adolygiadau wedi'u cynllunio o'r Cap ar Brisiau, gan gynnwys costau gweithredu, lwfans cyfanwerthu, lwfansau dyled a rhanddirymiadau'r cap. Mae hefyd yn amlinellu gwaith arfaethedig i ddiogelu prisiau yn y dyfodol a'r cam gwastatáu nesaf.

## Rheoleiddio craidd – cyhoeddiadau ar y Cap ar Brisiau

Roedd y cyhoeddiadau ar lefel y Cap ar Brisiau yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

- mis Mai 2023, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023 £2,074.
- mis Awst 2023, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023 £1,923.
- mis Tachwedd 2023, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024 £1,928.
- mis Chwefror 2024, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024 £1,690.

Cyhoeddwyd pob newid yn lefel y Cap ar Brisiau yn unol â dyletswyddau statudol Ofgem o dan y Ddeddf Nwy a Thrydan Domestig (Cap ar Dariffau) (2018).

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Ofgem y lefel isaf ar gyfer y Cap ar Brisiau ers i'r argyfwng cyfanwerthu ddechrau. Roedd hyn yn golygu gostyngiad o 12% mewn biliau o gymharu â lefelau'r Cap ar Brisiau rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024. Y prif reswm dros hyn oedd y gostyngiadau cyson a pharhaus yn y prisiau cyfanwerthu ar gyfer contractau, a ddefnyddir i gyfrifo lefel y Cap ar Brisiau.

## Ein blaenoriaeth fyrdymor: Creu cadernid ym mhob rhan o'r sector ynni

### Cadernid a rheolaethau ariannol – datblygu a gweithredu trefn

*'Egwyddor Cyfrifoldeb Ariannol' a 'Hunanasesiadau o Ddigonolrwydd' blynyddol*

Cyhoeddodd Ofgem Benderfyniad ym mis Ebrill 2023, i gyflwyno 'Egwyddor Cyfrifoldeb Ariannol' ychwanegol'. O ganlyniad i'r addasiadau newydd i drwyddedau mae'n ofynnol i drwyddedeion:

- hysbysu Ofgem os bydd digwyddiadau ariannol penodol yn codi
- cadw digon o gyfalaf a hylifedd a rheoli costau cilyddol;
- cyflwyno 'Hunanasesiad o Ddigonolrwydd' blynyddol, sy'n nodi eu risgiau allweddol a chamau i liniaru risgiau ar gyfer y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn sydd i ddod.

Nod y rheolau hyn – a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2023 – yw diogelu defnyddwyr drwy wella cadernid ariannol trwyddedeion cyflenwi ynni manwerthu.

*Gofynion isafswm cyfalaf*

Cyhoeddodd Ofgem benderfyniad ym mis Gorffennaf 2023, i gyflwyno gofyniad isafswm cyfalaf cyffredin. Mae'r polisi hwn, ynghyd â'r 'Egwyddor Cyfrifoldeb Ariannol' ychwanegol, sydd â'r nod o ddiogelu defnyddwyr drwy wella cadernid ariannol trwyddedeion cyflenwi manwerthu a lleihau costau cilyddol os bydd methiant. Drwy ymgysylltu goruchwyliol â chyflenwyr dechreuwyd deall eu cynnydd tuag at gydymffurfio â'r gofynion hyn, a ddaw i rym ym mis Mawrth 2025.

*Balans Credyd Cwsmeriaid*

Gwnaeth y penderfyniad ym mis Gorffennaf 2023 hefyd gynnwys mesurau i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr glustnodi cyfran o'u balansau credyd (o dan amodau penodol). Daeth y newidiadau hyn i rym ym mis Medi 2023, ac maent bellach yn rhan o'n dull cyffredinol o sicrhau cadernid ariannol trwyddedeion.

*Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy*

Cyhoeddodd Ofgem benderfyniad ym mis Ebrill 2023 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr glustnodi eu 'Rhwymedigaethau Ynni Adnewyddadwy' (gweler yr adran ar 'Cynlluniau trydan adnewyddadwy') bob chwarter drwy ddefnyddio naill ai tystysgrifau 'Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy' a/neu sicrwydd credyd. Mae'r amodau trwydded newydd wedi dod i rym – mae cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau hyn yn cael ei monitro.

### Rheoleiddio craidd – Cadernid a rheolaethau ariannol

*Proses 'y Cyflenwr Dewis Olaf'*

Ni ddefnyddiwyd proses y 'Cyflenwr Dewis Olaf' gan Ofgem yn ystod y flwyddyn. Pan fydd cyflenwr ynni manwerthu yn gadael y farchnad (naill ai'n wirfoddol neu drwy ddiddymu ei drwydded), mae Ofgem yn gweithio gyda'r cyflenwr i sicrhau bod y broses o adael y farchnad yn ddidrafferth, gyda'r nod o leihau costau cilyddol ac effeithiau andwyol ar ddefnyddwyr a'r farchnad i'r eithaf.

*'Trefn Gweinyddiaeth Arbennig'*

Ni ddefnyddiwyd proses y 'Drefn Gweinyddiaeth Arbennig' gan Ofgem yn ystod y flwyddyn. Defnyddir y drefn o dan amgylchiadau eithriadol, pan benodir gweinyddwr i redeg cyflenwr ynni manwerthu os bydd yn mynd i anawsterau ariannol, yn hytrach na symud ei gleientiaid i gyflenwr newydd.

### Diogeledd cyflenwad – Trydan a nwy

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Ofgem i wneud gwaith dadansoddi, gan fodelu'r bwlch mewn capasiti yn y tymor canolig, a gafodd ei rannu a'i ddilysu gan yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net a Gweithredwr y System Drydan. Gweithiodd y tri sefydliad gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogeledd cyflenwad, er mwyn nodi a blaenoriaethu opsiynau ar gyfer ymyriadau a chadw momentwm.

Parhaodd Ofgem i gymeradwyo newidiadau i drwyddedau cludo nwy ac addasiadau i'r 'Cod Rhwydwaith Unffurf' yn ystod y flwyddyn, er mwyn gwella trefniadau codi tâl a sicrhau bod trefniadau mynediad yn darparu digon o gapasiti i ddefnyddwyr terfynol.

## Hylifedd marchnadoedd ynni cyfanwerthu

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Ofgem 'Gais am Fewnbwn', a oedd yn nodi dadansoddiad a ffactorau sy'n ysgogi hylifedd mewn marchnadoedd trydan cyfanwerthu. Nododd nifer o randdeiliaid newidiadau i fethodoleg 'Contract ar gyfer Gwahaniaeth' (a reolir gan yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net) a methodoleg Cap ar Brisiau Ofgem, a allai wella hylifedd. Caiff diweddariad yn amlinellu'r camau nesaf ei gyhoeddi yn ystod 2024.

## Rheoleiddio fel Awdurdod Cymwys Seiber

Drwy ein rôl fel Awdurdod Cymwys ar y cyd â'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, parhaodd Ofgem i ddiogelu defnyddwyr drwy beri i weithredwyr gwasanaethau hanfodol a reoleiddir gynyddu eu mesurau seibergadernid a'u mesurau cadernid diogeledd. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o arolygiadau rheoleiddio o 'Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth', er mwyn asesu lefel seibergadernid yn y sector, yn ogystal â defnydd o'r canllawiau ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r diwydiant, gyda'r nod o gynnal a gwella safonau.

## Ein blaenoriaeth fyrdymor: Pennu, monitro a gorfodi ansawdd a safonau

### Datblygu trefniadau rheoleiddio ar gyfer rhwydweithiau gwres

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Ofgem i baratoi ar gyfer rheoleiddio rhwydweithiau gwres. Ym mis Awst 2023, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y cyd â'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, a oedd yn ceisio barn ar y gofynion ynglŷn â diogelu defnyddwyr y bydd angen i weithredwyr a chyflenwyr rhwydweithiau gwres gydymffurfio â nhw fel rhan o'r fframwaith rheoleiddio newydd. Ceisiwyd barn hefyd ar ddull Ofgem o reoleiddio'r sector, gan gynnwys drwy ganllawiau, monitro'r farchnad, cydymffurfiaeth a gweithgarwch gorfodi, yn ogystal â'r dull arfaethedig o adennill costau rheoleiddio rhwydweithiau gwres. Cyhoeddwyd ymateb ar y cyd ym mis Ebrill 2024.

Hefyd, dechreuodd Ofgem brofion 'cam beta' ar gyfer datrysiad data'r fframwaith rheoleiddio, ac ymgyngoriadau ar 'Gwynion' a 'Safonau Perfformiad Gwarantedig'.

### Rheoleiddio craidd – Cydymffurfio a gorfodi rhagweithiol a chadarn

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Ofgem gyfres o Adolygiadau o Gydymffurfiaeth y Farchnad, a ddechreuodd yn 2022-23, er mwyn asesu a oedd cyflenwyr ynni manwerthu yn cydymffurfio ag amodau eu trwyddedau. Roedd yr adolygiad o osod mesuryddion rhagdalu'n orfodol yn flaenoriaeth dros y flwyddyn diwethaf.

Mae asesiadau o'r holl adolygiadau eraill wedi cael eu cwblhau erbyn hyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w terfynu a phennu lefelau iawn a digolledu i'r cyflenwyr hynny lle y darganfuwyd problemau. O'r cyflenwyr hynny, mae saith wedi bodloni amodau ailddechrau, y mae Ofgem yn eu monitro'n agos.

## Ein blaenoriaeth hirdymor: Hwyluso buddsoddiadau mewn seilwaith

### Galluogi buddsoddiad amser-gritigol mewn seilwaith

*Cyfnod Rheoli Prisiau Dosbarthu Trydan RIIO-2 ('ED2')*

Dechreuodd cyfnod rheoli prisiau RIIO-ED2, sy'n cwmpasu cyfnod o bum mlynedd, ym mis Ebrill 2023. Mae'r cyfnod rheoli prisiau, a bennir gan Ofgem, yn pennu'r allbynnau y mae angen i 14 o weithredwyr dosbarthu'r rhwydwaith trydan eu darparu ar gyfer eu defnyddwyr a'r refeniw cysylltiedig y caniateir iddynt ei gasglu. Rôl Ofgem yw sicrhau bod cwmnïau'r rhwydwaith yn galluogi sero net drwy sicrhau digon o gyllid i fuddsoddi yng nghapasiti'r rhwydwaith, a thrwy sicrhau nad yw technolegau carbon isel na'r broses o gysylltu ffynonellau ynni glân newydd yn wynebu oedi cyn eu gosod neu eu gweithredu, a hefyd ddiogelu cwsmeriaid rhag taliadau diangen ar filiau ar yr un pryd.

*Fframwaith 'Buddsoddi Trawsyrru Strategol Carlam' ('ASTI')*

Mae penderfyniad ASTI yn nodi 26 o brosiectau trawsyrru strategol yr amcangyfrifir y byddant yn costio £20 biliwn, a gaiff eu gweithredu o dan broses cymeradwyo rheoleiddiol a chyllido symlach. Mae'r broses hon yn gwyro'n sylweddol oddi wrth y pyrth cam asesu rheoleiddiol niferus yn y broses cymeradwyo rheoleiddiol a chyllido bresennol, sef y fframwaith rheoleiddio Buddsoddi Trawsyrru Mawr ar y Tir (LOTI).

Cafodd y fframwaith ASTI, a ddaeth i rym ym mis Awst 2023, ei roi ar waith drwy addasiadau i drwyddedau trawsyrru trydan a bydd yn galluogi ac yn cymell cyflenwyr i ddarparu'r buddsoddiadau strategol mawr hyn mewn trawsyrru yn amserol. Drwy'r fframwaith hwn, bydd modd cyflawni a chyllido gwaith adeiladu cynnar drwy raglenni a bydd yn rhoi cymhelliant mawr i'r perchnogion trawsyrru i gyflawni ar amser. Ym mis Mawrth 2024, dyfarnwyd cyllid dros dro o £2 biliwn i Eastern Green Link 1 a £3.4 biliwn i Eastern Green Link 2, a fydd yn cludo pedwar gigawat o drydan i hyd at bedair mil o gartrefi drwy draffyrdd trydan o dan y môr ac o dan y ddaear.

### *Cysylltiadau â'r rhwydwaith trydan*

Er mwyn ymateb i heriau o ran cysylltiadau newydd â'r rhwydwaith trydan, cyhoeddodd Ofgem 'Lythyr Agored' ar ddiwygiadau i'r broses gysylltu ym mis Mai 2023. Nododd y llythyr fod yn rhaid i gamau gael eu cymryd nawr, ar gyfer ffynonellau newydd o gynhyrchu ynni carbon isel o orsafoedd niwclear newydd, yr haul a'r gwynt er mwyn cyflawni targedau cynhyrchu sero net ar gyfer 2035 a 2050. Amcan Ofgem yw gweld cynigion cysylltu trydan sydd â dyddiadau cysylltu byrrach ar gyfartaledd, sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid yn well ac yn ei gwneud yn bosibl i bontio i sero net yn amserol. Yn dilyn ymatebion i'r llythyr, cyhoeddodd Ofgem a'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net Gynllun Gweithredu Cysylltiadau ar y cyd ym mis Tachwedd 2023, a oedd yn cynnwys fframwaith o gamau gweithredu presennol ac uchelgeisiau eraill sydd eu hangen ac yn sefydlu trefniadau llywodraethu newydd i oruchwylio, llywio a chydlynu diwygiadau i'r broses gysylltu. Er bod prosiectau sy'n cynhyrchu 17 o gigawatiau wedi cael cynnig dyddiadau cysylltu â'r grid cynharach o ganlyniad i'r diwygiadau i'r broses, bu oedi o ran gallu'r diwydiant i ymateb. Mae'r ffocws presennol ar gynyddu nifer y cysylltiadau yn cael ei ysgogi gan gynnig uchelgeisiol gan Weithredwr y System Drydan sy'n cynnig symud pob cwsmer presennol i 'giw yn barod yn gyntaf'.

### *Asedau Hybrid ar y môr – cynllun peilot a'r gyfundrefn reoleiddio*

Er mwyn galluogi a chyflymu buddsoddiadau mewn seilwaith ar y môr, cyhoeddodd Ofgem ddau ymgynghoriad ym mis Mehefin 2023 – un ar y gyfundrefn reoleiddio ar gyfer asedau hybrid ar y môr (y rhaglen rhyng-gysylltwyr amlbwrpas gynt) ac ymgynghoriad ar y cyd â'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ar drefniadau'r farchnad ar gyfer rhyng-gysylltwyr amlbwrpas. Cynhaliwyd ymarfer dadansoddi cost a budd ar gyfer dau brosiect peilot a oedd yn gymwys i'r cynllun peilot 'Ased Hybrid ar y Môr' dros haf 2023 hefyd. Gwnaeth Ofgem benderfyniad 'o blaid' ym mis Rhagfyr 2023 i gymeradwyo'n amodol un prosiect i'r Iseldiroedd – LionLink ar gyfer cysylltiad 1.8 gigawat arfaethedig. Cyhoeddwyd penderfyniad dilynol ym mis Chwefror 2024, mewn perthynas â'r 'Rhyng-gysylltwyr Ansafonol' yng nghynllun peilot Ofgem. Mae rhagor o waith polisi ar drefniadau'r farchnad a 'Chontractau ar gyfer Gwahaniaeth', sy'n agweddau allweddol ar gyfundrefn ar gyfer rhyng-gysylltwyr amlbwrpas, yn cael ei wneud gan yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ac Ofgem. Efallai y bydd unrhyw 'Ryng-gysylltwyr Ansafonol' yn y dyfodol yn dod o dan gyfundrefn reoleiddio wahanol i'r hyn sydd yn y cynllun peilot, yn dibynnu ar sut y bydd y sector 'Ased Hybrid ar y Môr' yn datblygu.

### *Cydgysylltu ar y môr*

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Ofgem ymgynghoriad ar y broses 'Asesu Cam Cynnar' ar gyfer rhagfuddsoddi, i roi hyder i ddatblygwyr ynglŷn â'r ffordd yr ymdrinnir â rhagfuddsoddi. Ar ôl penderfyniad ym mis Rhagfyr 2023, mae'r Asesiad Cam Cynnar bellach ar waith, ac mae Ofgem yn aros am geisiadau. O ystyried y diddordeb mawr a welwyd drwy ymholiadau cychwynnol, mae'n debygol y bydd y polisi yn ehangu ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer dyluniadau wedi'u cydgysylltu ar gyfer asedau gwynt ar y môr a nodir fel rhan o'r 'Dylunio Rhwydwaith Cyfannol a'r Ymarfer Dilynol' ('HND/FUE').

### *HND/FUE – Dosbarthu asedau*

Cyhoeddwyd penderfyniad ar ddosbarthu asedau ar gyfer yr HND/FUE ym mis Ebrill 2024. Mae Ofgem wedi rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a gweithredwyr trawsyrru ynglŷn â'r gofynion trwyddedu ar gyfer asedau a ystyriwyd yn yr HND a'r HND/FUE. Cyhoeddwyd dosbarthiad asedau ar gyfer diwygiadau i'r HND ym mis Mawrth 2024, ac ar gyfer gwaith sy'n mynd rhagddo ar y cyd â Gweithredwr y System Drydan.

### *'Model adeiladu 'Perchennog Trawsyrru ar y Môr'*

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Ofgem benderfyniad ar 'Pathways to 2030', ynglŷn â'r modelau cyflawni ar gyfer asedau trawsyrru afreidiol ar y môr. Yn yr ymgynghoriad hwnnw, rhoddwyd dewis rhwng model adeiladu generadur cystadleuaeth hwyr iawn a model adeiladu Perchennog Trawsyrru ar y Môr cystadleuaeth hwyr i ddatblygwyr. Mae ymgynghoriad dilynol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023, yn adeiladu ar y cynnig cychwynnol hwnnw, ac yn ceisio adborth ar ddatblygu a gweithredu model adeiladu Perchennog Trawsyrru ar y Môr. Bydd Ofgem yn cyhoeddi penderfyniad 'o blaid' yn ystod ail hanner 2024.

## Rheoleiddio craidd – Galluogi buddsoddiad amser-gritigol mewn seilwaith

*Rhyng-gysylltwyr*


*Cylch Tendro 10 ar gyfer Perchennog Trawsyrru ar y Môr*

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Ofgem i hyrwyddo'r prosesau tendro ar gyfer perchnogaeth a gweithredu asedau Perchennog Trawsyrru ar y Môr, er mwyn sicrhau bod yr holl gostau adeiladu yn cynnig gwerth am arian. Mae'r holl gyhoeddiadau tendro ar gael ar wefan Ofgem.

Yn ystod y flwyddyn, roedd, Cylch Tendro 10 yn weithredol. Mae'r cylch tendro hwn, a lansiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (mis Ionawr 2023), wedi ystyried tri phrosiect fferm wynt ar y môr: Dogger Bank A, Neart na Gaoithe, a Moray. Mae pob prosiect ar gamau gwahanol o broses cyn cymhwyso fanylach.

*Cyfundrefn Capio a Phennu Terfyn Isaf*

Yn ogystal â hyrwyddo Cylch Tendro 10, parhaodd Ofgem i asesu prosiectau rhyng-gysylltwyr o ran eu haddasrwydd ar y cam 'Asesu Prosiect Cychwynnol' drwy ein cyfundrefn capio a phennu terfyn isaf. Er nad oes disgwyl i ryng-gysylltwyr fod yn ffynhonnell o fewnforion trydan rhad yn bennaf fel y'i disgwyliwyd pan sefydlwyd y gyfundrefn capio a phennu terfyn isaf yn gyntaf, mae disgwyl iddynt ddod yn ffordd o roi hyblygrwydd a gwneud y cyflenwad yn fwy diogel mewn system ynni sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn bennaf. Yn ystod haf 2023, cynhaliwyd ymarfer dadansoddi cost a budd ar gyfer y saith ymgeisydd 'Cyfnod 3'. Cyhoeddodd Ofgem benderfyniad 'o blaid' ym mis Rhagfyr 2023, i gymeradwyo un o'r saith ymgeisydd i adeiladu cysylltiad cebl foltedd uchel – Rhyng-gysylltydd Ynni Tarchon – ar gyfer cysylltiad 1.4 gigawat arfaethedig rhwng Prydain Fawr a'r Almaen. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar yr Asesiad Cam Cychwynnol o bob un o'r saith cais ym mis Mawrth 2023, a ddaeth i ben ym mis Mai.



### *Cyflawni Cyfnod Rheoli Prisiau RIIO*

Bob blwyddyn, mae perchnogion rhwydweithiau dosbarthu a thrawsyrru yn rhoi adroddiad blynyddol ar eu perfformiad yn erbyn allbynnau a chymhellion blynyddol, prosiectau arloesedd a'u perfformiad ariannol cyffredinol i Ofgem. Yn ystod y flwyddyn, asesodd Ofgem adroddiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 – ceir crynodebau o'r canfyddiadau isod.

*Dosbarthu Trydan ('ED')*
Blwyddyn reoleiddio 2022-23 oedd blwyddyn olaf RIIO-ED1. Gwnaeth y mwyafrif o grwpiau Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu berfformio'n dda yn erbyn targedau ar gyfer allbynnau, ond roedd y perfformiad yn erbyn targedau a oedd yn gysylltiedig â'r amgylchedd a chysylltiadau yn amrywio. Roedd hanner y 14 o rwydweithiau Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu wedi tanwario yn erbyn eu lwfans blynyddol. Mae'r broses o derfynu ED1 yn mynd rhagddi (gweler isod am ddiweddariad ar y broses o derfynu ED1).

*Trawsyrru Trydan ('ET')*
Gwnaeth pob gweithredwr trawsyrru gyflawni neu ragori ar y targedau allbwn blynyddol o ran 'Dibynadwyedd ac Argaeledd' ac 'Amgylchedd' ym Mlwyddyn 2 RIIO-ET2. Methodd NGET â chyflawni targedau ar gyfer 'Cysylltiadau Amserol', 'Ansawdd Cysylltiadau', 'Arolwg' a 'Diogelwch' (Cyfradd Amlder Anafiadau), a chafodd ei gosbi am hynny. Parhaodd pob perchennog trawsyrru i danwario yn erbyn ei lwfans blynyddol ym Mlwyddyn 2, ond maent yn disgwyl gwario ei lwfans ar y cyfan dros gyfnod cyfan cyfnod Rheoli Prisiau RIIO-ET2.

*Dosbarthu Nwy ('GD')*
Llwyddodd grwpiau'r rhwydwaith dosbarthu nwy ('GDN') i gyflawni eu targedau allbwn ar y cyfan, gydag ychydig o eithriadau, gan gynnwys ar gyfer 'Cysylltiadau' (tangyflawnodd pob grŵp yn y categori hwnnw) ac ychydig o is-gategorïau o 'Boddhad Cwsmeriaid' a 'Diogelwch'. Parhaodd tri allan o bedwar grŵp GDN i danwario yn erbyn eu lwfans blynyddol ym Mlwyddyn 2. Mae Cadent wedi methu â chyflawni targedau o ran ymateb brys ar gyfer dau o'i bedwar rhwydwaith; Gwnaeth SGN hefyd fethu â chyflawni'r un targed ar gyfer dau o'i rwydweithiau.

*Trawsyrru Nwy ('GT')*
Gwnaeth National Gas danberfformio yn erbyn nifer o dargedau allbwn ym Mlwyddyn 2, ond rhagwelir y bydd yn adfer o'i sefyllfa bresennol dros y cyfnod Rheoli Prisiau. Methwyd â chyflawni'r targedau perfformiad yn erbyn, er enghraifft, Risg i Asedau Rhwydwaith ('NARM'), 'Ansawdd rhagolygon o'r galw' ac elfennau o 'Cyflawni Iechyd Asedau'; a pharhaodd National Gas i danwario yn erbyn ei lwfans blynyddol ym Mlwyddyn 2.

*Terfynu RIIO-1 ar gyfer Trawsyrru Trydan a Nwy a Dosbarthu Nwy*
Daeth y cyfnod Rheoli Prisiau blaenorol i ben ar 31 Mawrth 2021. Yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, gwnaeth Ofgem adolygu ac asesu perfformiad cwmnïau a chyhoeddi penderfyniad ar werth addasiadau refeniw ym mhob sector; gan 'derfynu' cyfnod Rheoli Prisiau RIIO-1. Mae addasiadau canlyniadol i Fodel Ariannol Rheoli Prisiau RIIO-1 'etifeddol' wedi cael eu hystyried a'u hadlewyrchu fel rhan o RIIO-2. Yn achos trawsyrru trydan, cafodd diwygiadau cysylltiedig i drwydded drawsyrru RIIO-2 eu nodi a'u cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023.

O ran dosbarthu trydan, daeth y cyfnod Rheoli Prisiau blaenorol i ben ar 31 Mawrth 2023. Dechreuwyd ar y broses asesu ym mis Chwefror 2024, a arweiniodd at farn 'o blaid' ar werth addasiadau arfaethedig i refeniw a fydd yn destun ymgynghoriad ym mis Mehefin 2024, a disgwylir y penderfyniad terfynol yn yr hydref. Caiff addasiadau canlyniadol i gyfnod Rheoli Prisiau RIIO-1 eu hystyried a'u hadlewyrchu yn RIIO-2 (mis Tachwedd 2024).

## Rheoliadau Systemau a Rhwydweithiau yn y dyfodol ('FSNR')

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Ofgem ymgynghoriad a oedd yn nodi cynigion ar y fframwaith ar gyfer y cylch Rheoli Prisiau nesaf. Bydd angen i'r broses o reoleiddio rhwydweithiau ynni alluogi trawsnewidiad ar gyfer anghenion systemau ynni'r dyfodol, a pharhau i gynnal prosesau rheoli a gweithrediadau rhwydwaith effeithlon. Fel y'i nodwyd yn y 'Llythyr Agored', ym mis Gorffennaf 2023, penderfynodd Ofgem beidio â chyflwyno cyfnod rheoli prisiau byrdymor yn y sectorau nwy ac, yn lle hynny, ddatblygu cyfnod rheoli prisiau ex-ante tymor canolig ar gyfer y rhwydweithiau nwy, yn dechrau yn 2026.

Cadarnhaodd y Penderfyniad ar Fframwaith FSNR (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023) y byddai'r cyfnodau rheoli prisiau nesaf ar gyfer trawsyrru nwy a thrydan (RIIO-3) yn para am bum mlynedd ac yn esblygu o'r fframwaith RIIO-2 cyfredol.

### Cyfundrefn rheoleiddio pŵer niwclear

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Ofgem i gynghori a chefnogi'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ar y gyfundrefn rheoleiddio economaidd ar gyfer gwaith niwclear newydd Sizewell C, er mwyn cefnogi'r llywodraeth o ran ei thargedau uchelgeisiol i ddatgarboneiddio'r system drydan. Roedd hyn yn cynnwys helpu'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net i ddrafftio'r drwydded economaidd ac ymateb i'w hymgynghoriad ar addasiadau i drwydded cynhyrchu trydan Sizewell C. Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Ofgem ganllawiau economaidd drafft, a oedd yn nodi'r dull rheoleiddio disgwyliedig. Ochr yn ochr â'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, datblygodd Ofgem 'Model Fframwaith Rheoli Prisiau' hefyd, yn ogystal â gofynion ar gyfer deunydd adrodd rheoleiddiol. Yn dilyn y 'Penderfyniad Buddsoddi Terfynol', disgwylir i Ofgem ddechrau rheoleiddio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### Cyfundrefn rheoleiddio Dal, Defnyddio a Storio Carbon

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Ofgem i gynghori a chefnogi'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ar ddylunio a datblygu cyfundrefn rheoleiddio economaidd Dal, Defnyddio a Storio Carbon, a pharatoi ar gyfer ymgymryd â rôl rheoleiddiwr economaidd. Roedd hyn yn cynnwys cynghori'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ar bolisi economaidd ar gyfer 'Trac 1' a 'Chlystyrau Cludo a Storio', gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu proses dilynianu clystyrau 'Trac 1' a'r Cod Rhwydwaith newydd ar gyfer Dal, Defnyddio a Storio Carbon.

### Model busnes hydrogen

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Ofgem i gynghori a chefnogi'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ar ddylunio a datblygu'r gyfundrefn rheoleiddio economaidd ar gyfer cludo hydrogen. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar drefniadau trwyddedu, o ran y Ddeddf Ynni (2023), rhoi cymorth ar ddyluniad y model busnes, gan gynnwys o ran dyrannu, rhwydwaith a threfniadau codi tâl yn seiliedig ar asedau a reoleiddir.

## Ein blaenoriaeth yn y tymor hwy: Datblygu a chyflwyno diwygiadau i'r farchnad

### Galluogi marchnadoedd ar gyfer hyblygrwydd

Er mwyn sicrhau system ynni sero net lle y ceir lefel uchel o ynni adnewyddadwy a lefel gynyddol o drydaneiddio gwres a thrafnidiaeth, mae hyblygrwydd yn hanfodol. Hebddo, gallai ynni adnewyddadwy gael ei wastraffu, a gallai cyfnodau brig o ran defnydd ynni gynyddu biliau i ddefnyddwyr. Ar ôl cyhoeddi 'Cais am Fewnbwn' ar ddyfodol hyblygrwydd dosbarthedig, cyhoeddodd Ofgem ymateb ym mis Gorffennaf 2023. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Ofgem benderfyniad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu lleol, gan gynnwys:

- cyflwyno 'Cynllunwyr Strategol Ynni Rhanbarthol' sy'n atebol am gydlynu gwaith cynllunio strategol effeithiol ar y lefel is-genedlaethol.
- creu rôl 'Hwylusydd Marchnad' i endid unigol, er mwyn cyflwyno marchnadoedd hyblyg
- cadw gweithrediadau amser real yn nwylo Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu trydan, er mwyn sicrhau atebolrwydd clir am ddibynadwyedd a diogelwch.

Ar ôl y penderfyniad hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad dilynol ar y corff cyflawni ar gyfer 'Hwylusydd Marchnad', a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2024. Cyhoeddwyd penderfyniad ym mis Gorffennaf 2024.

Drwy gydol y flwyddyn, mae Ofgem wedi rhoi cyngor polisi i'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, er mwyn helpu i ddatblygu'r ymgynghoriad ar 'Raglen Systemau Trydan Deallus a Diogel, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024. Nod y rhaglen oedd creu'r fframweithiau technegol a rheoleiddiol, er mwyn galluogi defnydd hyblyg o ynni ar raddfa ddomestig i gyfrannu i reoli'r galw drwy'r grid trydan cyfan.

## Rheoleiddio goruchwyliol – Galluogi marchnadoedd ar gyfer hyblygrwydd

### *Setliad Hanner Awr drwy'r Farchnad Cyfan*

Parhaodd Ofgem i oruchwylio a chefnogi'r broses o gyflwyno'r rhaglen setliad hanner awr a arweinir gan y diwydiant i'r farchnad gyfan ('MHHS'). Gan fod mesuryddion clyfar yn cofnodi faint o ynni a ddefnyddir neu a allforir bob hanner awr, mae hyn yn rhoi cyfle i wneud y broses setlo yn fwy cywir ac amserol, a gweithredu fod modd i alluogi cynhyrchion a gwasanaethau newydd; er enghraifft, cefnogi'r defnydd o gerbydau trydan neu ddefnyddio dyfeisiau clyfar.

Er mai Ofgem yw noddwr y rhaglen, caiff ei rheoli gan Elexon, y gweinyddwr cod ar gyfer y 'Cod Mantoli a Setlo'. Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Ofgem benderfyniad a oedd yn cymeradwyo diwygiadau i gynllun busnes Elexon i roi'r rhaglen ar waith. Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net weithredu pwerau MHHS yn y Ddeddf Mesuryddion Clyfar (2018), a ddaeth i rym ar 30 Ebrill 2024.

### *Cyflwyno mesuryddion clyfar*

Mae gan Ofgem rôl reoleiddiol i oruchwylio'r rhaglen i gyflwyno mesuryddion clyfar, a weithredir gan gyflenwyr ynni manwerthu. Erbyn diwedd 2023, roedd 61% o'r holl fesuryddion clyfar ym Mhrydain Fawr yn rhai clyfar neu uwch, gyda 30.8 miliwn ohonynt yn gweithredu mewn modd clyfar (54%).

Ar ôl i gyfundrefn newydd o ran targedau gael ei chyflwyno dros ddwy flynedd yn ôl, methodd y rhan fwyaf o'r cyflenwyr â chyflawni eu targedau cyflwyno yn 2023. O ganlyniad, mae Ofgem yn bwriadu cyhoeddi dull gweithredu ynglŷn â chydymffurfio a gorfodi.

Yn ychwanegol at hyn, fel y'i nodwyd mewn 'Llythyr Agored' i gyflenwyr ym mis Ionawr 2024, cododd Ofgem bryderon ynglŷn â disodli mesuryddion rhagdalu traddodiadol a 'Mesuryddion Radio Teleswitch', â mesuryddion rhagdalu clyfar newydd, sy'n cynnig amrywiaeth fawr o fuddiannau hyblygrwydd nas cynigir gan fesuryddion hŷn. O ran y materion cydymffurfio hyn a rhai eraill, bydd Ofgem yn parhau i gymryd rhwymedigaethau cyflenwyr o ddifrif – yn enwedig y rhai sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gefnogi a diogelu cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus.

### *Rheoli Prisiau'r Cwmni Trosglwyddo Data*

Mae'r Cwmni Trosglwyddo Data wedi'i drwyddedu i gyflwyno'r rhwydwaith cyfathrebu mesuryddion clyfar i Brydain Fawr gyfan. Mae Ofgem yn rheoleiddio'r Cwmni Trosglwyddo Data fel darparwr monopoli drwy ddefnyddio cyfnod Rheoli Prisiau, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian i gwsmeriaid. Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Ofgem ei phenderfyniad blynyddol ar gostau'r Cwmni Trosglwyddo Data ar gyfer blwyddyn reoleiddiol 2022-23. Roedd hyn yn dilyn asesiad Ofgem o'r cynnig ynglŷn â rheoli prisiau a gyflwynwyd gan y Cwmni Trosglwyddo Data (mis Gorffennaf 2023) ac ymgynghoriad cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023.

Yn y penderfyniad, gwrthododd Ofgem gyfanswm o £14.962 miliwn mewn costau yr aethpwyd iddynt yn 2022-23, a oedd yn annerbyniol ym marn Ofgem. Roedd y swm hwn yn rhan o gyfanswm costau cofnodedig o £611 miliwn. Hefyd, gwrthododd Ofgem gyfanswm o £229.341 miliwn mewn costau a ragwelwyd dros flynyddoedd rheoleiddiol 2023-24, 2024-25 a 2025-26.

### *Trwydded y Cwmni Trosglwyddo Data a'r adolygiad model rheoleiddiol*

Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd Ofgem benderfyniad ar y cam cwmpasu o'i hadolygiad o drwydded y Cwmni Trosglwyddo Data, gan ddod i'r casgliad y dylai dyluniad y fframwaith newydd fod yn seiliedig ar bum nodwedd allweddol:

- Dylai bwrdd y Cwmni Trosglwyddo Data gynnwys mwyafrif o randdeiliaid (cwsmeriaid) neu gael ei reoli gan aelodau annibynnol a chynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr.
- Dylai ei 'Fusnes Gorfodol Craidd' gael ei gynnal ar sail nid er elw.
- Dylai costau gweithgareddau y tybir eu bod yn ddigon sefydlog gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan Ofgem, drwy broses rheoli prisiau ex-ante neu broses pennu cyllideb.

- Bydd y model gweithredol yn parhau'n un wedi'i allanoli'n bennaf, gyda chontractau allweddol yn cael eu caffael yn gystadleuol ar y farchnad (penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd yn amodol ar gyfyngiadau'r drwydded).
- Bydd 'Busnes Gorfodol Craidd' y Cwmni Trosglwyddo Data yn parhau i gael ei ariannu drwy godi tâl ar ddefnyddwyr.

Dechreuodd yr adolygiad ar gyfer y cam dylunio manwl, i ddatblygu'r model rheoleiddio newydd, drwy gynnal gweithdai i randdeiliaid ym mis Tachwedd 2023.

### Diwygiadau i'r farchnad gyfanwerthu a threfniadau codi tâl y rhwydwaith

#### *Diweddariad ar ddiwygiadau i'r farchnad gyfanwerthu*

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Ofgem Asesiad o Opsiynau Prisiau Ymylol Lleoliadol ar gyfer Prydain Fawr, a gyflwynwyd i'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ochr yn ochr â mewnbwn arall ar gyfer ei Hadolygiad o Drefniadau'r Farchnad Ynni ('REMA'). Cyhoeddodd yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ei hail ymgynghoriad ym mis Mawrth 2024. Rydym yn parhau i gyfrannu at y broses o ddatblygu polisïau o dan REMA.

#### *Diwygio'r gyfundrefn taliadau dosbarthiadol (DUoS)*

Yn ystod y flwyddyn, ailddechreuodd Ofgem ar ei gwaith ar Adolygiad Sylweddol o God DUoS. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi 'Llythyr Agored' ym mis Ebrill 2023 i randdeiliaid yn y diwydiant, yn nodi cwmpas y gwaith ar gyfer 2024-25. Mae opsiynau ar gyfer diwygio'r gyfundrefn wrthi'n cael eu datblygu.

#### *Diwygio'r gyfundrefn taliadau trawsyrru trydan (TNUoS)*

Ailddechreuodd y Tasglu TNUoS yn 2023-24, gan roi cyfeiriad strategol ar welliannau yn y dyfodol agos ar gyfer y gyfundrefn taliadau trawsyrru. Cyhoeddwyd 'Llythyr Agored' ym mis Medi 2023, a oedd yn amlinellu ein hystyriaethau o opsiynau diwygio yn y tymor hwy yng nghyd-destun REMA, a chyhoeddwyd crynodeb o ymatebion a'r camau nesaf ym mis Mawrth 2024.

## Ein blaenoriaeth yn y tymor hwy: Diwygio trefniadau llywodraethu

### Gweithredwr y System Ynni Genedlaethol ('NESO')

Ochr yn ochr â'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, parhaodd Ofgem i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno NESO, y disgwylir iddo gael ei lansio yn haf 2024. Bydd yn cadw enw Gweithredwr y System Drydan ('ESO') tan hynny.

Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Ofgem ymgynghoriad ar amodau trwydded drafft i'r NESO. Wedyn, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cyd ar amodau trwydded newydd NESO ym mis Mawrth 2024, ochr yn ochr â newidiadau canlyniadol i amodau'r drwydded bresennol.

Mae Ofgem hefyd wedi sefydlu ac wedi rhedeg 'Rhaglen Newid Cod' ar gyfer y newidiadau i'r cod sydd eu hangen i sefydlu'r NESO. Mae Ofgem hefyd wedi gwneud penderfyniadau rheoleiddio allweddol ynglŷn â goruchwylio a chyllido gweithgareddau gwahanu a thrawsnewid a gyflawnir gan Weithredwr y System Drydan a'r Grid Cenedlaethol.

### Diwygio trefniadau llywodraethu codau ynni

Yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2023, cynhaliodd Ofgem gyfres o weithdai i randdeiliaid ynglŷn â'r opsiynau polisi i ddiwygio codau ynni. Roedd dirnadaethau o'r gweithgarwch ymgysylltu hwn yn cefnogi rhagor o waith datblygu polisi a dadansoddi, ac ar ôl i Ddeddf Ynni 2023 gael ei phasio ym mis Hydref, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar ddiwygio codau ynni ym mis Ionawr. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys asesiad effaith drafft ar gydgrynhoi codau. Mae Ofgem wedi parhau i weithio gyda'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net i gyhoeddi ymgynghoriad cyfochrog ar drwyddedu rheolwyr codau ac is-ddeddfwriaeth ym mis Mawrth 2024.

### Digideiddio'r sector ynni

#### *Canllawiau Arfer Gorau Data*

Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd Ofgem benderfyniad ymgynghori ar ddiweddariadau i'r 'Canllawiau Arfer Gorau Data', ar ôl cael

cymeradwyaeth eang y diwydiant am y newidiadau. Mae pob penderfyniad wedi cael ei roi ar waith erbyn mis Mawrth 2024 ac mae Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu wedi cyhoeddi data cyfunol ar fesuryddion clyfar ac mae pob rhwydwaith wedi cyhoeddi catalogau data.

Cyhoeddwyd 'Llythyr Agored' ym mis Mawrth 2024, yn amlinellu sut y byddai Ofgem yn cyflwyno 'Canllawiau Arfer Gorau Data ar Godau'r Diwydiant'. Caiff hyn ei roi ar waith drwy gydol 2024-25.

*Datganiad Datblygu Hirdymor ('LTDS')*

Lansiodd Ofgem ymgynghoriad anffurfiol ar ddiweddariadau i'r Datganiad Datblygu Hirdymor ym mis Awst 2023. Gwnaeth safbwyntiau rhanddeiliaid lywio ymgynghoriad ffurfiol ar ddiweddariadau i'r Datganiad Datblygu Hirdymor ym mis Ionawr 2024. Cyhoeddwyd penderfyniad ar y newidiadau i'r Datganiad Datblygu Hirdymor a threfniadau llywodraethu cysylltiedig safon y 'Model Gwybodaeth Cyffredin' ym mis Ebrill 2024.

*Strategaeth Ynni Ddigidol*

Ofgem continued to collaborate with DESNZ on multiple workstreams, aligning publications where necessary. Prior to the announcement of the July 2024 election, a joint consultation on the governance of the Data Sharing Infrastructure (a piece of digital infrastructure) was planned for publication in May 2024. Ofgem had also been working with DESNZ to test this governance and to input findings from their Digital Spine Feasibility Study innovation project.

## Cyflwyno cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar ran y llywodraeth

Mae Ofgem yn gweinyddu 12 o gynlluniau effeithlonrwydd ynni, carbon isel a fforddiadwyedd ar ran y llywodraeth. Parhaodd ein gweinyddiaeth i bontio tuag at ddatgarboneiddio prosesau cynhyrchu ynni domestig ac annomestig, mabwysiadu datrysiadau gwres adnewyddadwy, a helpu cwsmeriaid mewn sefyllfa fregus drwy roi cymorth uniongyrchol i dalu eu biliau a gosod mesurau effeithlonrwydd ynni. Rydym yn gweithio gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid i weithredu a chyflwyno cynlluniau sy'n cyflawni'r amcanion hyn.

Mae ein rôl yn gweinyddu'r cynlluniau yn ategu ein rôl o ran rheoleiddio craidd ac yn cefnogi'r elfennau allweddol o'n fframwaith buddiannau defnyddwyr, drwy helpu cwsmeriaid i wneud dewisiadau gwyrddach fel rhan o broses bontio cost isel. Mae'r cynllun yn darparu cymorth gwerth £10 biliwn bob blwyddyn drwy gyfuniad o drethiant a chyllido biliau.

Ein ffocws craidd yw gweinyddu'r cynlluniau'n effeithlon, rhoi profiad ardderchog i ddefnyddwyr, cyflawni ar ran y llywodraeth a sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Disgrifir rhaglen waith gweinyddu'r cynlluniau craidd o dan y tri phrif gategori isod.

### Cynlluniau gwres adnewyddadwy

*Cynllun Uwchraddio Boeleri*

Mae'r Cynllun Uwchraddio Boeleri, a lansiwyd ym mis Mai 2022, yn rhoi cymorth i berchnogion eiddo osod systemau gwresogi carbon isel, er mwyn helpu i bontio i sero net drwy grantiau cyfalaf ymlaen llaw, i osod pympiau gwres a boeleri biomas mewn cartrefi ac adeiladau annomestig. Mae cyllid grant gwerth £450 miliwn ar gael rhwng 2022 a 2025.

Gwnaeth yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net gynyddu lefel y grant ar gyfer pympiau gwres o'r awyr a phympiau gwres o'r ddaear o £5,000 a £6,000 i £7,500 ym mis Hydref 2023, ac mae Ofgem wedi addasu ei threfniadau gweinyddol ac wedi gwneud y newidiadau yn unol â hynny. Mae'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net hefyd wedi ymgynghori ar newidiadau posibl i'r cynllun, gan gyhoeddi ei hymateb ym mis Mawrth 2024. Cyn i'r etholiad ym mis Gorffennaf 2024 gael ei gyhoeddi, cadarnhaodd yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net y byddai newidiadau yn cael eu gwneud i'r cynllun, gan gynnwys dileu'r gofyniad nad oes gan eiddo unrhyw argymhellion heb eu gweithredu ar gyfer inswleiddio'r atig a waliau ceudod ar ei Dystysgrif Perfformiad Ynni. Dros y flwyddyn, mae Ofgem wedi adolygu ac wedi gwella ei phrosesau gweinyddol a'i systemau digidol o hyd, gan weithio'n agos gyda defnyddwyr y cynllun i sicrhau bod y Cynllun Uwchraddio Boeleri yn parhau i ddiwallu eu hanghenion.

### *Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd ac Ardoll Nwy Gwyrdd*

Mae'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd yn rhoi cymorth ariannol i weithfeydd sy'n cynhyrchu biofethan drwy dreulio anerobig ac yn ei chwistrellu i mewn i'r grid nwy. Bydd y gweithfeydd yn cael tariff chwarterol am 15 mlynedd, gan dybio y byddant yn parhau i fodloni'r holl feini prawf perthnasol o ran cymhwystra. Caiff y cynllun ei ariannu gan yr Ardoll Nwy Gwyrdd sy'n gosod rhwymedigaeth ar gyflenwyr nwy trwyddedig i wneud taliadau ardoll chwarterol.

Cadarnhaodd y llywodraeth y byddai'r cynllun yn cael ei hymestyn am ddwy flynedd a phedwar mis arall, sy'n golygu y bydd yn agored i ymgeiswyr tan fis Mawrth 2028. Gwnaeth yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net newidiadau i reoliadau'r Ardoll Nwy Gwyrdd a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2023, ac mae Ofgem wedi addasu ei threfniadau gweinyddol yn unol â hynny. Mae'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net hefyd wedi ymgynghori ar newidiadau posibl i'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd, a disgwylir newidiadau cysylltiedig i ddeddfwriaeth y cynllun yn 2024.

### *Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy*

Er bod cynlluniau domestig ac annomestig a chynllun Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon bellach ar gau i ymgeiswyr newydd, yn 2023-24 parhaodd Ofgem i weinyddu'r cynlluniau yn unol â'r rheoliadau, gan gynnwys rhoi taliadau cysylltiedig i aelwydydd, busnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau nid er elw, a bydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r cynllun.

**Cynlluniau Gwres Adnewyddadwy:**

O dan gynllun BUS, mae **£138.9 miliwn** wedi cael ei dalu er mwyn helpu i osod **23,871** o systemau gwresogi carbon isel.

O dan gynllun GGSS hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024, mae digon o nwy gwyrdd wedi cael ei chwistrellu i mewn i'r grid nwy i gynhyrchu **18,847 MWh** o wres ac mae **£1.1 miliwn** wedi cael ei dalu i'r cyfranogwr cofrestredig unigol.

Yn ystod oes y cynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy hyd at fis Mawrth 2024:

**87 TWh** o wres thermol wedi'i gynhyrchu (NDRHI-GB a DRHI)

**6,090 MW** o gapasiti gwres thermol wedi'i achredu (NDRHI-GB)

266,629 o daliadau wedi'u gwneud, gwerth tua **£114 miliwn** (DRHI) yn ystod 2023-24

71,753 o daliadau wedi'u gwneud, gwerth tua **£932 miliwn** (NDRHI-GB) yn ystod 2023-24

## Cynlluniau effeithlonrwydd ynni a chymdeithasol

### *Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni ('ECO')*

Cynllun effeithlonrwydd ynni ym Mhrydain Fawr gan y llywodraeth yw'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, a'i nod yw mynd i'r afael â thlodi tanwydd a helpu i leihau allyriadau carbon. Mae'r cynllun, sydd bellach ar ei bedwerydd iteriad (ECO4), yn gosod rhwymedigaeth ar gyflenwyr ynni i hyrwyddo mesurau sy'n gwella gallu aelwydydd incwm isel, aelwydydd mewn tlodi tanwydd ac aelwydydd mewn sefyllfa fregus i wresogi eu cartrefi. Bydd ECO4 yn rhedeg rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2026, ac mae'n canolbwyntio ar wella'r cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni drwy ymarfer ôl-osod tŷ cyfan sy'n cynnwys nifer o fesurau. Yn ystod 2023-24, gwnaeth Ofgem fonitro'r cynnydd y mae cyflenwyr yn ei wneud tuag at gyflawni eu targedau a chyhoeddi adroddiad ar hynny ac mae wedi parhau i ddatblygu cofrestr y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni i'w gwneud yn haws i gyflenwyr roi gwybod am eu cynnydd.

### *Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr*

Un o gynlluniau'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yw Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr, a lansiwyd yn 2023. Ei nod yw cyflwyno mesurau inswleiddio yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni ym Mhrydain Fawr. Ei nod yw mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau biliau ynni. Ym mis Rhagfyr 2023, lansiodd Ofgem y gofrestr newydd ar gyfer y cynllun sydd wedi symleiddio'r ffordd rydym yn ei weinyddu ac wedi'i gwneud yn bosibl i gyflenwyr ynni roi gwybod am eu cynnydd yn fwy effeithlon.

### *Gostyngiad Cartrefi Cynnes*

Mae'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn cynnig ad-daliad i'r pensiynwyr tlotaf ac aelwydydd incwm isel ar eu cyfrif trydan neu nwy. Ymhlith y mathau eraill o gymorth a ddarperir gan gyflenwyr ynni mae mentrau'r diwydiant, megis gwirio'r hawl i fudd-daliadau, cymorth gyda dyledion, cyngor ar ynni a mesuryddion clyfar, a mesurau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd incwm isel ac aelwydydd mewn sefyllfa fregus. Yn 2023-24, parhaodd Ofgem i fonitro'r cynnydd y mae cyflenwyr ynni yn ei wneud tuag at gyflawni eu rhwymedigaethau a chyhoeddi adroddiad ar hynny.

**Cynlluniau effeithlonrwydd ynni a chymdeithasol:**

Yn ystod oes y cynlluniau Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni hyd at fis Mawrth 2023:

**Dros 3.59 miliwn** o fesurau wedi'u gosod i **2.42 miliwn** o aelwydydd

Yn ystod oes y cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes hyd at fis Mawrth 2023:

**£3.95 biliwn** o gymorth i gwsmeriaid sydd mewn tlodi tanwydd neu'n wynebu risg o dlodi tanwydd

**28.1 miliwn** o ad-daliadau biliau ynni

## Cynlluniau trydan adnewyddadwy

### *Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ('RO')*

Mae'r cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn rhoi cymorth hirdymor i gynhyrchu trydan adnewyddadwy ar raddfa fawr. Rhoddir tystysgrifau i weithredwyr gorsafoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy achredeidig ar gyfer y trydan a gynhyrchir ganddynt, ac sy'n cael ei werthu i gyflenwyr eraill, ac y gellir ei fasnachu â chyflenwyr eraill. Mae'n ofynnol i gyflenwyr trydan gyflwyno nifer penodol o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni mewn perthynas â phob MWh o drydan a gyflenwir i gwsmeriaid. Mae'n ofynnol i'r cyflenwyr hynny nad ydynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau i dalu swm cyfatebol i gronfa allbrynu. Dylai mesurau cadernid ariannol gwell olygu lleihad yn nifer y cyflenwyr sy'n methu cyflawni eu rhwymedigaethau drwy'r naill lwybr neu'r llall a nodir uchod. Yn 2023-24, parhaodd Ofgem i weinyddu'r cynllun drwy roi Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, monitro cynnydd cyflenwyr yn erbyn eu rhwymedigaethau, a datblygu system ddigidol newydd i symleiddio'r ffordd y byddwn yn gweinyddu'r cynllun.

Cyhoeddodd y llywodraeth 'Gais am Dystiolaeth' ynglŷn â newid y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy i dystysgrifau pris sefydlog o 2027 ymlaen, wrth i'r cymorth drwy'r cynllun i gynhyrchu ynni ddod i ben. Mae Ofgem wedi cymryd rhan yn y broses hon, gan gynnig cyngor ac arbenigedd i'r llywodraeth ar oblygiadau gweinyddol y newidiadau posibl hyn. Rydym yn disgwyl ymgynghoriad i weithredu ar hyn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a all newid y ffordd y gweinyddir y cynllun yn y bôn.

### *Tariffau Cyflenwi Trydan*

Rhoddir cymorth i gynhyrchu trydan adnewyddadwy thrydan carbon isel ar raddfa fach drwy'r cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan, lle mae cyflenwyr yn gwneud taliadau i'r rhai sy'n cymryd rhan sy'n gosod gosodiadau cynhyrchu trydan, megis paneli ffotofoltäig solar. Mae'r cynllun ar gau i gynhyrchwyr newydd ac, yn 2023-24, parhaodd Ofgem i weinyddu'r cynllun, gan gynnwys sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau.

### *Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy ('REGO')*

Mae'r cynllun REGO yn rhoi tryloywder i ddefnyddwyr ynglŷn â chyfran trydan cyflenwyr sy'n dod o ffynhonnell trydan adnewyddadwy.

Mae'r cynllun hwn yn rhoi tystysgrifau a elwir yn dystysgrifau REGO, sy'n dangos bod trydan wedi cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy. Yna, mae cyflenwyr yn cyflwyno'r rhain i ddilysu hawliadau amgylcheddol a wneir ar eu tariffau drwy'r Datgeliad Cymysgedd Tanwydd ('FMD'). Y flwyddyn gyfredol yw'r flwyddyn gyntaf lle na ellir cyflwyno Gwarantau Tarddiad Ewropeaidd (sy'n cyfateb i dystysgrifau REGO) mwyach ar gyfer FMD. Yn 2023-24, parhaodd Ofgem i fonitro gofynion blynyddol y cynllun o ran datgelu cymysgedd tanwydd a chyhoeddi adroddiad ar hynny.

Mae'r defnydd o REGO wedi ehangu y tu hwnt i FMD, ac mae'n cael ei ddefnyddio o bosibl mewn nifer o gynlluniau, gan gynnwys rhai sydd y tu hwnt i gylch gwaith Ofgem. Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi adolygiad o dystysgrifau REGO a disgwylir rhagor o fanylion.

### *Gwarant Allforio Clyfar ('SEG')*

Mae'r SEG yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyflenwyr trydan a elwir yn drwyddedeion SEG, dalu cynhyrchwyr ar raddfa fach, a elwir yn gynhyrchwyr SEG, am drydan carbon isel, y maent yn ei allforio'n ôl i'r Grid Cenedlaethol, yn lle'r Tariff Cyflenwi Trydan. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan yn SEG ac, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fwriad i ddiwygio'r cynllun. Yn 2023-24, parhaodd Ofgem i fonitro'r cynllun a chyhoeddi adroddiad arno.

**Cynlluniau Trydan Adnewyddadwy:**

**26,609** o orsafoedd cynhyrchu yn rhan o'r cynllun ym mis Mawrth 2023

**35.4 GW** o gapasiti trydan adnewyddadwy wedi'i achredu ym mis Mawrth 2023

**80.3 TWh** o gyfanswm y trydan o ffynonellau adnewyddadwy a gynhyrchwyd[1] ar y Cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn ystod 2022-23.

Yn ystod oes y cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan hyd at fis Mawrth 2023:

**870,063 o osodiadau achrededig**

**£14.34 biliwn** o daliadau wedi'u gwneud i gynhyrchwyr

Ers lansio'r SEG yn 2020 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023, mae **104.3 GWh** o drydan carbon isel wedi cael ei allforio i'r grid, ac mae taliadau gwerth **£8.97 miliwn** wedi cael eu gwneud i gynhyrchwyr yn ei erbyn.

[1] Yn cyfateb i 29.5% o gyflenwad y DU

# Adroddiad Cynaliadwyedd

## Cynaliadwyedd a'r effaith amgylcheddol fewnol

Fel rheoleiddiwr ynni'r llywodraeth, mae'r newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd yn cael lle blaenllaw yn ein hamcanion, yn cael eu hymgorffori ym mhopeth o'n polisïau, strategaeth, a chyflawni gweithredol, i redeg yr ystad o ddydd i ddydd. Yn unol ag Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth, mae Ofgem yn gweithio tuag at sero net erbyn 2050, ac rydym y parhau i adolygu ein heffaith ar yr amgylchedd, er mwyn sicrhau bod ein gweithrediadau a'n cymorth caffael yn cael eu cyflawni cyn targedau'r llywodraeth.

Mae hyn yn ein galluogi i weithredu er budd pennaf defnyddwyr ynni a hefyd hyrwyddo proses bontio deg o ran ynni.

### Newidiadau i'n hystad a pharamedrau adrodd ar gynaliadwyedd

Y flwyddyn hon, rydym wedi ailgyfrifo arwynebedd ein swyddfa yn Llundain i gywiro goramcangyfrif o ran meddiannaeth. Mae hyn yn golygu bod ein ffigurau wedi'u dosrannu ynglŷn ag allyriadau ychydig yn is na ffigurau blynyddoedd blaenorol. Rydym hefyd wedi cyfuno ein presenoldeb yng Nghaerdydd o ddau leoliad i un, gan ehangu i hwb llywodraeth pwrpasol a modern sydd wedi cyflawni gradd "Ardderchog" BREEAM ac sy'n gyson â strategaeth lleihau carbon Cyngor Dinas Caerdydd. Mae ein presenoldeb estynedig yng Nghaerdydd yn golygu, yn y dyfodol, y gallwn gyflwyno adroddiad ar bob un o'r tri lleoliad lle mae gennym swyddfeydd am y tro cyntaf, ar ôl adrodd ar ein swyddfeydd yn Llundain a Glasgow yn unig yn flaenorol.

Er bod yr ystad wedi mynd drwy sawl newid dros y flwyddyn ariannol diwethaf, rydym yn parhau'n uchelgeisiol o ran ein nodau cynaliadwyedd. Rydym yn defnyddio Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth fel y prif fesur o'n cynnydd – mae'r ymrwymiadau hyn yn rhychwantu'r cyfnod o 2021-2025 ac yn nodi fframwaith cynaliadwyedd i adrannau'r llywodraeth, gan amlinellu camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd i'r eithaf. Mae ein targedau yn cwmpasu meysydd cynaliadwyedd allweddol, gan gynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir, lleihau gwastraff i'r eithaf a hyrwyddo effeithlonrwydd o ran adnoddau.


### Ein perfformiad o ran Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGC) yn erbyn llinell sylfaen 2017-18

| GGC | Targed | Perfformiad 2023-24 | Sylwadau ar gynnydd | Nod Datblygu Cynaliadwy Cysylltiedig y CU |
|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | **Lleihau allyriadau nwyon tŷ cyffredinol 62%*** | ▼ -77% fesul CALI | Rydym wedi rhagori ar brif darged GGC ar gyfer allyriadau, gan leihau cyfanswm ein hallyriadau dros ddwy ran o dair fesul aelod o staff. | Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd |
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | Lleihau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol 30%* | ▼ -99% fesul CALI | Mae ein lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol wedi cyflymu drwy'r newid tuag at ddatgarboneiddio gwres, gyda chynlluniau i'n swyddfa yn Llundain gael gwared ar y defnydd o nwy yn gyfan gwbl. | Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd |

| GGC | Targed | Perfformiad 2023-24 | Sylwadau ar gynnydd | Nod Datblygu Cynaliadwy Cysylltiedig y CU |
|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | Lleihau allyriadau o deithiau hedfan domestig o leiaf 30%* | ▼ -82% fesul CALI | Rydym wedi diweddaru ein polisi teithio i hyrwydo opsiynau teithio carbon isel ymhellach fel y dewis cyntaf. | Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd |
| **Gwastraff** | **Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir yn gyffredinol 15%*** | ▼ -92% | Rydym yn darparu offer a chyfarpar y gellir eu hailddefnyddio yn ein swyddfeydd, gan leihau'r angen am ddeunyddiau untro. Rydym yn ystyried ailddefnyddio cyn gwaredu, a hyrwyddir cynlluniau rhoddion ymhlith y staff. | Defnydd Cynaliadwy a'i Leihau |
| **Gwastraff** | Lleihau faint o wastraff sy'n cael ei dirlenwi i 5%* o gyfanswm y gwastraff | ▼ 0% | Nid yw Ofgem wedi tirlenwi gwastraff ers 2010 ac mae ein swyddfeydd yn parhau i redeg model gweithredu dim tirlenwi, gan droi at atebion ynni o wastraff yn lle hynny. | Defnydd Cynaliadwy a'i Leihau |
| **Gwastraff** | Cynyddu cyfran y gwastraff a ailgylchwyd i 70%* o gyfanswm y gwastraff | ● 47% | Cynigiwyd y dylid treialu ymyriadau ymddygiadol drwy arwyddion gwell er mwyn cryfhau ein cyfraddau ailgylchu. | Defnydd Cynaliadwy a'i Leihau |
| **Gwastraff** | Lleihau'r defnydd o bapur o leiaf 50%* | ▼ -81% | Rydym yn annog gwaith di-bapur ac yn parhau i optimeiddio ein prosesau storio a rhannu ffeiliau drwy ddefnyddio datrysiadau cwmwl. | Defnydd Cynaliadwy a'i Leihau |
| **Dŵr** | **Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir o leiaf 8%*** | ▼ -90% | Mae cyfarpar dŵr effeithlon yn ein swyddfeydd yn cynnwys tapiau synhwyrydd a pheiriannau golchi llestri. | Dŵr Glân a Glanweithdra |

*Ffigurau targed fel y'u pennwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar gyfer teulu GGC yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, y mae Ofgem yn rhan ohono.

## Lliniaru newid yn yr hinsawdd: gweithio tuag at Sero Net erbyn 2050




Y flwyddyn hon, parhawyd i gadw ein hallyriadau islaw ffigurau llinell sylfaen er bod ein gweithlu wedi mwy na dyblu ers 2018. Rydym wedi gweld gostyngiad o 97% o ran allyriadau (uniongyrchol) Cwmpas 1, a disgwylir y bydd ein hystad yn Llundain yn cael gwared ar y boeleri nwy presennol yn raddol dros y blynyddoedd sydd i ddod ac yn defnyddio pympiau gwres o'r awyr yn eu lle. Nid ydym yn berchen ar fflydoedd o geir ac nid ydym yn eu hurio nac yn eu prydlesu. Caiff y staff eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle y bo modd ac mae gan ein swyddfeydd gysylltiadau da â rhwydweithiau rheilffyrdd a bysiau. Caiff teithio llesol ei annog drwy ddarparu cyfleusterau storio beiciau ac ystafelloedd cawod/newid yn ein swyddfeydd yn Llundain ac yng Nghaerdydd. Y flwyddyn hon, fel rhan o her teithio llesol i'r sefydliad cyfan mae ein staff wedi teithio cyfanswm o 73,000 km, gan arbed yr hyn sy'n cyfateb i 2.5 tunnell o CO2e o gymharu â theithio ar y trên.

Mae allyriadau Cwmpas 2 a gofnodwyd gennym wedi aros yn sefydlog o gymharu â'r flwyddyn diwethaf. Mae ein swyddfa yn Llundain ar dariff ynni di-garbon, sy'n golygu y gall allyriadau Cwmpas 2 gwirioneddol fod yn is na'r ffigurau cofnodedig.

Er ein bod wedi cadw ein hallyriadau cyffredinol o dan y targed yn flaenorol, rydym wedi mynd y tu hwnt iddo y flwyddyn hon oherwydd cynnydd mewn allyriadau anuniongyrchol. Roedd allyriadau (Cwmpas 3) anuniongyrchol 2.5 gwaith yn uwch y flwyddyn hon o gymharu â'r flwyddyn diwethaf, gan arwain at 221 tunnell o allyriadau CO2e ychwanegol. Mae ffactorau sy'n cyfrannu at y newid hwn yn cynnwys twf yn nifer y staff a newidiadau ymddygiadol o ran teithio busnes. Mae teithio wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig ac mae maint a dosbarthiad timau wedi cynyddu, lle mae'r rhan fwyaf o dimau wedi'u lleoli mewn dau neu dri o leoliadau. Mae hedfan domestig yn enwedig yn cyfrannu'n sylweddol at ein hallyriadau gweithredol anuniongyrchol – ac felly cyfanswm yr allyriadau – ac mae llwybrau tuag at leihau'r allyriadau hyn yn ffocws allweddol i'r sefydliad. Nid ydym yn gwrthbwyso ein hallyriadau carbon – er bod i fentrau gwrthbwyso rai rhinweddau, credwn ei bod yn hollbwysig cymryd camau rhagweithiol drwy flaenoriaethu strategaethau

lleihau allyriadau uniongyrchol. Mae'r mwyafrif o'r teithiau a gofnodwyd gennym o ganlyniad i deithio rhwng swyddfeydd, ac rydym yn ymrwymedig i wella'r ffyrdd rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel sefydliad sydd â staff mewn tri lleoliad gwahanol. Y flwyddyn hon, rydym wedi:

a) Gwella'r ddarpariaeth o adnoddau ar gyfer gweithio hybrid (megis meddalwedd fideogynadledda) er mwyn sicrhau profiad cydweithredol hybrid di-dor i'r staff, a lleihau'r angen am deithio busnes diangen.

b) Mireinio ein polisi treuliau a theithio – mae datganiad am gynaliadwyedd wedi cael ei ychwanegu a disgwylir i'r staff osgoi teithiau hedfan domestig am eu bod yn cynhyrchu hyd at saith gwaith yn fwy o garbon na theithio ar y rheilffordd (yn seiliedig ar ffactorau trosi carbon GCC). Dim ond drwy ein system darparwr teithio wedi'i dilysu y dylid archebu unrhyw deithiau hedfan angenrheidiol, a disgwylir i hynny gryfhau cywirdeb ac ansawdd ein hadroddiadau dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Y flwyddyn nesaf, bwriadwn wneud y canlynol:


a) Cyflwyno adroddiadau mewnol chwarterol ar garbon i uwch-bwyllgor gweithredol Ofgem. Caiff yr hyn a gofnodir ei ddosrannu yn ôl cyfarwyddiaeth, gan ein galluogi i nodi meysydd penodol i'w gwella.

b) Cyhoeddi tablau cynghrair olion traed carbon yn fewnol er mwyn annog modelu ymddygiad cynaliadwy.

c) Gweithio gyda'n darparwr teithio i hyrwyddo llwybrau teithio carbon isel i'n staff, gan gydnabod y gall prociau seicolegol fod yn fodd i ategu polisi.

## Lleihau gwastraff a hybu effeithlonrwydd adnoddau

Cyfansoddiad gwastraff swyddfa fel canran o bwysau





Rydym wedi gweld cynnydd bach mewn ffigurau gwastraff o gymharu â'r flwyddyn diwethaf, ond rydym yn parhau i gynhyrchu llai na degfed ran o'r gwastraff a welwyd yn 2017-18. Nid ydym wedi cyflawni'r targed cyfradd ailgylchu eto, am fod cyfraddau ailgylchu presennol dal o dan 50%. Gellir priodoli hyn i halogi gwastraff, ac mae cynlluniau ar waith i godi ymwybyddiaeth o ddeunyddiau ailgylchadwy drwy gynllun peilot ymyriad ymddygiadol yn y flwyddyn sydd i ddod.

Rydym yn annog staff i beidio â defnyddio plastigion untro defnyddwyr lle y bo modd drwy ddarparu cyllyll a ffyrc a llestri y gellir eu hailddefnyddio yn ein swyddfeydd. Mae ein cyfleusterau cegin yn cynnwys ffyrnau microdon, oergelloedd a thapiau dŵr wedi'i hidlo er mwyn lleihau'r angen i staff ddod â phlastigion untro defnyddwyr i mewn i'r swyddfa. Yn ogystal â gweithredu cynllun mygiau ailddefnyddiadwy gostyngol, mae'r bwyty yn ein hadeilad yn Llundain yn darparu cynwysyddion

ac offer cludfwyd compostadwy. Yn y flwyddyn sydd i ddod, mae cynlluniau ar waith i'r bwyty gyflwyno amrywiaeth newydd o seigiau bach eu heffaith ar yr amgylchedd, gyda'r nod o leihau allyriadau carbon 38% o gymharu â'r prydau bwyd a gynigir ar hyn o bryd. Yn ystafelloedd ymolchi'r swyddfeydd, mae rheolwyr yr adeilad wedi darparu cynhyrchion organig diblastig yn lle cynhyrchion mislif brand safonol. Cafwyd gwared ar dywelion papur yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd ymolchi er mwyn lleihau'r achosion o flocio toiledau a lleihau gwastraff papur diangen.

Y flwyddyn hon, cyflwynwyd polisi cysur thermol newydd yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Drwy ddiffinio amrediadau tymheredd safonol newydd drwy'r ystad gyfan ac optimeiddio technoleg gwresogi, awyru, ac aerdymheru, mae'r polisi wedi'i lunio i leihau allyriadau carbon a sicrhau cymaint o effeithlonrwydd ynni â phosibl.

## Lleihau ein defnydd o ddŵr




Priodolir ein defnydd o ddŵr i ddŵr a brynir ar gyfer yr ystad am nad ydym yn berchen ar unrhyw gronfeydd dŵr nac yn eu rheoli. Y flwyddyn hon, rydym wedi rhagori ar ein targedau llinell sylfaen ar gyfer defnydd dŵr ac wedi lleihau'r defnydd brig 4% ers y flwyddyn diwethaf. Rydym wedi wynebu sawl achos o ollwng dŵr y flwyddyn hon ond cafodd y rhain eu hunioni'n gyflym a chafodd y pibellau dan sylw eu hatgyfnerthu er mwyn atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol. Mae cyfarpar arbed dŵr yn ein swyddfeydd yn cynnwys peiriannau golchi llestri, sydd ond yn cael eu rhedeg pan fyddant yn llawn, gan leihau'r angen i olchi eitemau unigol â llaw. Mae'r rhan fwyaf o'r tapiau yn yr ystafelloedd ymolchi yn cael eu gweithredu gan synwyryddion ac mae'n rhaid pwyso tapiau dŵr yfed i lawr er mwyn cael dŵr. Dechreuwyd defnyddio toddiad o ensymau nad yw'n cynnwys dŵr mewn troethfâu yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, sy'n lleihau'r angen am fflysio gormodol a'r defnydd o gemegion garw. Rhagwelir y bydd hyn yn arbed 12.1 miliwn litr o ddŵr a hyd at 12.77 tunnell o allyriadau $CO_2$e yn yr adeilad dros y tair blynedd nesaf.

## Caffael cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy

Rydym yn cysoni ein harferion caffael â Safonau Prynu'r Llywodraeth, ac yn caffael nwyddau a gwasanaethau drwy fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron lle y bo modd. Mae'n rhaid i gyflenwyr Gwasanaethau

Masnachol y Goron fodloni set o feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd caeth, a thrwy gaffael drwy'r fframweithiau hyn, rydym yn sicrhau bod gwerthoedd ein cyflenwyr yn gyson â'n gwerthoedd mewnol ein hunain o ran cynaliadwyedd.

Wrth ddyfarnu contractau, mae Ofgem yn dosrannu pwysoliad o 10% ar gwestiynau gwerth cymdeithasol. Lle y bo'n berthnasol, defnyddir y cwestiwn hwn fel ffordd o benderfynu sut mae cyflenwyr, drwy gyflawni contractau, yn anelu at leihau allyriadau carbon yn ystod cylch oes eu cynhyrchion, a hefyd sut maent yn paratoi canllawiau i Ofgem fel prynwr er mwyn lleihau effaith y defnydd o'r cynnyrch ar yr amgylchedd.

## Adfer natur a chynllunio camau gweithredu bioamrywiaeth

Nid oes gan Ofgem unrhyw gyfalaf naturiol, felly mae cwmpas ein gweithrediadau yn golygu nad oes angen datblygu cynllun gweithredu bioamrywiaeth. Fodd bynnag, rydym yn dal i gefnogi bioamrywiaeth ac yn ymdrechu i'w hyrwyddo lle y bo modd. Mae gan ein swyddfa yn Llundain do "gwyrdd" bywiog, o dan orchudd o fywlysiau a phlanhigion eraill sy'n denu peillwyr sy'n helpu i hyrwyddo bioamrywiaeth ac arbed ynni. Er bod y to wedi'i ddylunio i gynnal pryfed yn bennaf, mae hefyd wedi denu adar sy'n nythu, sy'n dychwelyd dymor ar ôl tymor.

At hynny, rydym yn ymgorffori egwyddorion dylunio biogarwch yn ein swyddfeydd drwy ychwanegu planhigion mewn mannau agored, sy'n gyson ag arferion gorau Canllaw Dylunio Gweithleoedd y Llywodraeth Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth. Dangoswyd bod cael planhigion mewn amgylchedd swyddfa yn lleihau straen, yn gwella lefelau ocsigen, ac yn creu hunaniaeth "werdd", sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ymhlith y staff ac ennyn eu gwerthfawrogiad.

## Ymaddasu i newid yn yr hinsawdd

Caiff ymaddasu i newid yn yr hinsawdd ei ystyried drwy gydol ein prosesau llywodraethu, gwneud penderfyniadau a sicrwydd. Mae ein Strategaeth Amlflwydd yn amlinellu ein blaenoriaethau o ran y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, sy'n cynnwys datblygu rhwydwaith rheoleiddio a lywir gan gost a budd gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, a fframwaith economaidd cyson sy'n cyfrif am ddigwyddiadau hinsawdd annhebygol, mawr eu heffaith. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r llywodraeth a Gweithredwr y System Ynni Genedlaethol (NESO), i lywio, cefnogi a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Y flwyddyn hon, gwnaethom ymgynghori â rhanddeiliaid a defnyddwyr ynni ar daliadau sefydlog, a oedd yn gam pwysig i'n helpu i lunio system ynni effeithlon, deg a hyblyg yn wyneb dyfodol ansicr o ran yr hinsawdd.

Er gwaethaf y camau breision a gymerwyd gennym i helpu'r sector ynni i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd, rydym yn ystyriol bod heriau o hyd yn ein hystad ein hunain. Mae'r tabl isod yn amlinellu ein hystyriaethau ynglŷn ag ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| Cam Gweithredu Presennol | Wrth ystyried lleoliad swyddfa newydd, rydym wedi blaenoriaethu adeiladau sydd â statws amgylcheddol ardderchog – yn ddelfrydol y rhai sydd eisoes wedi cyflawni sero net ar lefel weithredol. Mae hyn yn ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein strategaeth Lleoedd ar gyfer Twf a hefyd yn diogelu ein hystad at y dyfodol.<br><br>Mae gwelliant System Rheoli Adeiladau wrthi'n cael ei wneud yn ein swyddfa yn Llundain. Unwaith y caiff ei gwblhau, bydd hyn yn gallu gwella effeithlonrwydd ynni yn yr adeilad, yn ogystal â rheoli tymheredd ac ansawdd aer i gynnal amgylchedd gwaith cyfforddus.<br><br>Rydym yn cynnig sesiynau dysgu i'r staff er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o swyddogaeth y farchnad ynni ac effaith Ofgem ar broses bontio'r DU i sero net. Mae hyn yn cynnwys seminarau polisi, sesiynau gyda siaradwyr gwadd, a hyfforddiant dysgu a datblygu ffurfiol ar bynciau sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, strategaethau sero net, a bioamrywiaeth. Ategir cyfleoedd dysgu drwy ganllawiau a dogfennau ar ein mewnrwyd. |

| | |
|---|---|
| Cam Gweithredu Arfaethedig | Sefydlu rhwydwaith staff sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a gweithgor i gryfhau trefniadau cydweithio a hyrwyddo amgylcheddol yn ein swyddfeydd.<br><br>Fel tenantiaid mewn adeiladau a reolir gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth, nid ydym yn paratoi cynlluniau ymaddasu i newid yn yr hinsawdd ar wahân ar gyfer ein hystadau. Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth wedi cynnal Asesiad Risg cychwynnol o Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd, a nododd fod ein hadeilad yn Llundain yn wynebu risg o effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd dŵr wyneb, gorgynhesu, a phrinder dŵr. Mae datrysiadau addasu yn y dyfodol i'w cyflwyno gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn cynnwys:<br><br>▪ Codi neu ddiogelu cyfarpar trydanol allweddol yn y seler, a allai fynd dan ddŵr pe bai llifogydd.<br>▪ Gwydrau ychwanegol ac inswleiddio'r tro er mwyn lleihau ennill haul a gorgynhesu<br>▪ Gwell systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru<br>▪ Gwell safonau effeithlonrwydd ynni<br><br>Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Addasiadau Newid yn yr Hinsawdd y flwyddyn ariannol hon, a fydd yn pennu llinell atebolrwydd gliriach i ni fel meddianwyr. |

## Lleihau effeithiau amgylcheddol o ganlyniad i TGCh a Digidol

Mae defnydd strategol Ofgem o dechnolegau cwmwl yn ffactor allweddol i'n galluogi i gyflawni ein nodau cynaliadwyedd. Mae ein trawsnewidiad digidol a'n buddsoddiad mewn GenAI, dysgu peirianyddol, a llwyfannau data cwmwl yn allweddol er mwyn cyflawni nodau datgarboneiddio yn gyflym ac yn effeithlon. Drwy'r strategaeth hon gallwn fynd ati i reoli ein defnydd o ynni a chyfrannu at nodau cynaliadwyedd ehangach y busnes, gan gynnwys gweithredu mewn ffordd gynaliadwy, ysgogi galluogi digidol, a gwella bywydau ein pobl a'r cymunedau lle mae Ofgem yn gweithredu.

Mae ystyriaethau o gylchoedd oes cynaliadwy yn rhan annatod o'n model cynllunio gwasanaethau a pherchnogaeth ar wasanaethau. Yn ein cadwyn gyflenwi TGCh, rydym yn gweithio gyda set o gyflenwyr sy'n cyd-fynd yn strategol â ni ac sydd wedi dangos eu bod yn gallu bodloni'r disgwyliadau a nodwyd yn Safonau Prynu'r Llywodraeth. Rydym wedi dod o hyd i galedwedd i'r staff sy'n lleihau'r defnydd o ynni i'r eithaf lle bynnag y bo modd, o'r gadwyn cynhyrchu a chyflenwi hyd at ddefnydd o ddydd i ddydd, ac, yn olaf, waredu.

Ledled ein hystad, caiff cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) ei brosesu gan ein darparwr gwasanaethau adeilad, a chaiff dyfeisiau electronig personol, megis gliniaduron, eu hailgylchu drwy bartner datrysiadau TG cylchol.

Hefyd, rydym wrthi'n adolygu ein defnydd o'r cwmwl ac yn dadansoddi lle y gellir nodi mwy o arbedion effeithlonrwydd – rydym hefyd yn datblygu prosesau adrodd cynhwysfawr a phrosiectau i weithredu ar argymhellion. Bydd y gweithgareddau gwelliant parhaus hyn yn ychwanegu ymhellach at y buddiannau a'r defnydd is o ynni a gyflawnwyd gennym drwy ein penderfyniad diweddar i fabwysiadu'r cwmwl ar raddfa ehangach.

## Dangosyddion Ariannol ac Anariannol o Berfformiad Cynaliadwy

Fel rhan o'r trefniadau i denantiaid yn yr adeiladau a feddiennir gennym, rydym yn dibynnu ar gyfrifon nwy, trydan, defnydd dŵr, a symiau gwastraff wedi'u dosrannu, fel y'u

darparwyd gan gwmni rheoli'r adeilad. Cyfrifir y rhain yn ôl arwynebedd llawr tenant, felly caiff unrhyw welliannau eu dosbarthu i'r adeilad cyfan ac ni chânt eu priodoli i denantiaid penodol. Mae'r data anariannol sydd ar gael i ni yn cynnwys:

- Ynni – y swyddfeydd yn Llundain a Glasgow yn unig
- Dŵr – y swyddfa yn Llundain yn unig
- Gwastraff – y swyddfa yn Llundain yn unig

Rydym yn parhau i weithio tuag at wella hyd a lled ac ansawdd y data y gallwn eu nodi, a'r flwyddyn hon, rydym wedi llwyddo i gael ffigurau ariannol ar gyfer ein defnydd o nwy, trydan a dŵr yn ein swyddfa yn Llundain. Drwy ddefnyddio'r cyfraddau uned hyn, rydym wedi allosod amcangyfrifon o gostau ar gyfer ein defnydd o nwy a thrydan yn ein swyddfa yn Glasgow. Gan na wnaethom ehangu'n llawn i'n swyddfa yng Nghaerdydd tan yr hydref diwethaf, nid ydym wedi llwyddo i gael ffigurau cynaliadwyedd cywir nac amcangyfrifedig ar gyfer y swyddfa hon – byddwn yn parhau i weithio gyda'r landlord a chwmni rheoli'r adeilad i gael y data hyn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

| **Ynni** | | **2017-18 (llinell sylfaen)** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (MWh) | Cyfanswm yr ynni a ddefnyddiwyd | 2,397 | 1,200 | 847 | 1,189 | 1,052 |
| | Nwy | 797 | 30 | 28 | 143 | 117 |
| | Trydan | 1,600 | 1,170 | 819 | 1,046 | 935 |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Cyfanswm costau ynni | 241 | - | - | - | 262 |
| | Nwy | - | - | - | - | 6* |
| | Trydan | - | - | - | - | 256* |
| **Dŵr** | | | | | | |
| Dangosyddion anariannol ($m^3$) | Defnydd dŵr | 7,959 | 896 | 1,207 | 1,795 | 1,718 |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Costau cyflenwi dŵr | 33 | 2* | 3 | 5* | 8 |
| **Gwastraff** | | | | | | |
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Cyfanswm y gwastraff | 49 | 14 | 19 | 6 | 8 |
| | Ynni o wastraff | 9 | 3 | 4 | 3 | 4 |
| | Ailgylchu | 40 | 11 | 15 | 3 | 4 |
| | Compostio | 0 | - | - | - | < 1 |
| | TGCh | - | - | - | - | - |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Cyfanswm y gost gwaredu | 29 | - | - | - | - |

| Ynni | | 2017-18 (llinell sylfaen) | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teithio** | | | | | | |
| Dangosyddion anariannol (000 km) | Cyfanswm y pellter a deithiwyd | 2,610 | 2 | 335 | 1,607 | 4,348 |
| | Teithiau rheilffordd domestig | 859 | 2 | 285 | 1,160 | 3,385 |
| | Teithiau rheilffordd rhyngwladol | 57 | 0 | 2 | 6 | 31 |
| | Teithiau hedfan domestig | 1,408 | 0 | 35 | 354 | 463 |
| | Teithiau hedfan cyfandirol | 201 | 0 | >1 | 37 | 68 |
| | Teithiau rheilffordd rhyngwladol | 52 | 0 | 12 | 50 | 400 |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Cyfanswm y gwariant | 747 | - | - | - | 652 |
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | | | | | | |
| Dangosyddion anariannol (tunelli COe) 2 | Cwmpas 1: uniongyrchol | 147 | 6 | 5 | 4 | 4 |
| | Cwmpas 2: anuniongyrchol – ynni | 563 | 273 | 174 | 223 | 211 |
| | Cwmpas 3: anuniongyrchol – arall | 466 | 0 | 23 | 143 | 364 |
| **Defnydd papur** | | | | | | |
| Dangosyddion anariannol (rimiau) | | 2,090 | - | - | - | 402 |

1 Dynodir ffigurau amcangyfrifedig yn y tabl â “*”.
2 Pan nad oedd data hanesyddol ar gael ac na ellid rhoi amcangyfrif rhesymol, dynodir hyn â “-”. Mae’r olaf yn wir am wastraff TGCh (nad yw’n cael ei fesur ar hyn o bryd oherwydd allanoli prosesau ailgylchu gliniaduron), defnydd papur yn y gorffennol (roedd papur yn arfer cael ei ddarparu gan reolwr yr adeilad yn hytrach na chael ei gaffael yn uniongyrchol), a data ariannol nad oedd ein landlordiaid yn gallu eu darparu oherwydd natur ein cytundebau amldenantiaid.

## Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)

Mae Ofgem wedi rhoi adroddiad ar ddatgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn gyson â chanllawiau cymhwyso datgeliadau TCFD Trysorlys EF, sy'n dehongli ac yn addasu'r fframwaith ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Ym marn Ofgem, nid yw hinsawdd yn brif risg ar wahân ond mae'n ffactor mewn un brif risg ("cyflawni cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol") a ddisgrifir yn fanylach yn yr adran risg o'r datganiad llywodraethu, ac mewn dwy risg strategol ynglŷn â seilwaith. Felly, mae Ofgem wedi cydymffurfio ag argymhellion y TCFD ac mae'n cynnwys datgeliadau ynglŷn â'r canlynol:

- Llywodraethu – fel un o feysydd blaenoriaeth allweddol Ofgem, sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad llywodraethu, adroddiad ar berfformiad ac adroddiad ar gynaliadwyedd. Mae'r Prif Swyddog Gwithredu yn gyfrifol am gynaliadwyedd corfforaethol. Gan fod yr hinsawdd yn fater trawsbynciol, yn aml caiff ei drafod ar lefel Uwch-Swyddog Gweithredol ac ar lefel Bwrdd.
- Metrigau a Thargedau – rydym wedi parhau i gyflwyno adroddiadau yn unol ag Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth 2021-2025.

Mae hyn yn unol ag amserlen weithredu datgeliadau TCFD llywodraeth ganolog ar gyfer Cam 1, sydd ond yn gofyn am ddatgeliadau lle maent ar gael drwy brosesau adrodd sy'n bodoli eisoes. Mae Ofgem yn bwriadu darparu datgeliadau a argymhellir ar gyfer Rheoli Risg a meysydd eraill Metrigau a Thargedau mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol, yn unol â chanllawiau llywodraeth ganolog.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
13 Ionawr 2025



# Adroddiad ar Atebolrwydd

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2023-24

# Adroddiad ar Atebolrwydd

Diben yr adran o'r adroddiad blynyddol ar atebolrwydd yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol i Senedd y DU, sef prif ddefnyddiwr yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, ac esbonio trefniadau llywodraethu corfforaethol Ofgem – yn debyg i ofynion y Ddeddf Cwmnïau i grwpiau a chwmnïau canolig a mawr.

## Adolygiad Ariannol

Cymeradwyir cyllidebau Ofgem gan Senedd y DU fel rhan o broses Amcangyfrifon o'r Cyflenwad. Ariennir gwaith rheoleiddio Ofgem a'r swyddogaethau ategol drwy ffi trwydded sy'n cael ei thalu gan y diwydiant i ddechrau, ac yna'i throsglwyddo i ddefnyddwyr drwy filiau ynni. Mae cynlluniau Ofgem naill ai'n cael eu hariannu drwy drosglwyddiadau oddi wrth y llywodraeth (er enghraifft, y cynllun Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy) neu eu hariannu gan y diwydiant (er enghraifft, y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd a ariennir gan yr Ardoll Nwy Gwyrdd). Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae gan Ofgem gyllideb net fach am fod yr incwm a dderbynnir drwy ffi'r drwydded a ffynonellau eraill yn gwrthbwyso'r rhan fwyaf o'r costau.

Mae cyllideb gyfalaf, yr eir iddi mewn meysydd sy'n dal gwerth dros gyfnodau hwy megis prydlesau eiddo, caledwedd TG a datblygu systemau TG pwrpasol, yn cael ei darparu gan y Trysorlys (arian trethdalwyr) fel arfer ac yna'i hadennill drwy'r drwydded (a ffynonellau eraill o gyllid) dros amser. Cymeradwyodd Trysorlys EF gyllideb hefyd ar gyfer cost bosibl darpariaethau ariannol sy'n ymwneud â her gyfreithiol, nad oedd wedi'u hariannu gan ffi'r drwydded.

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd Ofgem ei chyllideb i gefnogi Blaenraglen Waith 2023-24 a gwariodd o fewn terfynau'r gyllideb a gymeradwywyd (y cyfeirir atynt fel 'cyfansymiau rheolaeth'). Cyflwynir isod drosolwg o gostau ac incwm Ofgem (ar sail cyllideb adnoddau), wedi'u mesur yn erbyn cyllidebau a gymeradwywyd:

| Gweithgarwch | Cyfanswm yr incwm (£000) | Cyfanswm y costau (£000) | Gwariant net (£000) | Cyllideb net (£000) | Tanwariant net (£000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio craidd a gweithgareddau ategol | 132,259 | (125,754) | 6,505 | 31,350 | 24,845 |
| Cynlluniau, heb gynnwys Nwy Gwyrdd | 47,993 | (45,400) | 2,593 | 4,502 | 1,909 |
| Cynllun Nwy Gwyrdd | 9,627 | (12,374) | (2,747) | 2,531 | 5,278 |
| Cyfanswm (adnoddau) | 189,879 | (183,528) | 6,351 | 38,383 | 32,032 |

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'i nodiadau ategol ar dudalennau 79 i 87 yn cyflwyno crynodeb ffurfiol o berfformiad Ofgem yn erbyn cyllidebau a gymeradwywyd. Mae'r rhain yn dangos bod Ofgem wedi gwario £183.5 miliwn ar gostau gweinyddol i gyflawni ei gwaith rheoleiddio a gweithredu cynlluniau amgylcheddol. Casglwyd incwm o £189.9 miliwn mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn, gan adael cost o £9.1 miliwn yn erbyn y cyllidebau a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Hefyd, roedd costau rhaglen a oedd yn gysylltiedig ag ad-dalu taliadau'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gwneud cyfanswm o £6.0 miliwn a chawsant eu gwrthbwyso yn

erbyn incwm yr Ardoll Nwy Gwyrdd o £8.8 miliwn. O ddwyn yr holl gostau a refeniw hyn ynghyd, cafwyd gwariant adnoddau net cyffredinol (alldro) o £6.4 miliwn ar gyfer y flwyddyn (2022-23: £57.9 miliwn o incwm net).

Mae'r alldro adnoddau yn golygu tanwariant o £32.0 miliwn (2022-23: tanwariant o £64.9 miliwn) ar amcangyfrif cyllideb gymeradwy o £38.4 miliwn (2022-23: £6.9 miliwn), yn bennaf am fod gwerth darpariaethau cyfreithiol ariannol a gwariant Nwy Gwyrdd yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd.

- Efallai y bydd penderfyniadau Ofgem yn destun her gyfreithiol, ac, fel rhan o'r broses o bennu cyllideb Ofgem, bob blwyddyn llunnir amcangyfrif o effaith ariannol bosibl heriau disgwyliedig i benderfyniadau cyfredol a phenderfyniadau yn y dyfodol. Roedd y gyllideb yn uwch na'r alldro y flwyddyn hon am nad oedd rhai o'r penderfyniadau wedi cael eu herio, ond amddiffynnwyd rhai o'r heriau yn llwyddiannus, (gan gynnwys adennill rhai costau) neu'r mae'r tebygolrwydd o amddiffyn yn llwyddiannus yn ymddangos yn ddigon uchel, a gohiriwyd rhai o'r penderfyniadau tan flynyddoedd ariannol yn y dyfodol.
- Mae taliadau'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd (GGSS) yn cael eu gwneud yn ôl y galw (yn dibynnu ar gofrestriadau a chwistrelliadau o fiofethan) Caiff unrhyw warged yn ystod y flwyddyn ei hystyried wrth gyfrifo cyfradd ardoll y flwyddyn ganlynol; bydd arian yn parhau i fod ar gael ar gyfer taliadau'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd ac maent yn lleihau taliadau cyflenwyr o dan rwymedigaeth yn y dyfodol.

Mae'r Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ar dudalen 94 yn cyflwyno incwm a gwariant Ofgem ar sail cyfrifyddu croniadau. Cânt eu paratoi'n unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol a fabwysiadwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr yn wahanol i'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol am fod y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer rhai eitemau megis prisio asedau ac offerynnau ariannol yn wahanol i'r ffordd y caiff yr eitemau hyn eu trin yng nghyllidebau'r llywodraeth. Mae nodyn 2 o'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cysoni'r alldro cyllidebol a ddangosir yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol â'r incwm gweithredu net o £2.2 miliwn a ddangosir yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr.

Prif ffynhonnell incwm Ofgem yw ffioedd trwydded a gesglir oddi wrth ddefnyddwyr drwy filiau ynni. Caiff unrhyw warged (dros adennill ffioedd, lle mae'r gwariant yn llai na'r gyllideb) ei ad-dalu i'r defnyddwyr. Ceir gwarged o £4.3 miliwn o ffi trwydded 2023-24 a godir ar y sector (2022-23 – gwarged o £4.0 miliwn) a chaiff hwn ei ddychwelyd. Costau staff yw'r rhan fwyaf o gostau Ofgem. Yn gyffredinol, roedd gwariant gweithredu Ofgem £47.1 miliwn (33%) yn uwch yn 2023-24 (£189.3 miliwn) o gymharu â 2022-23 (£142.2 miliwn), yn bennaf oherwydd niferoedd staff cynyddol i gefnogi dyletswyddau newydd Ofgem a mesurau rheoleiddio cynyddol a gyflwynwyd yn sgil yr argyfwng ynni, ac i gyflwyno cynlluniau ynni adnewyddadwy newydd.

Roedd gwariant cyfalaf yn cynnwys cyfarpar TG, prydlesau a datblygu meddalwedd bwrpasol yn bennaf, er mwyn cefnogi cynlluniau a weinyddir gan Ofgem, a chafwyd gwariant net o £1.2 miliwn o gymharu â chyllideb o £2.8 miliwn.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cost gwaith Ofgem ar reoleiddio marchnadoedd ynni wedi cynyddu o ganlyniad i'n gwaith i gryfhau mesurau i ddiogelu defnyddwyr ynni drwy'r argyfwng ynni. Hefyd, mae cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith ynni, gan gynnwys cysylltiadau newydd â'r grid a mwy o gapasiti i'r grid wrth i ni weithio tuag at sero net yn golygu bod tuedd tuag i fyny yng nghost rheoleiddio rhwydweithiau ynni. Mae'r adran ar berfformiad yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â chyfrifoldebau newydd Ofgem yn fanylach.


# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Ym mis Tachwedd 2023, croesawodd GEMA ei Gadeirydd newydd a phum aelod anweithredol newydd i'w Fwrdd. Datganodd Mark McAllister a Warren Buckley achosion posibl o wrthdaro buddiannau o ran eu rolau dros dro fel Cadeirydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a Chadeirydd Cyngor ar Bopeth yn y drefn honno. Cafodd yr achosion hyn o wrthdaro buddiannau eu cofnodi a'u rheoli yn y cyfnod rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023.

Cyhoeddir cofrestrau buddiannau eraill Bwrdd a Thîm Gweithredol Ofgem ar ein gwefan.

Ni hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ffurfiol am unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol yn ystod y flwyddyn.




## Bwrdd Ofgem

### Rôl y Bwrdd

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (GEMA) yw Bwrdd Ofgem. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys wyth aelod anweithredol, gan gynnwys Cadeirydd anweithredol, ac un aelod gweithredol, sef y Prif Weithredwr. Mae'r Uwch-dîm Gweithredol hefyd yn mynychu pob un o gyfarfodydd y Bwrdd, ac mae aelodau eraill o staff Ofgem yn dod ar gyfer eitemau penodol, yn ôl y gofyn. Rhoddir manylion aelodau Bwrdd Ofgem ar wefan Ofgem Ein strwythur a'n harweinyddiaeth | Ofgem.

Darperir ar gyfer pwerau a dyletswyddau'r Bwrdd drwy statud yn bennaf. Mae'r statud yn pennu mai Ofgem yw'r 'Awdurdod', ac wrth gyfeirio at yr Awdurdod, mae'n golygu Cadeirydd ac aelodau eraill Bwrdd Ofgem. Mae hyn yn golygu, pryd bynnag y bydd deddfwriaeth yn rhoi pŵer penodol i Ofgem, mai mater i Fwrdd Ofgem yw arfer y pŵer hwnnw, oni bai bod dirprwyaeth ddilys ar waith.

### Penodiadau GEMA

Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net yw penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd. Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Yn ystod 2023-24, mae aelodaeth GEMA wedi newid. Ym mis Tachwedd 2023, daeth cyfnod Martin Cave mewn swydd fel Cadeirydd Ofgem i ben; daeth cyfnod Lynne Embelton mewn swydd, fel aelod anweithredol o GEMA i ben; a daeth cyfnod John Crackett mewn swydd fel aelod anweithredol o GEMA i ben ym mis Mai 2024.

Penodwyd Mark McAllister yn Gadeirydd Ofgem ym mis Tachwedd 2023. Hefyd, croesawodd GEMA bum aelod anweithredol newydd i'w Fwrdd ym mis Tachwedd 2023.

## Rhannu cyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd wedi cadw rhai penderfyniadau yn ôl iddo'i hun. Nodir y rhain mewn atodlen i Reolau Trefniadaeth y Bwrdd a chyfeirir atynt hefyd fel "swyddogaethau a gedwir yn ôl'.

Mater i'r Bwrdd yw gwneud penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw un o'r swyddogaethau hyn a gedwir yn ôl, oni bai bod y Bwrdd yn dirprwyo'r penderfyniad hwnnw i un o gyflogeion Ofgem, neu un o Bwyllgorau'r Bwrdd, yn benodol.

Gall dirprwyaeth gan y Bwrdd fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau. Caiff unrhyw ddirprwyaeth ychwanegol gan y Bwrdd ei chofnodi yng nghofnodion y Bwrdd. Yr unig eithriad i hyn yw gwneud Offeryn Statudol. Ni all y Bwrdd – yn ôl y gyfraith –ddirprwyo hynny. Cyfeirir at holl swyddogaethau'r Bwrdd nad ydynt yn swyddogaethau a gedwir yn ôl, a ddirprwyir i un o Bwyllgorau'r Bwrdd, neu gan Drysorlys EF i'r Swyddog Cyfrifyddu, fel 'Swyddogaethau Cyffredinol', ac maent wedi'u dirprwyo i aelodau o'r staff.

Cyhoeddir Rheolau Trefniadaeth y Bwrdd, gan gynnwys ei faterion a gedwir yn ôl, ar wefan Ofgem.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu nifer o is-bwyllgorau i gefnogi ei waith, sef: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gadeirir gan Myriam Madden, y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth, a gadeirir gan Warren Buckley, a'r Panel Penderfyniadau Gorfodi, a gadeirir gan David Ashbourne.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau a gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth, a'r Panel Penderfyniadau Gorfodi mewn adran ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod tua deg gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol. At hynny, defnyddir cyfarfodydd ad hoc a phenderfyniadau drwy ohebiaeth pan fydd materion brys yn codi rhwng cyfarfodydd.

Yn ei gyfarfodydd, mae'r Bwrdd fel arfer yn ystyried amrywiaeth o faterion. Mae hyn fel arfer yn cynnwys diweddariadau gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, diweddariadau gan Gadeiryddion ei Bwyllgorau ar unrhyw gyfarfodydd diweddar, trafodaethau am strategaeth Ofgem, ei hamcanion strategol a'r dirwedd ehangach, materion sefydliadol, gan gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant, a phenderfyniadau ynghylch materion penodol nad ydynt wedi'u dirprwyo.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r materion y mae'r Bwrdd wedi'u hystyried yn cynnwys y canlynol:

- ymateb parhaus Ofgem i gefnogi cwsmeriaid yn sgil yr argyfwng nwy, er enghraifft, drwy gyflwyno polisïau ar safonau defnyddwyr, mesurau diogelu prisiau manwerthu, fforddiadwyedd a dyled yn y farchnad fanwerthu, a gwastatáu taliadau yn y Cap ar Brisiau.
- Cymeradwyo strategaeth amlflwydd Ofgem
- Adolygu risgiau strategol Ofgem a'i datganiad o barodrwydd i dderbyn risg
- Cymeradwyo Blaenraglen Waith Ofgem
- Rhoi arweiniad neu wneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio arwyddocaol yn unol â'n Fframwaith Buddiannau Defnyddwyr, gan gynnwys er enghraifft: mewn perthynas â gofynion cadernid ariannol ar gwmnïau manwerthu, systemau a rhwydweithiau rheoleiddio'r dyfodol (RIIO-3), diwygio'r broses cysylltiadau trydan, diwygio'r cod ynni, a phenderfyniadau ynglŷn â newidiadau i'r Cap ar Brisiau.

Y flwyddyn hon, bu'n bleser gan y Bwrdd groesawu nifer o randdeiliaid i'w gyfarfodydd, gan gynnwys er enghraifft, cynrychiolwyr o Oxera, yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, Cyngor ar Bopeth, yr Ymddiriedaeth Cyngor Ariannol, a Chomisiynydd Rhwydweithiau Trydan y DU, Nick Winser.

Cyhoeddir cofnodion ac agendâu'r Bwrdd ar wefan Ofgem.

## Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes y Bwrdd. Buont yn bresennol yng nghyfarfodydd llawn y Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgorau fel a ganlyn:

| Aelodau | Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth |
|---|---|---|---|
| Alena Kozakova | 5/5 | | 1/1 |
| Barry Panayi | 10/11 | 1/1 | 4/4 |
| Graham Mather | 5/5 | 1/1 | |
| John Crackett | 11/11 | 4/4 | |
| Jonathan Brearley | 11/11 | 3.5/4 | 4/4 |
| Jonathan Kini | 5/5 | | 1/2 |
| Lynne Embleton | 7/7 | | 3/3 |
| Mark McAllister | 5/5 | 1/1 | 2/2 |
| Martin Cave | 5/6 | 2/2 | 2/2 |
| Myriam Madden | 11/11 | 4/4 | |
| Tony Curzon-Price | 5/5 | 1/1 | |
| Warren Buckley | 5/5 | | 1/1 |

**Nodiadau:**

Cafodd aelodaeth pwyllgorau ei hadolygu a'i newid ar ôl i GEMA groesawu'r aelodau newydd i'w Fwrdd.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd rheolaidd a restrir uchod, cyfarfu'r Bwrdd ar nifer o achlysuron ar fyr rybudd i ymdrin â materion brys a strategol.

## Gwerthuso'r Bwrdd a'r Strwythur Llywodraethu

Y flwyddyn diwethaf, cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd strwythur llywodraethu ehangach Ofgem, gan gynnwys prosesau a strwythurau llywodraethu i gefnogi gallu'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn drwy gyfeirio at yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan Oxera, Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Tŷ'r Cyffredin; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ac astudiaeth gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; ac adroddiad Archwilio Mewnol Mazar, a nododd wendidau yn strwythurau llywodraethu Ofgem ac a effeithiodd ar allu Ofgem i gyflawni ei dyletswyddau fel rheoleiddiwr ynni annibynnol Prydain Fawr.

Yn dilyn yr adolygiad llywodraethu, datblygwyd cyfres o argymhellion a chamau gweithredu i ddiwygio fframwaith a systemau llywodraethu Ofgem. Dros 2023-24, roedd yr argymhellion a'r camau gweithredu a roddwyd ar waith yn cynnwys newidiadau strwythurol i drefniadau llywodraethu ein Tîm Gweithredol drwy gyflwyno Byrddau Portffolio newydd sy'n gyfrifol am y

penderfyniadau strategol a thechnoleg sy'n berthnasol i'r gyfarwyddiaeth sy'n dod o dan eu portffolio; Uwch-bwyllgor Gweithredol newydd sy'n goruchwylio'r cyfeiriad strategol a materion trawsbynciol; rheolaethau rheolwyr a chanllawiau dirprwyo penderfyniadau newydd; a chylch gorchwyl ar ei newydd wedd ar gyfer y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth, a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae rhagor o waith i'w wneud i aeddfedu ac ymgorffori'r newidiadau llywodraethu dros 2024-25, yn enwedig o ran sicrhau bod y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn parhau i ganolbwyntio ar y materion strategol, ac yn parhau i gryfhau ei systemau llywodraethu ar lefel is-weithredol.

Bydd Ofgem yn cynnal adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd yn 2024-25. Bwriadwyd cynnal adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd Bwrdd Ofgem yn 2023-24, ond yng ngoleuni penodiadau aelodau newydd i'r Bwrdd yn 2023, teimlwyd y byddai'n fwy effeithiol cynnal yr adolygiad yn 2024-25.

## Nodi a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau

Mae gan Ofgem bolisi gwrthdaro buddiannau, sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan Ofgem. Mae canllawiau pellach i'r staff hefyd ar gael ar fewnrwyd staff Ofgem. Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol. O dan y polisi, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff ein hysbysu am unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau pan fyddant yn ymuno â'r sefydliad ac mewn datganiadau blynyddol wedi hynny, neu os yw'r amgylchiadau wedi newid a allai arwain at achosion posibl o wrthdaro buddiannau.

Mae'r polisi'n gymwys i bob aelod o staff, ni waeth a yw'n aelod o staff parhaol, achlysurol, cyfnod penodol, asiantaeth neu gontractwr.

Caiff unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu hasesu gan y tîm Sicrwydd Busnes, sy'n ystyried a oes achos o wrthdaro ac, os felly, pa gamau y dylid eu cymryd, ac erbyn pryd. Mae'r polisi hefyd yn nodi y caiff camau disgyblu eu cymryd yn erbyn unrhyw aelod o'r staff y canfyddir nad yw wedi cydymffurfio â'r trefniadau hyn.

Cyhoeddir cofrestr buddiannau aelodau ein Bwrdd ar wefan Ofgem.

Pan fydd aelodau o'r staff yn gadael y sefydliad, mae gennym broses ar waith i ystyried a oes angen cais o dan y Rheolau Penodiadau Busnes cyn iddynt dderbyn penodiad newydd y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Diben hyn yw sicrhau na ddylai fod achos cyfiawn dros bryder, beirniadaeth na chamddehongliad cyhoeddus pan fydd cyn aelod o staff yn ymgymryd â phenodiad neu gyflogaeth allanol.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys pum aelod anweithredol o'r Bwrdd ar hyn o bryd. Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2023, roedd y Pwyllgor yn cynnwys Myriam Madden (Cadeirydd), Martin Cave a John Crackett. Yn sgil penodi Cadeirydd ac aelodau newydd GEMA ym mis Tachwedd 2023, roedd yn cynnwys Myriam Madden (Cadeirydd), John Crackett, Tony Curzon Price, Graham Mather a Mark McAllister, a gadawodd John Crackett ym mis Mai 2024.

Mae'n cynnal pedwar prif gyfarfod y flwyddyn, yn ogystal â chyfarfod penodol i adolygu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon drafft. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredu, y Cwnsler Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Cyllid, Perfformiad a Chynllunio, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Risg, a'r Pennaeth Sicrwydd Busnes a Risg i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, ynghyd ag aelodau eraill o'r staff, yn ôl y gofyn.

Gwahoddir cynrychiolwyr o Archwilwyr Allanol Ofgem, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chynrychiolwyr o Archwilwyr Mewnol Ofgem, Mazars, i fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor hefyd. Yn unol ag arfer da, bydd aelodau anweithredol y Pwyllgor fel arfer yn cynnal sesiwn breifat â'r archwilwyr ar ddiwedd pob cyfarfod. At hynny, mae'r Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn cynnal trafodaethau rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad uniongyrchol â Chadeirydd y Pwyllgor.

## Diben a chyfrifoldebau

Mae gan y Pwyllgor gylch gorchwyl, a adolygir bob blwyddyn. Caiff ei gyhoeddi ar wefan Ofgem. Ei brif gyfrifoldebau yw cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a threfniadau rheoli risg a llywodraethu Ofgem. Bydd yn archwilio'r ffordd y mae Ofgem yn

sicrhau ac yn monitro digonolrwydd y systemau rheoli ariannol ac yn argymell unrhyw welliannau angenrheidiol.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â'r rhaglen flynyddol o adolygiadau archwilio sy'n ymdrin â phrosesau ariannol a rheolaeth allweddol, gan ystyried y risgiau presennol a wynebir gan Ofgem. Mae hyn yn cynnwys cynghori ar y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, gan gynnwys y broses o adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol.

## Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y Pwyllgor oedd:

- Monitro hynt y cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23, a'r her o hyd i Ofgem ychwanegu at ganlyniadau'r rhaglen archwilio mewnol a'u hymgorffori.
- Adolygu adroddiadau Archwilio Mewnol, ac adroddiadau sicrwydd eraill a gomisiynwyd gan reolwyr, ac ymatebion rheolwyr i faterion, gan gynnwys er enghraifft: rheoli rhaglen menter, cadernid ariannol cyflenwyr, atal twyll, rhyng-gysylltwyr, a diogelu defnyddwyr mewn sefyllfa fregus.
- Adolygu'r cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25.
- Parhau i herio Ofgem i wneud cynnydd ychwanegol yn erbyn ei welliannau i'r fframwaith rheoli risg, ei ymgorffori a'i adolygu.
- Cynnal sawl archwiliad dwfn thematig o Ddiogeledd y Cyflenwad, y cynllun rhwymedigaethau adnewyddadwy, y strategaeth atal twyll, a seilwaith TG Ofgem.
- Adolygu diweddariadau i bolisïau llywodraethu amrywiol Ofgem, gan gynnwys y polisi Atal Twyll a Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth, a'r polisi Datgan Buddiannau.
- Craffu ar ddiogelwch gwybodaeth ac adolygu adroddiad blynyddol y Swyddogion Iechyd a Diogelwch.
- Adolygu dogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofgem ar gyfer 2022-23 a goruchwylio'r gwaith cynllunio ar gyfer dogfen 2023-24.
- Ystyried cynllun archwilio ac adroddiad cwblhau archwiliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## Adroddiadau

Caiff cofnodion a chrynodeb o drafodion y Pwyllgor eu rhannu â'r Bwrdd mewn cyfarfodydd dilynol, ac mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cael cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unrhyw faterion y mae'n dymuno eu codi.

## Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth yn cynnwys pum aelod anweithredol o'r Bwrdd, sef Warren Buckley (Cadeirydd), Barry Panayi, Jonathan Kini, Alena Kosakova, a Mark McAllister. Cyn eu hymadawiad ym mis Tachwedd 2023, roedd Lynne Embleton yn cadeirio'r Pwyllgor, ac roedd Martin Cave yn aelod fel Cadeirydd blaenorol Ofgem. Mae'n cynnal pedwar prif gyfarfod y flwyddyn.

Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Pobl a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl ac Ystadau i ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor hefyd, yn ogystal ag aelodau eraill o staff yn ôl y gofyn.

## Diben a chyfrifoldebau

Cafodd cylch gorchwyl y Pwyllgor ei adolygu a'i adnewyddu yn 2023-24. Cyhoeddir y cylch gorchwyl ar wefan Ofgem.

Ei gyfrifoldebau allweddol eraill yw cynghori'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar gydnabyddiaeth yr Uwch-wasanaeth Sifil, a dulliau strategol o ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â phobl sy'n effeithio ar berfformiad a llwyddiant Ofgem, ynghyd â pholisïau ar faterion o'r fath.

Mae cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor yn cynnwys gofyniad arno i gymeradwyo Strategaeth y Gweithlu newydd Ofgem. Bydd Strategaeth y Gweithlu yn darparu ar gyfer y themâu strategol mewn perthynas â phobl ac iechyd sefydliadol Ofgem ar gyfer 2024-25.

Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i'r Pwyllgor ddatblygu, cymeradwyo ac ymgorffori Strategaeth y Gweithlu y flwyddyn nesaf.

### Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y Pwyllgor oedd:

- Cymeradwyo amcanion blynyddol a chydnabyddiaeth tîm gweithredol Ofgem
- Cymeradwyo polisi treuliau aelodau'r Bwrdd
- Cymeradwyo ceisiadau a wnaed o dan Reolau Penodiadau Busnes, gan staff SCS2 neu SCS3, neu unrhyw gais arall gan Uwch-was Sifil.
- Adolygu perfformiad a chydnabyddiaeth Tîm Gweithredol Ofgem
- Ystyried dull Ofgem o gadw talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth
- Adolygu'r ffordd y mae'r Tîm Gweithredol yn recriwtio staff
- Adolygu strwythur maint a chyfansoddiad Bwrdd Ofgem
- Cynnal nifer o archwiliadau dwfn thematig o faterion sy'n ymwneud â phobl, gan gynnwys fersiwn ddrafft o Strategaeth y Gweithlu, amrywiaeth a chynhwysiant, diwygio cyflogau a gweithio hybrid
- Y flwyddyn hon, croesawodd y Pwyllgor rai o rwydweithiau staff Ofgem i'w gyfarfodydd, sydd wedi cynnwys cynrychiolwyr yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol a Rhwydwaith Menywod Ofgem.

### Adroddiadau

Caiff cofnodion a chrynodeb o drafodion y Pwyllgor eu rhannu â'r Bwrdd yn ei gyfarfod dilynol, ac mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cael cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unrhyw faterion y mae'n dymuno eu codi.

### Panel Penderfyniadau Gorfodi

Un o bwyllgorau'r Bwrdd yw'r Panel Penderfyniadau Gorfodi. Ym mis Chwefror 2024, croesawodd y Bwrdd Gadeirydd y Panel, David Ashbourne. Mae aelodau'r Panel a'i ysgrifenyddiaeth yn gyflogeion Ofgem sy'n annibynnol ar y tîm achosion. Mae'r Panel yn cyfarfod ar sail achos unigol, er mwyn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud ac achosion penodol. Mae hefyd yn cyfarfod bob chwarter i drafod amrywiaeth o faterion polisi a gorfodi ac i drafod gwersi a ddysgwyd o achosion a gaewyd.

### Diben a chyfrifoldeb

Mae'r Panel wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2014 i wneud penderfyniadau gorfodi ar ran y Bwrdd. Cafodd ei sefydlu i wneud penderfyniadau ynghylch achosion gorfodi gan arbenigwyr penodol fel bod gwahaniad gweladwy rhwng y swyddogaethau ymchwilio a'r swyddogaethau gwneud penderfyniadau.

Cyhoeddir cylch gorchwyl y Panel ar wefan Ofgem.

Prif gyfrifoldebau'r Panel yw gwneud penderfyniadau ar ran GEMA ynghylch a oes achos o dorri rhwymedigaeth, cyfreithiau cystadleuaeth, neu reoliadau REMIT, ac a ddylid rhoi cosb neu becyn iawn ac os felly pa lefel o gosb neu iawn.

### Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Y flwyddyn hon, mae Mark McAllister, Cadeirydd newydd Ofgem, wedi mynd i'r ddau gyfarfod chwarterol blaenorol. Cyflwynodd ei hun a rhoddodd ei ddiweddariadau ar ran GEMA i'r Panel. Ymhlith y materion eraill a drafodwyd yn y cyfarfodydd chwarterol roedd y canlynol:

- Diweddariadau gan Gadeirydd GEMA ar flaenoriaethau GEMA a'r prif drafodaethau sy'n digwydd yng nghyfarfodydd GEMA.
- Trafodaethau ynglŷn â materion polisi, gan gynnwys opsiynau i roi cosbau gorfodi ac Adolygiad o Gydymffurfiaeth y Farchnad ar gyfer Mesuryddion Rhagdalu.
- Myfyrdodau ar fatrics sgiliau'r Panel a'r gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Myfyrdodau a gwersi a ddysgwyd o achosion dros bob un o'r chwarteri diwethaf ac achosion a gwblhawyd yn ddiweddar, gan gynnwys Outflox a Hudson Energy.

### Adroddiadau

Mae'n rhaid i Gadeirydd y Panel gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd, gan roi sylwadaeth ar achosion a ystyriwyd yn ystod

y flwyddyn flaenorol. Yr adroddiad mwyaf diweddar oedd yr un ar gyfer 2021-23. At ddefnydd mewnol yn unig y cyflwynir yr adroddiad hwn.

### Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Gweithredol

Yn sgil trawsnewid trefniadau llywodraethu Ofgem yn 2023-24, cyflwynwyd Uwch-bwyllgor Gweithredol newydd ynghyd â phedwar Bwrdd â Phortffolio (Marchnadoedd, Seilwaith, Cyflawni a Chynlluniau, a bwrdd Portffolio'r Prif Swyddog Gweithredu).

Mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol a'r Byrddau Portffolio (a'r Pwyllgor Gweithredol gynt) yn helpu'r Prif Weithredwr i redeg y sefydliad. Nid Pwyllgorau ffurfiol o'r Bwrdd yw'r pwyllgorau a byrddau hyn.

Caiff yr Uwch-bwyllgor Gweithredol ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cyfarfod yn fisol. Mae hefyd yn cynnal cyfarfod wythnosol anffurfiol a chyfarfodydd ad hoc yn ôl y gofyn. Rhestrir aelodau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol ar wefan Ofgem; gwahoddir aelodau eraill o staff Ofgem i fynychu ei gyfarfodydd yn ôl y gofyn.

Mae'n cynnig fforwm i reolwyr gymryd perchnogaeth adeiladol a chyfunol o berfformiad cyffredinol Ofgem a'r ffordd y mae'n cyflawni. Mae'n rhoi arweiniad, goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol yn bennaf, ac yn cynghori'r Prif Weithredwr ar faterion penodol a nodwyd yn ei gylch gorchwyl a Rheolaethau Rheolwyr. Mae'r Byrddau Portffolio yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr sy'n berthnasol i'r portffolio hwnnw. Maent yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Uwch-bwyllgor gweithredol ar benderfyniadau a wnaed. Mae'r aelodaeth ar lefel SCS 1 a 2, yn dibynnu ar strwythur y grŵp.

Mae'r Byrddau Portffolio yn cynnig fforymau i reolwyr gymryd perchnogaeth adeiladol a chyfunol o'r meysydd y mae'r cadeirydd yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys goruchwylio perfformiad a chyflawni, datblygu strategaeth y grŵp, rheoli risg a sicrwydd. Trafodir materion allweddol sy'n dod o dan gylch gorchwyl y Byrddau Portffolio, gan roi cyfle i feithrin dealltwriaeth draws-grŵp o'r effaith ar waith y grŵp.

### Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol, a'r Pwyllgor Gweithredol gynt, yn cynnig un fforwm i drafod materion rheoleiddiol a materion sefydliadol.

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch yr Uwch-bwyllgor Gweithredol, a'r Pwyllgor Gweithredol gynt, oedd rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'r canlynol:

- Ystyried ymatebion y rheolwyr i adroddiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau sicrwydd eraill a monitro cynnydd wrth roi argymhellion yr adroddiadau hynny ar waith.
- Adolygu a chyflwyno strwythur risg a phroses sganio'r gorwel egwyddorol newydd i gynghori ar briodoldeb risgiau, y camau lliniaru, a'r gwelliannau y mae angen eu gwneud i'r fframwaith rheoli risg ehanghach.
- Ystyried materion o bwys sy'n ymwneud â phobl, strategaeth a pholisïau amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad, a pholisïau gweithio hybrid.
- Adolygu cynigion polisi neu reoleiddiol pwysig neu drawsbynciol, neu faterion pwysig sy'n ymwneud â threfniadau Ofgem ar gyfer rhoi cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar waith.
- Adolygu papurau a gyflwynir gan y rheolwyr i'r Bwrdd neu un o is-bwyllgorau'r Bwrdd.

### Adroddiadau

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn rhoi adroddiad misol i'r Bwrdd, sy'n crynhoi materion proffil uchel a materion llosg sy'n wynebu'r sefydliad, gan gynnwys gweithgareddau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol a Byrddau Portffolio Cyfarwyddiaethau fel y bo'n briodol. Bob chwarter, mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn cyflwyno adroddiad ar ddangosyddion perfformiad allweddol strategol Ofgem ynglŷn ag iechyd sefydliadol a chyflawni.

## Presenoldeb Ofgem yn yr Alban

Parhaodd Ofgem i chwarae rhan annatod o dirwedd ynni'r Alban dros y flwyddyn diwethaf, gyda chydweithwyr yn yr Alban yn cynnig amrywiaeth eang o sgiliau a gwasanaethau, yn fewnol ac yn allanol, ochr yn ochr â datblygu polisïau sy'n arwain y diwydiant. Dangosodd ein hymrwymiad i fuddsoddi yn yr Alban drwy'r twf yn ein swyddfa yn Glasgow, sy'n cyflogi'n agos i 800 o staff, sef bron hanner holl gyflogeion Ofgem ym Mhrydain Fawr. O ystyried pwysigrwydd ein swyddfa yn Glasgow, cynhaliodd GEMA gyfarfod strategaeth yn Glasgow ym mis Mehefin 2023 ac un o gamau cyntaf ein cadeirydd newydd, Mark McAllister, oedd ymweld â Glasgow a chyfarfod â'r timau gwahanol sydd wedi'u lleoli yn Commonwealth House.

Y flwyddyn hon, rydym wedi cyfarfod â llawer o sefydliadau defnyddwyr ledled yr Alban, gan gynnwys Consumer Scotland, Citizens Advice Scotland, ac Advice Direct Scotland. Gwnaeth ein Prif Swyddog Gweithredol, Jonathan Brearley, hefyd ymweld â hwb cynnes yn yr Alban, a noddir gan SGN, sy'n gweithio yn un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn yr Alban. Mae ymweliadau o'r fath yn rhoi cyfle i ni glywed yn uniongyrchol am brofiadau ar y rheng flaen, gan ein galluogi i wella cymorth i ddefnyddwyr yn yr Alban sy'n cael trafferth talu am eu hynni o bosibl.

Roedd Ofgem wedi datblygu cydberthnasau gwaith cadarn â Llywodraeth yr Alban a'i swyddogion gan gydweithio ar nifer o faterion, o drafodaethau ynglŷn â symud ar hyd y llwybr tuag at sero net i'r ffordd orau o gefnogi defnyddwyr sy'n wynebu her sylweddol tlodi tanwydd.

## Presenoldeb Ofgem yng Nghymru

Mae ein presenoldeb yng Nghymru yn parhau i gryfhau. Rydym wedi parhau i ehangu ein swyddfa yng Nghaerdydd yn swyddfeydd hwb y gwasanaeth sifil yn Nhŷ William Morgan, ac o ganlyniad rydym wedi cynyddu'n sylweddol nifer y cydweithwyr a gyflogwn o Gymru ac ardal Bryste a Swydd Gaerloyw.

Ymwelodd Mark McAllister â Chaerdydd yn ystod ei fisoedd cyntaf yn y rôl, gan gyfarfod â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o Gymru. Mae Jonathan Brearley hefyd wedi ymweld â'n swyddfa yng Nghaerdydd, gan fanteisio ar y cyfle i wrando ar leisiau defnyddwyr a'r rhai sy'n wynebu tlodi drwy ymweld â Chanolfan Gymunedol y Sblot a swyddfa Cyngor ar Bopeth yn y Barri. Cyfarfu â'r Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, hefyd. Mae ein cyfarwyddwyr a'n dirprwy gyfarwyddwyr yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ac maent wedi siarad mewn sawl digwyddiad yng Nghymru gan gynnwys cynhadledd Renewable UK Cymru yng Nghasnewydd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo Ofgem i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd ohonynt gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem a'i hincwm a'i gwariant, ei Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'i llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

- Dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EF wedi penodi'r Prif Swyddog Gweithredol yn Swyddog Cyfrifyddu Ofgem. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Ofgem, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi trefniadau rheolaeth fewnol Ofgem, sy'n gyson â chanllawiau Trysorlys EF a Swyddfa'r Cabinet. Nodir cyfansoddiad a threfniadaeth y strwythurau llywodraethu, a sut maent yn helpu i gyflawni canlyniadau â blaenoriaeth yr adran, yn yr adran uchod o dan y pennawd "Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol" ac ymdrinnir â materion ariannol, archwilio, risg a sicrwydd isod.

Fel yr esbonnir uchod, cyflwynodd Ofgem newidiadau sylweddol i'w fframwaith llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Nod y newidiadau hyn oedd gwella'r broses o gyflawni sawl amcan allweddol: mesurau cryfach i ddiogelu defnyddwyr, rheoli problemau yn effeithiol, prosesau gwneud penderfyniadau cydweithredol, tryloyw ac ar sail gwybodaeth, gwell prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg a mwy o atebolrwydd, drwy greu rheoleiddiwr modern ac ystwyth a werthfawrogir.

## Sicrwydd Busnes, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol yn 2023-24

Mae'r Fframwaith Sicrwydd Busnes a roddwyd ar waith gennym y llynedd wedi parhau i ddatblygu a chael ei ymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae hwn yn adeiladu ar y dull tair llinell amddiffyn a gymeradwyir gan Drysorlys EF ar gyfer pob un o adrannau Llywodraeth EF. Mae Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cyffredinol Ofgem yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth fewnol effeithiol mewn gweithgareddau llinell gyntaf a chaiff hyn ei gefnogi, ei fonitro a'i herio drwy oruchwyliaeth gorfforaethol o fewn cyfarwyddiaethau a swyddogaethau cymorth canolog Ofgem. Amlinellir y dull gweithredu isod.

**BWRDD/PWYLLGOR ARCHWILIO**

**UWCH-REOLWYR**

| 1st LINE | 2nd LINE | 3rd LINE |
|---|---|---|
| **Rheolaeth Rheolwyr**<br>**Mesurau Rheolaeth Fewnol** | **Swyddogaethau sy'n goruchwylio neu sy'n arbenigo mewn rheoli risg** | **Archwilio mewnol** |
| • Nodi risgiau, eu hasesu, dod yn berchen ar arnynt a'u rheoli<br>• Llunio, gweithredu a chynnal mesurau rheolaeth fewnol effeithiol<br>• Goruchwylio'r broses weithredu a monitro cydymffurfiaeth<br>• Cymryd camau unioni i fynd i'r afael â diffygion. | • Nodi ffiniau cyflawni drwy ddiffinio safonau, polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau.<br>• Helpu rheolwyr i ddatblygu rheolaethau yn unol ag arferion da.<br>• Monitro cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd<br>• Cytuno ar unrhyw randdirymiad o'r gofynion penodedig<br>• Nodi materion sy'n dod i'r golwg a senarios risg sy'n newid a'u dwyn i sylw uwch-reolwyr a, lle y bo'n briodol, gyrff llywodraethu. | • Rhoi gwerthusiad gwrthrychol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth<br>• Rhoi gwerthusiad rhagweithiol o reolaethau a gynigir gan reolwyr<br>• Cynghori ar strategaethau rheolaeth posibl a'r ffordd y caiff rheolaethau eu llunio. |

Mae'r fframwaith yn ysgogi rheolwyr i feddwl am risgiau mewn ffordd syml ac ymarferol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol. Mae hefyd yn nodi rolau, cyfrifoldebau a dulliau cymorth clir i reoli risg. Mae hyn wedi arwain at well trafodaethau ynglŷn â risg ym mhob rhan o'r sefydliad, a chamau rheoli a lliniaru mwy effeithiol.

Yn sgil cyflwyno'r Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Data a Gwybodaeth, a'r Prif Swyddog Pobl newydd, cafwyd mwy o brofiad ac arweinyddiaeth, a fu'n fodd i wella'r gwasanaeth cwsmeriaid, y cymorth a'r gwaith monitro a her a ddarperir gan Swyddogaethau Corfforaethol. Bwriadwn adeiladu ar hyn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod drwy nifer o weithgareddau, er mwyn cryfhau ymhellach effeithiolrwydd cymorth a rheolaeth fewnol ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi nodi disgwyliad clir bod angen i drefniadau llywodraethu Ofgem wella ymhellach, a bod angen dangos hyn drwy'r dystiolaeth a gesglir gan y swyddogaeth Sicrwydd Busnes fewnol a hefyd y barnau annibynnol a roddir gan Archwilio Mewnol. Mae'n hanfodol bod y strategaeth Sicrwydd a Rheoli Risg ar gyfer 2024/25 yn cael ei chyflawni er mwyn sicrhau hyn ac mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i gefnogi hyn, gan gynnwys:

- **Strategaeth Rheoli Data:** Rydym wrthi'n gweithio ar roi strategaeth rheoli data newydd ar waith. Mae'r Stiwardiaid Data a gyflwynwyd wedi hwyluso'r broses o roi cymorth mwy uniongyrchol i berchnogion data. Gan gydnabod bod angen amser i'r broses hon aeddfeddu a chael ei hymgorffori drwy'r sefydliad cyfan, rydym wedi nodi hyn fel prif ffocws ar gyfer 2024/25.
- **Llesiant a Chyfraddau Gadael Cyflogeion:** Nododd yr arolwg staff risgiau allweddol o ran pobl o fewn y sefydliad. Mae'r argyfwng ynni wedi creu amgylchedd gwaith heriol i gyflogeion drwy gydol y flwyddyn. Ynghyd â chwyddiant cyflog yn y sectorau rydym yn gweithredu ynddynt, mae risg gynyddol y bydd staff yn gadael. Mae mynd i'r afael â'r risgiau hyn yn un o flaenoriaethau Cynllun Gweithlu arfaethedig Ofgem, y disgwylir ei lansio yn 2024.
- **Dull Ail Linell Amddiffyn sy'n Canolbwyntio ar Gwsmeriaid:** Rydym yn symud tuag at ddull ail linell amddiffyn sy'n canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid. Mae ffyrdd o weithio yn cael eu diweddaru i roi ail llinell i gwsmeriaid mewnol sy'n canolbwyntio mwy ar wasanaeth. Prif ddiben yr ail linell hon yw cefnogi, monitro a herio Ofgem mewn ffordd gadarnhaol i wella ei gwaith yn barhaus.
- **Sganio'r Gorwel ar gyfer Risgiau mewn ffordd Strwythuredig:** Rydym yn sefydlu dull strwythuredig o sganio'r gorwel ar gyfer risgiau. Mae'r fframwaith wedi'i wella yn anelu at ychwanegu at allu a phrosesau gwneud penderfyniadau Ofgem o ran risgiau a materion yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn parhau i ddatblygu drwy gydol 2024/25.
- **Goruchwylio Achosion o Wrthdaro Buddiannau:** Y flwyddyn hon, cyflwynwyd gofyniad ar bob cyflogai i wneud datganiad blynyddol o fuddiant. Mae'r broses hon yn sicrhau didueddrwydd ac uniondeb drwy nodi achosion posibl o wrthdaro buddiannau'n effeithiol. Yn y dyfodol, caiff adroddiad blynyddol ar ddatganiadau o fuddiant eu cyflwyno i'r Uwch-bwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- **Datblygu'r Fframwaith Sicrwydd ymhellach:** Gwnaethom fonitro'r ffordd y mae'r fframwaith sicrwydd newydd yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn a gwneud rhai gwelliannau sylweddol. Bydd y rhain yn parhau i ddatblygu yn y flwyddyn sydd i ddod, gyda thimau sicrwydd a risg llinell gyntaf mwy sefydledig yn ymsefydlu ymhellach ym mhortffolio pob Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Adnodd diagnostig yw'r fframwaith sicrwydd, sy'n nodi meysydd pwysig o gryfder a her i Ofgem. Er mwyn meithrin diwylliant o atebolrwydd, mae angen ymdrech ac ymrwymiad bwriadol. Rydym yn ceisio creu newid diwylliannol pellach yn 2024/25, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau'r newid cywair hwnnw o'r brig, er mwyn creu diwylliant corfforaethol cysylltiedig ac atebol sy'n taro'r nod ar bob lefel.

Nododd ein hail amddiffynfa fod endid newydd wedi cael ei greu yn ystod 2023-24 heb sicrhau'r dulliau cymeradwyo mewnol angenrheidiol ac ymgynghori â Thrysorlys EF ymlaen llaw. Cymerwyd camau ar unwaith i nodi a lliniaru unrhyw risgiau posibl ac ymgynghori â Thrysorlys EF yn ôl-weithredol er mwyn cael

ei chymeradwyaeth. Mae polisïau a phrosesau wedi'u hadolygu ac mae cynlluniau ar waith i atgyfnerthu'r rheolaethau llinell gyntaf a'r gofynion llywodraethu ar gyfer sefydlu endidau newydd i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto yn y dyfodol, gan gynnwys ailhyfforddi staff a gwneud gwelliannau i'r broses ar gyfer sefydlu cyflenwyr. Bydd rheolaethau ail linell yn cael eu hatgyfnerthu ymhellach er mwyn ymestyn profion archwilio dros drafodion. Mae gan Uwch Weision Sifil amcan perfformiad mewn perthynas â chydymffurfiaeth, felly caiff hyn ei fesur a'i olrhain.

Mae ein trefniadau llywodraethu yn cynnwys y diffiniad o gyfrifoldebau clir ar gyfer Uwch-weision Sifil penodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheolaeth gorfodol a nodwyd yn Safonau Swyddogaethol Swyddfa'r Cabinet. Goruchwylir cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn gan swyddogaeth sicrwydd ganolog Ofgem. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses oruchwylio hon yn y flwyddyn sydd i ddod er mwyn cynnwys gwaith monitro manylach ar reolaethau gorfodol a rheolaethau nad ydynt yn orfodol.

## Trosolwg o risgiau

Mae Fframwaith Risg Ofgem yn cynnig dull ymarferol a syml o gofnodi risg ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod Ofgem yn nodi'r risgiau a allai atal ein nodau strategol a'n heffeithlonrwydd weithredu mewn ffordd gynhwysfawr ac yn mynd i'r afael â nhw.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi diweddaru'r Gofrestr Risg yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu'r ffordd y mae ein dyletswyddau yn esblygu ac wedi datblygu ein Fframwaith Rheoli Risg ymhellach, er mwyn sicrhau ei fod yn helpu'r sefydliad yn llawn i gofnodi a lliniaru risgiau.

### Nodau Allweddol Fframwaith Rheoli Risg Ofgem:

1. **Diogelu Adnoddau:** Diogelu arian cyhoeddus ac asedau adrannol o dan stiwardiaeth Ofgem, gan sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd ddarbodus ac effeithiol.
2. **Llywio Penderfyniadau:** Defnyddio'r Gofrestr Risg i lywio'r ffordd y caiff polisïau, amcanion, a chyfarwyddebau strategol Ofgem eu rhoi ar waith.
3. **Egluro Egwyddorion Risg:** Nodi'n glir y ffordd y mae Ofgem yn rheoli risg, gan feithrin amgylchedd lle ceir tryloywder a dealltwriaeth.
4. **Datblygu Ymwybyddiaeth o Risg:** Hyrwyddo diwylliant sy'n cydnabod gwerth mentro mewn ffordd briodol ac wedi'i rheoli fel sbardun i arloesedd a chynnydd.
5. **Integreiddio Rheoli Risg:** Ymgorffori arferion rheoli risg yn ddi-dor ym mhrosesau busnes Ofgem, gan osod y sylfeini ar gyfer llywodraethu corfforaethol cadarn.

Drwy wella'r Fframwaith Rheoli Risg, gall Ofgem ragweld heriau'n well, diogelu ei buddiannau, a pharhau i wasanaethu'r cyhoedd yn effeithiol. Yn dilyn canllawiau gan Drysorlys EF, gallwn gadarnhau ein bod yn cydymffurfio â'r 5 Egwyddor Rheoli Risg, yn unol â'r Llyfr Oren.

Y flwyddyn hon, gwnaethom gyflwyno nifer o fesurau ychwanegol i ymgorffori trefniadau rheoli risg cadarn ymhellach ym mhob rhan o Ofgem, a nodir y gwelliannau mwyaf arwyddocaol isod:

- **Rhaglen Sbotolau ar Risg:** Gwnaethom sefydlu rhaglen sbotolau sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol lle ceir risgiau a materion sy'n gofyn am fwy o sylw o'r llinell amddiffyn gyntaf. O bryd i'w gilydd, mae'r rhaglen hon yn tynnu sylw at risgiau allweddol, bygythiadau sy'n dod i'r golwg, neu feysydd lle mae angen gweithredu ar unwaith.
- **Trosolwg risg gorfodol o bapurau'r Bwrdd:** Mae'n ofynnol bod pob un o bapurau'r Bwrdd yn cynnwys adran benodol ar risg. Nododd yr adran hon yn glir ar ba rai o risgiau Ofgem y mae'r papur yn effeithio. Hefyd, rydym yn rhoi gwybodaeth i aelodau'r Bwrdd am b'un a yw canlyniad y risg a drafodwyd yn debygol o newid oherwydd y camau arfaethedig. Mae'r tryloywder hwn yn sicrhau bod y Bwrdd yn deall cyd-destun y risg a'r goblygiadau posibl.

- **Cymryd Rhan Weithredol yn y Proffesiwn Risg:** Drwy gymryd rhan fwy gweithredol ym Mhroffesiwn Risg Llywodraeth EF, cawsom fudd o drafodaethau a dysgu cydweithredol, rhannu arferion gorau o'r gymuned, a mwy o wybodaeth am y dirnadaethau diweddaraf ynglŷn â rheoli risg.
- **Hierarchaeth Risg Ddiwygiedig:** Gwnaethom adolygu a diweddaru'r hierarchaeth risg er mwyn sicrhau y caiff risgiau allweddol eu blaenoriaethu'n fwy effeithiol. Hierarchaeth risg ddiwygiedig i'w gwneud yn bosibl i flaenoriaethu'n effeithiol o ran ble y dylai risgiau gael eu goruchwylio, eu rheoli, a'u huwchgyfeirio. Gwnaethom barhau i gymhwyso ein parodrwydd i dderbyn risg at risgiau unigol a rhoi adroddiadau ar unrhyw risgiau y tu allan i hynny i'r Tîm Gweithredol er mwyn sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y rhain yn rhan o'n proses parodrwydd i dderbyn risg.

Nodir isod drosolwg o risgiau mwyaf sylweddol Ofgem a'r camau gweithredu allweddol a gymerwyd i reoli a lliniaru'r rhain:

| Prif Risgiau | Rheolaethau/Cam Lliniaru |
|---|---|
| **Diogelu Defnyddwyr**<br><br>Methiant i ddiogelu buddiannau defnyddwyr yn ddigonol o ran sicrhau prisiau teg a thriniaeth deg, gan arwain at lai o foddhad ymhlith defnyddwyr, prisiau annheg, ac afles i ddefnyddwyr. | ▪ Rydym wedi mynd ati i nodi a gweithredu diweddariadau polisi sy'n gysylltiedig â safonau defnyddwyr. Mae'r diweddariadau hyn yn ymdrin ag agweddau allweddol, megis ansawdd cynnyrch, diogelwch, a phrisiau teg.<br>▪ Gan gydnabod pwysigrwydd rhannu data, rydym wedi dechrau cydweithio'n well ag adrannau'r llywodraeth. Mae hyn yn ein helpu i ddeall cwsmeriaid mewn sefyllfa fregus yn well ac mae wedi cyfrannu at wella'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth.<br>▪ Rydym wedi cymryd camau rhagweithiol i ymgysylltu â chwmnïau'r rhwydwaith, gan eu hannog i fynd y tu hwnt i'r cymhellion presennol. Ein nod yw cefnogi cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus yn well yn ystod cyfnodau heriol.<br>▪ Gwnaethom gynnal Adolygiadau o Gydymffurfiaeth y Farchnad yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â rheolau diogelu defnyddwyr, gan wneud ymdrech ychwanegol i ddiogelu defnyddwyr mewn dyled.<br>▪ Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi mynd ati i ymgysylltu ag Energy UK, grwpiau defnyddwyr, elusennau a'r cyhoedd. Ein nod yw deall yn llawn y materion sy'n effeithio ar gwsmeriaid mewn sefyllfa fregus ac eirioli ynglŷn â'u pryderon yn y llywodraeth. Rydym hefyd yn ystyried mesurau ychwanegol i'r diwydiant er mwyn iddo gefnogi defnyddwyr yn effeithiol. |

| Prif Risgiau | Rheolaethau/Cam Lliniaru |
|---|---|
| **Cadernid y sector ynni**<br><br>Methiant i sicrhau bod y sector ac Ofgem wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer ysgytwadau, gan gynnwys tywydd eithafol, ysgytwadau i'r farchnad/ ysgytwadau ariannol, a seiberymosodiadau, ac yn ymateb yn effeithiol iddynt. | ▪ Gwnaethom ddadansoddi data yn drylwyr, gan roi gwybodaeth gynhwysfawr am y farchnad i Lywodraeth EF. Roedd ein dirnadaethau yn allweddol i'r gwaith o lunio fersiwn newydd o'r Cynllun Cyllido Marchnadoedd Ynni ar gyfer y gaeaf nesaf.<br>▪ Gwnaethom gefnogi Tasglu Diogeledd Cyflenwad yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net yn weithredol. Drwy ein hymdrechion cydweithredol aethom ati i ystyried opsiynau arloesol i hybu cynhyrchiant nwy domestig ym Mhrydain Fawr a diwygio dull caffael nwy'r DU yn strategol.<br>▪ Ymestynnodd ein hymrwymiad i ragoriaeth i fyd seiberddiogelwch. Gwnaethom gyflawni'r buddsoddiad Refeniw, Cymhellion, Arloesedd ac Allbynnau (RIIO), gan amddiffyn y diwydiant rhag seiberfygythiadau.<br>▪ Roedd ein rhaglen bresennol yn cynnwys arolygiadau trwyadl o Systemau Gwybodaeth Rhwydwaith ymhlith yr holl Weithredwyr Gwasanaethau Hanfodol. Drwy wneud hynny, sicrhawyd dibynadwyedd a chadernid gwasanaethau allweddol. |
| **Anwadalrwydd Prisiau Cyfanwerthu**<br><br>Mae methiant i reoli neu gyfyngu ar effaith newidiadau sydyn a sylweddol yng nghostau ynni ar lefel gyfanwerthu, yn arwain at filiau ynni uwch i ddefnyddwyr, ac ansefydlogrwydd ariannol i gyflenwyr ynni. Gall y risg amrywio, yn dibynnu ar amodau'r farchnad ac amgylcheddau rheoleiddio. | ▪ Ymarferion sganio'r gorwel rheolaidd mewn Cyfarwyddiaethau, strategaeth a phroses rheoli argyfwng.<br>▪ Mae gweithdrefnau ar gyfer argyfyngau cyflenwi ar waith, ac maent yn cael eu diweddaru a'u profi.<br>▪ Cydweithio â'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net a Gweithredwyr y System<br>▪ Gwelliannau i'r adnodd ymateb ar yr ochr galw.<br>▪ Profion straen ar gyflenwyr a monitro eu cyfalaf a'u hylifedd yn rheolaidd.<br>▪ Cynlluniau SOLR/SAR ar waith.<br>▪ Mae rheolau gwasanaeth cwsmeriaid safonau defnyddwyr ar waith ers mis Rhagfyr 2023.<br>▪ Prosiect llwybrau dyled – sy'n ceisio lleihau nifer y dyfarniadau llys sirol a gorchmynion gorfodi yn yr uchel lys i gasglu dyledion cyflenwyr a rhoi rheolau cliriach ynglŷn â'r defnydd a wneir ohonynt.<br>▪ Gwaith cydymffurfiaeth ar ASC/achosion o hunanddatgysylltu er mwyn mynd i'r afael ag arferion gwael cyflenwyr. Lwfans dros dro ychwanegol yn y Cap ar Brisiau.<br>▪ Taliadau Mesuryddion Rhagdalu a Debyd Uniongyrchol wedi'u gwastatáu drwy'r Cap ar Brisiau a'r lwfans dros dro ychwanegol yn y Cap ar Brisiau i gefnogi cwsmeriaid mewn dyled a chwsmeriaid sydd ag ôl-ddyledion.<br>▪ Mwy o oruchwyliaeth o'r farchnad a data, er mwyn deall effeithiau'n well a hysbysu Llywodraeth EF i ddylanwadu ar ei hymateb. |

| Prif Risgiau | Rheolaethau/Cam Lliniaru |
|---|---|
| **Penderfyniadau Rheoleiddio Cadarn**<br><br>Mae methiant i gymryd camau rheoleiddio priodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac y gellir eu hamddiffyn yn gyfreithiol, yn arwain at sefyllfa lle nad yw'r Farchnad Ynni yn cyrraedd y safonau na'r lefelau cydymffurfio priodol. | ▪ Gwnaethom barhau i wneud penderfyniadau cadarn yn seiliedig ar ein cyfrifoldebau ynglŷn â rhwymedigaethau defnyddwyr ynni annomestig.<br>▪ Ceisiwyd cyngor cyfreithiol mewnol ac allanol i sicrhau ein bod yn defnyddio ein pwerau newydd o dan y Ddeddf Ynni yn briodol.<br>▪ Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau rheoleiddio, rydym yn cynnal dadansoddiadau risg trylwyr. Rydym yn pwyso buddiannau posibl yn erbyn risgiau, gan ystyried ffactorau fel costau (gan gynnwys costau cyfreithiol a chostau trydydd parti) a gallu ac adnoddau sefydliadol. Wrth wneud hynny, rydym yn ceisio taro cydbwysedd sy'n gwasanaethu ein cenhadaeth a budd y cyhoedd. |
| **Cyflawni cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol**<br><br>Mae methiant i gyflawni cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol yn effeithlon, yn effeithiol a thrwy gydymffurfio yn arwain at ddiffyg ceisiadau i'r cynlluniau, twyll, colli enw da ac ymddiriedaeth y llywodraeth. | ▪ Aethom ati i asesu ein perfformiad yn erbyn y DPAau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys DPAau Sero Net, a chyflwyno adroddiadau arnynt, er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn gweithredu yn ôl y bwriad.<br>▪ Gwnaethom gyflawni rhaglen sicrwydd mewnol effeithiol iawn i gadarnhau ein bod yn cydymffurfio â phrosesau ac ymarferion y cytunwyd arnynt.<br>▪ Gwnaethom ddatblygu a chyflawni cynllun strategol a oedd yn ymwneud yn benodol â Chyflawni a Chynlluniau, a gafodd ei gysoni'n drwyadl â Strategaeth Ofgem.<br>▪ Dros y flwyddyn, gwnaethom weithredu protocolau uwchgyfeirio y cytunwyd arnynt â'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, gan wella'r gydberthynas waith a sicrhau canlyniadau perfformiad effeithiol.<br>▪ Y flwyddyn hon, rydym wedi gwella ein gweithgareddau ariannol a rheoli risg. Drwy gyflwyno ymarferion sganio'r gorwel mwy rheolaidd, bu modd i ni fod yn fwy rhagweithiol o ran rheoli a lliniaru risgiau sy'n dod i'r golwg. |

| Prif Risgiau | Rheolaethau/Cam Lliniaru |
|---|---|
| **Buddsoddi mewn Seilwaith**<br><br>Methiant i alluogi buddiant amser-gritigol yn seilwaith y diwydiant er mwyn diwallu anghenion y system yn y dyfodol, blaenoriaethu a chyflymu buddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith, gan arwain at oedi cyn datblygu capasiti'r farchnad yn y dyfodol, mwy o ddibyniaeth economaidd ar gapasiti tramor ac enillion gwael o fuddsoddiadau, gan leihau buddsoddiad yn y dyfodol ymhellach. | ▪ Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth EF, rydym wedi sefydlu prosesau effeithiol i fonitro a gweithredu'r argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Winser. Nod y mesurau hyn yw gwella arferion y diwydiant a phrofiadau defnyddwyr.<br>▪ Mae ein hymrwymiad i ddiwygio'r gadwyn gyflenwi wedi arwain at ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth EF a phartneriaid yn y diwydiant. Drwy annog gwelliannau, rydym yn cyfrannu at gadwyn gyflenwi fwy cadarn ac effeithlon.<br>▪ Rydym wedi blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu ein strategaeth ar gyfer y farchnad yn y dyfodol ac wedi cydweithio ag arbenigwyr yn y diwydiant er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn seiliedig ar wybodaeth dda a chydweithio. Wrth i'r dirwedd ddatblygu, rydym yn dal i fod yn barod i ymaddasu a meddwl ymlaen.<br>▪ Mae sesiynau sganio'r gorwel rheolaidd wedi bod yn allweddol i sicrhau ein bod yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau yn y diwydiant. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu risgiau sy'n dod i'r golwg a blaenoriaethu ein gwaith yn effeithiol. |
| **Pobl a Diwylliant**<br><br>Methiant i recriwtio a chadw talent sydd â'r sgiliau, yr amrywiaeth o ran cefndir a'r agwedd briodol, sy'n golygu na all Ofgem gyflawni ein blaenraglen waith yn y dyfodol. | ▪ Gwnaethom newid y ffordd rydym yn recriwtio staff drwy recriwtio yn ôl proffesiwn, er mwyn ein galluogi i lenwi'r nifer mawr o swyddi gwag yn effeithiol, swyddi a grëwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenraglen waith a'n dyletswyddau ychwanegol.<br>▪ Gwnaethom ehangu ein harlwy o ran Dysgu a Datblygu Sefydliadol i'r staff, gan ei wneud yn fwy hygyrch ac amrywiol er mwyn rhoi gwell cymorth datblygiad personol.<br>▪ Parhaodd ein rhwydweithiau pobl i gefnogi diwylliant cynhwysol a diwylliant o ymgysylltu yn Ofgem, ac i gefnogi'r gwaith a gwblheir fel y gall pobl ddangos eu hunain cyfan yn y gwaith.<br>▪ Y flwyddyn hon, gwnaethom recriwtio Prif Swyddog Pobl newydd, sy'n cynnig arbenigedd penodol gan swyddog uwch i Ofgem er mwyn bwrw ymlaen â chynllun Gweithlu Ofgem. |
| **Newidiadau mewn Technolegau**<br><br>Methiant i ddatblygu mewn ymateb i'r trawsnewid digidol yn y diwydiant ynni. | ▪ Gwnaethom greu Tasglu i ddatblygu a gweithredu canllawiau ychwanegol i'r diwydiant ynglŷn â'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial, a chefnogi a llywio penderfyniadau polisi a chanllawiau rheoleiddio yn y dyfodol.<br>▪ Gwnaethom gwblhau adolygiad o'r defnydd o dechnoleg yn y farchnad ynni.<br>▪ Ymgynghorwyd ag arbenigwyr mewn technoleg er mwyn datblygu rheoliadau gwerthfawr ac ymarferol i ddatblygu technolegau newydd yn y farchnad. |

### Barn Sicrwydd Archwilio Mewnol

Cwblhaodd ein Harchwilydd Mewnol, Mazars LLP, amserlen o adolygiadau y cytunwyd arni yn ystod y flwyddyn. Nodwyd y rhain drwy waith cynllunio yn seiliedig ar risg gan staff Archwilio Mewnol ynghyd â chyfweliadau â rheolwyr Ofgem a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Ar sail ei waith archwilio, rhoddodd Mazars farn Gymedrol ar y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol. Ar y cyfan, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn gwella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Nodwyd rhai gwendidau ac eithriadau gan waith archwilio Mazars, lle y cododd dri argymhelliad Blaenoriaeth 1. Mae'r materion hyn wedi cael eu trafod â rheolwyr, yr ydym wedi gwneud argymhellion iddynt. Mae'r rheolwyr wedi ymdrin â phob un o'r argymhellion, neu maent wrthi'n ymdrin â nhw, fel y'i nodwyd yn yr adroddiadau unigol.

Nododd Mazars fod tair barn sicrwydd Gyfyngedig yn 2023-24; ond, roedd y rhan fwyaf o'r barnau yn ystod y flwyddyn yn Gymedrol a chafodd un archwiliad sicrwydd Sylweddol. Roedd gweithgarwch dilynol mwyaf diweddar Mazars yn gallu dilysu statws yr holl argymhellion y nododd Ofgem eu bod 'wedi'u gweithredu' neu y cynigiodd Ofgem y dylid eu cau fel rhai 'wedi'u disodli'.

Nododd Mazars bedair thema a gododd dro ar ôl tro yn yr archwiliadau a gwblhawyd yn 2023-24. Mae'r rhain yn ymwneud â hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau, rhoi strategaethau ar waith, ac adnoddau.

## Sicrhau ansawdd modelau dadansoddol

Parhaodd Ofgem i gynnal prosesau sicrhau ansawdd mewn perthynas â gwaith dadansoddi'r adran. Mae hyn yn cynnwys helpu timau polisi i ddatblygu ac adolygu eu gwaith dadansoddi, gan gynnwys modelau sy'n hanfodol i'r busnes, modelau eraill, gwaith gwerthuso, dadansoddiadau cost a budd ac asesiadau effaith. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofgem yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF yn ei hadolygiad yn 2013. Mae hyn yn parhau i sicrhau bod gwaith dadansoddol Ofgem yn gywir, yn gadarn, a'i fod yn cael ei baratoi i'r safonau uchaf.

## Achosion mewnol o chwythu'r chwiban yn Ofgem

Proses i'r staff godi unrhyw bryderon chwythu'r chwiban yw polisi chwythu'r chwiban mewnol Ofgem, ac mae'n cefnogi ein diwylliant lle mae cyflogeion yn teimlo'n hyderus i godi materion mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae ein polisi'n gyson â'r argymhellion a'r arferion da a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Sifil a Protect. Ni chodwyd yr un mater o dan y polisi hwn yn ystod y flwyddyn.

### Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol

Derbyniodd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd 29 o achosion ymchwiliad sylfaenol yn ystod 2023-24, ac nid oedd unrhyw achosion yn parhau ar agor ers y flwyddyn flaenorol. Ni chadarnhawyd unrhyw achosion, boed hynny'n rhannol neu'n llawn. Ni chadarnhawyd 19 o achosion. Mae 10 o achosion ymchwiliad sylfaenol yn dal i fynd rhagddynt yn 2024.

### Adolygiadau annibynnol

Nid oedd unrhyw adolygiadau annibynnol yn ystod cyfnod 2023-24.

Dros 2021-22, comisiynodd Bwrdd Ofgem adolygiad o achosion sylfaenol methiannau cyflenwyr a ddigwyddodd yn ystod hydref a gaeaf 2021-22, ac yn benodol sut roedd cyfundrefn reoleiddio'r diwydiant wedi chwarae rhan. Hefyd, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Phwyllgor Dethol yr Adran

Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiadau yn 2022 ynglŷn â'r farchnad cyflenwyr ynni ar ôl methiannau cyflenwyr yn hydref a gaeaf 2021-22.

Roedd yr argymhellion i Ofgem yn y gwahanol adolygiadau yn canolbwyntio ar yr un themâu cyffredinol, sef: cyflwyno fframwaith buddiannau defnyddwyr i lywio penderfyniadau, gwelliannau a newidiadau i uwch drefniadau llywodraethu Ofgem a gwelliannau i allu ac adnoddau Ofgem (yn enwedig monitro cadernid ariannol). Mae'r argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith dros 2022-23 ac yn 2023-24. Yn benodol, rydym wedi:

- Datblygu fframwaith buddiannau defnyddwyr a'i roi ar waith.
- Datblygu strategaeth fanwerthu pedwar piler a'i chyhoeddi er mwyn cysoni â'r fframwaith defnyddwyr.
- Cynnal adolygiad llawn o'n trefniadau llywodraethu ac wedi cyflwyno'r newidiadau (gweler Adroddiad y Cyfarwyddwyr am ragor o wybodaeth).
- Creu Cyfarwyddiaeth newydd, sy'n canolbwyntio ar gadernid ariannol a datblygu pecyn polisi ar gyfer digonolrwydd cyfalaf yn y sector manwerthu.
- Datblygu a chyhoeddi strategaeth Cydymffurfiaeth a Gorfodi.
- Ehangu a chynyddu galluoedd ein timau manwerthu, cydymffurfiaeth a gorfodi.

## Casgliad

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a adolygir a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth sy'n ategu'r Datganiad Llywodraethu hwn, gan gynnwys tystiolaeth o strwythurau llywodraethu'r adran a'r cyngor annibynnol a roddwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Dof i'r casgliad bod gan Ofgem systemau llywodraethu a rheoli risg boddhaol ar waith ynghyd â chynlluniau effeithiol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Rwy'n ymrwymedig i sicrhau y caiff ein systemau llywodraethu a rheoli risg eu hatgyfnerthu ymhellach yn 2024/25.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
13 Ionawr 2025

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

## Adroddiad ar gydnabyddiaeth

### Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod a thrwy gystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau lle y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall isod, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn [www.civilservicecommission.org.uk](http://www.civilservicecommission.org.uk)

### Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol

Nodir cydnabyddiaeth pob un o'r cyflogeion yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau y cytunwyd arnynt gan Swyddfa'r Cabinet ac, ar gyfer uwch-weision sifil, yn unol ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Ar wahân i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cydnerthedd a Rheolaethau Ariannol, mae ein huwch-gyflogeion yn aelodau parhaol o'r staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Mae pob aelod parhaol o staff yn yr Uwch Dîm Rheoli yn gymwys i fod yn rhan o gynllun bonws sy'n unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.

### Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn nodi manylion am gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y rheolwyr lefel uchaf (h.y., aelodau'r Bwrdd) yn yr adran.

## Un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth (archwiliedig)

| | Cyflog (£000) | Cyflog (£000) | Taliadau bonws (£000) | Taliadau bonws (£000) | Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf) | Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf) | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** | Cyfanswm (£000) | Cyfanswm (£000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 |
| **Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol a'r Uwch-bwyllgor Gweithredol (Nodyn 1)** | | | | | | | | | | |
| Jonathan Brearley<br>Prif Weithredwr | 200-205 | 190-195 | 5-10 | 10-15* | - | - | 116,000 | 46,000 | 320-325 | 250-255 |
| Akshay Kaul | 140-145 | 120-125 | 5-10 | 0-5* | - | - | 55,000 | 47,000 | 200-205 | 175-180 |
| Melinda Johnson | 115-120 | - | - | - | - | - | 60,000 | - | 175-180 | - |
| Neil Kenward | 120-125 | 110-115 | 10-15 | 10-15* | - | - | 72,000 | 20,000 | 200-205 | 140-145 |
| Neil Lawrence | 150-155 | 140-145 | 5-10 | 0-5* | - | - | 58,000 | 56,000 | 215-220 | 200-205 |
| Priya Brahmbhatt-Patel | 120-125 | 110-115 | 5-10 | - | - | - | 70,000 | 30,000 | 195-200 | 155-160 |
| Sinead Murray | 130-135 | 120-125 | 10-15 | 10-15* | - | - | 56,000 | 50,000 | 195-200 | 185-190 |
| Tim Jarvis | 80-85 | - | - | - | - | - | 70,000 | - | 150-155 | - |
| **Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol (Nodyn 2)** | | | | | | | | | | |
| Anna Rossington | - | 5-10 | - | - | - | - | - | 3,000 | - | 10-15 |
| Cathryn Scott | 50-55 | 120-125 | - | - | - | - | 76,000 | 6,000 | 130-135 | 130-135 |
| Charlotte Ramsay | - | 30-35 | - | - | - | - | - | - | - | 30-35 |
| Eleanor Warburton | 30-35 | 85-90 | - | 5-10 | - | - | 27,000 | -5,000 | 60-65 | 90-95 |
| Peter Bingham | 45-50 | 110-115 | - | - | - | - | 18,000 | 42,000 | 65-70 | 155-160 |
| Philippa Pickford | 25-30 | 95-100 | - | 0-5* | - | - | 79,000 | 1,000 | 105-110 | 105-110 |

| | Cyflog (£000) | Cyflog (£000) | Taliadau bonws (£000) | Taliadau bonws (£000) | Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf) | Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf) | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** | Cyfanswm (£000) | Cyfanswm (£000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2023-24** | **2022-23** | **2023-24** | **2022-23** | **2023-24** | **2022-23** | **2023-24** | **2022-23** | **2023-24** | **2022-23** |
| Rebecca Barnett | 45-50 | 100-105 | 5-10 | - | - | - | 15,000 | 27,000 | 65-70 | 135-140 |
| Richard Smith | 55-60 | 115-120 | - | - | - | - | 31,000 | 44,000 | 85-90 | 155-160 |
| Simon Wilde | - | 120-125 | - | 10-15* | - | - | - | 46,000 | - | 180-185 |
| Stuart Okin | 35-40 | - | 0-5 | - | - | - | 20,000 | - | 60-65 | - |
| **Aelodau anweithredol o'r Awdurdod (Nodyn 3)** | | | | | | | | | | |
| Martin Cave Cadeirydd | 95-100 | 160-165 | - | - | - | - | - | - | 95-100 | 160-165 |
| Mark McAllister Cadeirydd | 65-70 | - | - | - | - | - | - | - | 65-70 | - |

* * Rhoddodd yr aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol y dyfarnwyd bonws iddynt ar gyfer 2021-22 (yn dderbyniadwy yn 2022-23) eu bonysau i elusen. Fodd bynnag, dangosir y bonysau hyn o hyd yn y tabl uchod er cyflawnrwydd.

**Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu leihad sydd i'w briodoli i drosglwyddo hawliau pensiwn.

**Nodiadau i dabl un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth:**

*Nodyn 1:*
Yn ystod 2023-24, rhoddwyd strwythurau llywodraethu newydd ar waith. Roedd y Pwyllgor Gweithredol ar waith tan ddiwedd mis Awst 2023 ac fe'i disodlwyd gan yr Uwch-bwyllgor Gweithredol o 1 Medi 2023. Ceir manylion llawn am y byrddau yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Yn ystod 2022-23, cyhoeddwyd uwch-strwythur newydd, a oedd yn cyflwyno tair rôl SCS 3 newydd. Roedd Akshay Kaul yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Seilwaith a Diogeledd Cyflenwad dros dro o fis Gorffennaf 2022 tan 7 Mehefin 2023, pan gafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol, Seilwaith.

Penodwyd Melinda Johnson yn Brif Swyddog Gweithredu o fis Awst 2023. Penodwyd Tim Jarvis yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Marchnadoedd o fis Medi 2023.

- Ymunodd Melinda Johnson ar 7 Awst 2023, gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £180,000-£185,000.
- Ymunodd Tim Jarvis ar 4 Medi 2023, gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £135,000-£140,000.

*Nodyn 2:*
Roedd y cyfarwyddwyr canlynol yn eu swyddi drwy gydol 2023-24, ond mae eu cydnabyddiaeth a'u buddiannau pensiwn a ddangosir yn y tabl ond yn nodi'r cyfnodau pan oeddent yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Gweithredol (o 1 Ebrill 2023 tan 30 Awst 2023).

- Mae Cathryn Scott yn cael cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £130,000-£135,000.
- Mae Eleanor Warburton yn cael cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £100,000-£105,000.
- Mae Peter Bingham yn cael cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £110,000-£115,000.
- Mae Rebecca Barnett yn cael cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £105,000-£110,000.
- Daeth Stuart Okin yn aelod o'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Mehefin 2023 gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £130,000-£135,000.
- Gadawodd Philippa Pickford ar 16 Gorffennaf 2023, gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £110,000-£115,000.
- Gadawodd Richard Smith ar 1 Tachwedd 2023, gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £130,000-£135,000.

Roedd dau aelod o'r Pwyllgor Gweithredol wedi'u secondio neu roeddent ar fenthyg o sefydliadau eraill. Gwnaeth yr adrannau gwreiddiol gyfraniadau pensiwn ar ran y cyflogeion hyn, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn nhabl pensiynau Ofgem.

- Roedd Christina Duncan yn aelod o'r Pwyllgor Gweithredol o 14 Tachwedd 2022 tan 31 Mawrth 2023, a gwnaeth Ofgem daliadau o £75,000-£80,000 am gostau i'r Adran Drafnidiaeth. Y cyflog blwyddyn lawn y mae'r ffigur hwn wedi'i seilio arno yw £115,000-120,000. Nid yw hyn yn cynnwys cyfraniadau pensiwn, trethi na buddiannau.
- Roedd Rohan Churm yn aelod o'r Pwyllgor Gweithredol o 13 Mawrth 2023 tan 30 Awst 2023 ac mae Ofgem wedi gwneud taliadau o £105,000-£110,000 am gostau i Fanc Lloegr sy'n ymwneud â'r cyfnod pan oedd yn aelod o'r Pwyllgor Gweithredol yn y flwyddyn ariannol. Y cyflog blwyddyn lawn y mae'r ffigur hwn yn seiliedig arno yw £125,000-£130,000 ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn, trethi na buddiannau.

Gadawodd Chris O'Connor ar 31 Gorffennaf 2022 a chafodd dâl o £105,000-£110,000 am y cyfnod, sy'n gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £325,000-£330,000.

*Nodyn 3:*
Yn ystod 2023-24, newidiwyd y Cadeirydd.

- Martin Cave oedd y Cadeirydd tan 15 Tachwedd 2023, gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £160,000-165,000.
- Ymunodd Mark McAllister fel y Cadeirydd ar 6 Tachwedd 2023, gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £170,000-175,000.

## Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol eraill o'r Awdurdod

| | Honorariwm | Lwfans | Honorariwm | Lwfans |
|---|---|---|---|---|
| | **2023-24** | **2023-24** | **2022-23** | **2022-23** |
| Lynne Embleton | £13,333 | £3,250 | £20,000 | £3,000 |
| John Crackett | £20,000 | - | £20,000 | £2,000 |
| Myriam Madden | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |
| Barry Panayi | £20,000 | - | £20,000 | - |
| Christine Farnish | - | - | £6,827 | £1,000 |
| Warren Buckley | £8,055 | £448 | - | - |
| Tony Curzon Price | £8,055 | - | - | - |
| Jonathan Kini | £8,055 | - | - | - |
| Alena Kozakova | £8,055 | - | - | - |
| Graham Mather | £8,055 | - | - | - |

Daeth cyfnod Lynne Embleton yn ei swydd i ben ar 30 Tachwedd 2023. Y ffigurau cyfwerth ag amser llawn yw honorariwm o £20,000 a lwfans o £3,000.

Penodwyd pum cyfarwyddwr anweithredol newydd a Chadeirydd newydd yn ystod y flwyddyn, o 6 Tachwedd 2023. Y ffigurau cyfwerth ag amser llawn ar gyfer yr aelodau anweithredol eraill yw honorariwm o £20,000 (ynghyd â lwfans o £3,000 i Warren Buckley).

Ymddiswyddodd Christine Farnish o'r Bwrdd ar 3 Awst 2022. Y ffigurau cyfwerth ag amser llawn yw honorariwm o £20,000 a lwfans o £3,000.

## Cydnabyddiaeth i aelodau o'r Panel Penderfyniadau Gorfodi

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | **(£000)** | **(£000)** |
| Megan Forbes | 10-15 | 15-20 |
| Peter Hinchliffe | 30-35 | 20-25 |
| Amelia Fletcher | - | 0-5 |
| Andrew Long | - | 0-5 |
| Dr Ulrike Hotopp | 5-10 | 5-10 |
| Ali Nikpay | 0-5 | 0-5 |
| Dr Philip Marsden | 0-5 | 0-5 |
| Elizabeth France | - | 0-5 |
| Andrew Ellam | 0-5 | 0-5 |
| Juliet Lazarus | 0-5 | - |
| David Ashbourne | 0-5 | - |

Daeth cyfnodau Amelia Fletcher, Andrew Long ac Elizabeth France yn eu swyddi i ben ym mis Mai 2022 a daeth cyfnod Dr Philip Marsden yn ei swydd i ben ym mis Mai 2023. Ymunodd Andrew Ellam â'r panel ym mis Mawrth 2023. Ymunodd Juliet Lazarus â'r panel ym mis Ionawr 2024. Ymunodd David Ashbourne â'r panel ym mis Chwefror 2024.

Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi yn gweithredu gydag awdurdod wedi'i ddirprwyo gan yr Awdurdod; felly, penodir aelodau o'r Panel yn gyflogeion Ofgem.

Caiff aelodau'r Panel eu penodi am gyfnodau yn amrywio o rhwng 3 a 5 mlynedd. Disgwylir i'r aelodau neilltuo hyd at gyfanswm o 25 diwrnod y flwyddyn, yn dibynnu ar nifer yr achosion y ceir dadl yn eu cylch. Mae'r aelodau yn cael cydnabyddiaeth yn seiliedig ar oriau a weithiwyd (ond maent yn ennill o leiaf £1,000 y flwyddyn). Fel cyflogeion, mae aelodau'r Panel yn ymuno â chynllun pensiwn Alpha'r Gwasanaeth Sifil yn awtomatig (gyda'r opsiwn i ymeithrio). Nid oes unrhyw ofynion o ran isafswm enillion i fod yn aelod o gynllun pensiwn Alpha.

Yn ychwanegol at y gydnabyddiaeth a ddangosir yn y tabl uchod, cafodd Megan Forbes fuddiannau pensiwn gwerth £4,000 (i'r £1,000 agosaf) a chafodd Juliet Lazarus fuddiannau pensiwn gwerth £1,000 (i'r £000 agosaf).

## Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros; goramser; lwfansau swyddfa breifat; ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan yr Adran ac fel y'u cofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

## Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan yr Adran ac a gaiff eu trin gan Cyllid a Thollau EF fel tâl trethadwy.

## Taliadau Bonws (archwiliedig)

Mae taliadau bonws yn seiliedig ar lefelau perfformiad a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu.

Mae taliadau bonws yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod y flwyddyn pan ddônt yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r taliadau bonws yr adroddwyd arnynt yn 2023-24 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2022-23. Mae'r taliadau bonws cymharol yr adroddwyd arnynt yn 2022-23 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2021-22.

Yn 2023-24, roedd 1,233 o staff (2022-23: 972 o staff) a gafodd fonws. Y taliad bonws cyfartalog oedd £1,157 (2022-23: £1,484) ac roedd y cyfanswm a dalwyd mewn taliadau bonws yn cyfateb i £1,426,913 (2022-23: £1,442,699). Cafodd dau unigolyn y bonws mwyaf, sef £10,500 (2022-23: cafodd pedwar unigolyn y bonws mwyaf, sef £13,000).

## Lluosrifau cyflog (archwiliedig)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth chwartel isaf, ganolrifol ac uchaf gweithlu'r sefydliad. Cydnabyddiaeth cyfwerth â blwyddyn lawn wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf yn y flwyddyn ariannol 2023-24 oedd £200,000-205,000 (2022-23 £325,000-330,000). Yn 2022-23, contractwr, ac nid cyflogai oedd y cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf. Gweler yr adran 'Penodeion nad ydynt ar y Gyflogres' ar dudalen 71 am ragor o wybodaeth. Mae'r tabl isod yn dangos cymarebau pwynt canol cydnabyddiaeth wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf, i ffigurau cyflog a buddiannau'r cyflogeion y mae eu cyflog a'u buddiannau ar 25ain, 50fed a 75ain ganradd cyflogeion Ofgem.

| | **Cymhareb Tâl 25ain Ganradd (Chwartel Isaf)** | **Cymhareb Tâl y 50fed Ganradd (Canolrif)** | **Cymhareb Tâl 75ain Ganradd (Chwartel Uchaf)** |
|---|---|---|---|
| 2023-24 | 6.21:1 | 4.42:1 | 3.45:1 |
| 2022-23 | 10.58:1 | 7.55:1 | 5.53:1 |

Dangosir cyfanswm tâl a buddiannau 2023-24, ac elfen gyflog cyflogeion ar y 25ain, 50fed a'r 75ain ganradd o'r cyfanswm tâl a buddiannau isod:

| | **25ain Ganradd (Chwartel Isaf) £** | **50fed Ganradd (Canolrif) £** | **75ain Ganradd (Chwartel Uchaf) £** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm tâl a buddiannau 2023-24 | 31,921 | 48,074 | 62,378 |
| Cyfanswm tâl a buddiannau 2022-23 | 30,950 | 43,398 | 59,212 |
| Elfen gyflog y cyfanswm tâl a buddiannau 2023-24 | 29,411 | 45,614 | 58,634 |
| Elfen gyflog y cyfanswm tâl a buddiannau 2022-23 | 30,950 | 42,473 | 57,120 |

Yn 2023-24, cafwyd gostyngiad yng nghyflog cyfwerth â blwyddyn lawn a lwfansau'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf o gymharu â 2022-23. Y newid canrannol cyfartalog o 2022-23 yng nghyflog a lwfansau cyflogeion Ofgem yn eu cyfanrwydd oedd cynnydd o 3.89%, ac o ran tâl perfformiad a thaliadau bonws taladwy, oedd cynnydd 5.99%.

Yn 2023-24, ni chafodd dim un (2022-23: dim) o gyflogeion Ofgem gydnabyddiaeth yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf. Roedd cydnabyddiaeth cyflogeion yn amrywio o £23,069 i £182,000 (2022-23: £19,047 i £204,227).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Buddiannau pensiwn (archwiliedig)

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31/3/24 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/3/24 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/3/23 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Jonathan Brearley Prif Weithredwr | 50-55 a chyfandaliad o 125-130 | 5-7.5 a chyfandaliad o 5-7.5 | 1,082 | 902 | 87 |
| Akshay Kaul | 20-25 | 2.5-5 | 303 | 231 | 35 |
| Melinda Johnson | 55-60 | 2.5-5 | 1,191 | 1,059 | 61 |
| Neil Kenward | 35-40 a chyfandaliad o 95-100 | 2.5-5 a chyfandaliad o 2.5-5 | 814 | 690 | 55 |
| Neil Lawrence | 5-10 | 2.5-5 | 133 | 76 | 36 |
| Priya Brahmbhatt-Patel | 40-45 | 2.5-5 | 676 | 574 | 45 |
| Sinead Murray | 45-40 a chyfandaliad o 70-75 | 2.5-5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 859 | 739 | 40 |
| Tim Jarvis | 50-55 | 2.5-5 | 1,061 | 936 | 69 |
| Cathryn Scott | 45-50 | 2.5-5 | 973 | 858 | 73 |
| Eleanor Warburton | 25-30 a chyfandaliad o 45-50 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 483 | 443 | 19 |
| Peter Bingham | 15-20 | 0-2.5 | 244 | 212 | 12 |
| Philippa Pickford | 30-35 a chyfandaliad o 80-85 | 2.5-5 a chyfandaliad o 7.5-10 | 634 | 552 | 71 |
| Rebecca Barnett | 20-25 | 0-2.5 | 293 | 260 | 10 |
| Stuart Okin | 5-10 | 0-2.5 | 209 | 176 | 14 |
| Richard Smith | 10-15 | 0-2.5 | 99 | 68 | 20 |

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd gan actiwari buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau a gronnwyd yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'n daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddiannau pensiwn

mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod am ei fod wedi prynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod eu gweithio allan yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn cyfrif am unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i'r buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan gaiff buddiannau pensiwn eu cymryd.

### Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Adroddiad staff

## Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (archwiliedig)

Roedd nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **2023-24** | **2023-24** | **2023-24** | **2022-23** |
| Rheoleiddio | 526 | 32 | 558 | 495 |
| Cyflawni a Chynlluniau | 608 | 63 | 671 | 546 |
| Gweithrediadau | 587 | 69 | 656 | 444 |
| **Cyfanswm** | **1,721** | **164** | **1,885** | **1,485** |

Roedd 69 o bobl sy'n gyfwerth ag amser cyflawn ar gyfartaledd ar radd SCS yn ystod y flwyddyn. O'r rhain, roedd 55 ym mand cyflog 1, roedd 11 ym mand cyflog 2, ac roedd 3 ym mand cyflog 3.

## Costau staff (archwiliedig)

Mae costau staff yn cynnwys:

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | 2023-24 (£000) | 2023-24 (£000) | 2023-24 (£000) | 2022-23 (£000) |
| Cyflogau | 83,456 | 13,175 | 96,631 | 79,070 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 9,587 | 570 | 10,157 | 7,854 |
| Costau pensiwn eraill | 21,848 | 1,364 | 23,212 | 17,393 |
| Costau staff eraill | 9 | 24 | 33 | 174 |
| Ardoll Brentisiaethau (traul treth) | 437 | - | 437 | 324 |
| **Cyfanswm** | **115,337** | **15,133** | **130,470** | **104,815** |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a rennir yn adrannau gwahanol – mae **clasurol, premiwm** a **clasurol plws** yn darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol, ac mae **nuvos** yn darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun Newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd, a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn swydd, â'r cynllun newydd.

Cynlluniau statudol heb eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac **alpha**. Bydd cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05%, yn dibynnu ar gyflog). Caiff balans cost y buddiannau a delir ei gwmpasu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau a delir eu cynyddu bob blwydydn yn unol â'r ddeddfwriaeth Pensiynau (Cynnydd). Yn hytrach na'r trefniadau buddiannau diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniad diffiniedig gyda chyfraniad cyflogwr, y cyfrif pensiwn **partneriaeth**.

Yn **alpha**, bydd pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, a chaiff y cyfanswm a gronnir ei addasu bob blwyddyn yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004. Cafodd buddiannau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil pob aelod a newidiodd i **alpha** o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil eu 'bancio', gyda'r sawl oedd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael y buddiannau hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**.

Y pensiwn a gronnwyd a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu yn union ar ôl iddo roi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os bydd eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn arferol yw 60 i aelodau **clasurol, premiwm** a **clasurol plws**, 65 i aelodau **nuvos**, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag yw'r uchaf, i aelodau **alpha**. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y

Gwasanaeth SIfil neu **alpha** – fel sy'n briodol. Pan fydd gan aelod fuddiannau ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac **alpha**, mae'r ffigurau'n dangos gwerth cyfunol ei fuddiannau yn y ddau gynllun ond yn nodi y gall cyfansoddion y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau presennol y cynllun yn wahanol yn seiliedig ar eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yn y cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau.

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny a waned yn 2015, gan sicrhau bod darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i'r holl aelodau. Mae rhwymedi pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys dwy ran. Daeth y rhan gyntaf â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil i ben ar 31 Mawrth 2022, gyda'r holl aelodau gweithredol yn mynd yn aelodau o **alpha** o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran dros gyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 1 Hydref 2023. Gelwir hyn yn "ddirwyn y broses yn ôl".

Ar gyfer aelodau sydd o fewn cwmpas rhwymedi pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus, mae'r broses o gyfrifo eu buddiannau at ddiben cyfrifo eu Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod a chyfanswm unigol eu taliad cydnabyddiaeth, ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i dirwyn yn ôl i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Er y bydd aelodau maes o law yn cael opsiwn i benderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at fuddiannau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu **alpha**, mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa ar ôl dirwyn y broses yn ôl h.y. buddiannau Prif Gynllun Busnes y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Ar gyfer 2023-24, roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £22,940,594 yn daladwy i'r PCSPS (2022-23: £17,404,994) ar un o'r pedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig sy'n rhan o Legal & General Mastertrust. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Talwyd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £270,140 (2022/23: £218,039) i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig.

Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogai hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd y cyflogwr yn cyfrannu £11,255 (2022-23: £8,133), 0.5 y cant o gyflog pensiynadwy, i'r PCSPS i dalu cost darparu buddiannau yn y dyfodol ar ffurf cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn. Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £34,783 (2022-23: £23,050). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2022-23: dim).

Ni wnaeth neb (2022-23: neb) ymddeol yn gynnar oherwydd salwch; ni chronnwyd unrhyw rwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn ystod y flwyddyn (2022-23: dim).

## Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Ein gwariant ar wasanaethau ymgynghori eraill yn 2023-24 oedd £18.8 miliwn, yn unol â nodyn 3 o'r cyfrifon (2022-23: £29.6 miliwn; 2021-22: £23.4 miliwn). Rydym yn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar gymorth allanol drwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer y sgiliau

sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth. Rydym yn parhau i ddefnyddio cymorth gwasanaethau proffesiynol i gael gafael ar arbenigwyr sy'n rhoi cyngor proffesiynol neu gyfreithiol mewn perthynas â chyflawni ein portffolio o waith, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi cymorth cyflawni arbenigol lle nad yw'n ddarbodus cynnal yr arbenigedd hwn yn fewnol.

## Penodeion nad ydynt ar y gyflogres

Penodiadau gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres am dâl uchel ar 31 Mawrth 2024, yn ennill £245 (nodyn 1) y dydd neu fwy:

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer y penodiadau presennol ar 31 Mawrth 2024 | - |
| O'r rhai hynny, y nifer a oedd yn bodoli: | |
| am lai na blwyddyn | - |
| rhwng blwyddyn a dwy flynedd | - |
| rhwng dwy a thair blynedd | - |
| rhwng tair a phedair blynedd | - |
| am bedair blynedd neu fwy | - |

Yr holl weithwyr nad ydynt ar y gyflogres a benodwyd am dâl uchel ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, yn ennill £245 y dydd neu fwy:

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr dros dro nad ydynt ar y gyflogres a benodwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | - |
| Y mae ohonynt: | |
| Nad ydynt yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennwyd eu bod o fewn cwmpas IR35 (nodyn 2) | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennwyd eu bod y tu allan i gwmpas IR35 | - |
| Nifer y penodiadau yn ailasesu at ddibenion cydymffurfiaeth neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | - |
| Y mae ohonynt: Nifer y penodiadau a welodd newid i statws IR35 ar ôl yr adolygiad | - |

Ar gyfer penodi unrhyw aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer penodiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol | - |
| Cyfanswm nifer yr unigolion sydd ar y gyflogres ac nad ydynt ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn 'aelodau bwrdd a/neu'n uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol ariannol sylweddol', yn ystod y flwyddyn | 2 |

Nodyn 1: Mae'r trothwy o £245 wedi'i bennu i fod yn agos at bwynt isaf y raddfa gyflog ar gyfer Uwch-was Sifil.

Nodyn 2: Bydd gweithiwr sy'n darparu ei wasanaethau drwy ei gwmni cyfyngedig ei hun neu fath arall o gyfryngwr i'r cleient yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres, ac mae'n rhaid i'r endid gynnal asesiad i bennu a yw'r gweithiwr hwnnw o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth ynglŷn â Chyfryngwyr (IR35) neu y tu allan i gwmpas at ddibenion treth.

## Amser cyfleuster undeb llafur

Daeth Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 i rym ar 1 Ebrill 2017. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod gofyniad deddfwriaethol ar gyflogwyr perthnasol yn y sector cyhoeddus i gasglu a chyhoeddi amrywiaeth o ddata ar gyfanswm a chost amser cyfleuster o fewn eu sefydliad yn flynyddol.

## Swyddogion undeb perthnasol

Cyfanswm nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | 17 |
| Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn | 16.55 |

## Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

Ar gyfer cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a oedd yn cael eu cyflogi rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, canran eu horiau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster:

| | Nifer |
|---|---|
| 0% | - |
| 1-50% | 17 |
| 51-99% | - |
| 100% | - |

## Canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster

Ar gyfer cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster:

| | **£/%** |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £17,151 |
| Cyfanswm y bil cyflogau | £130.5 miliwn |
| Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.01% |

## Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Ar gyfer cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, canran yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur.

Canran yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl oedd dim.

## Adrodd ar gynlluniau'r gwasanaeth sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael (archwiliedig)

| Band costau pecyn ymadael | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2023-24** | **2023-24** | **2023-24** | **2022-23** | **2022-23** | **2022-23** |
| <£10,000 | - | - | - | - | - | - |
| £10,000-£25,000 | - | - | - | - | - | - |
| £25,000-£50,000 | - | - | - | - | - | - |
| £50,000-£100,000 | - | 2 | 2 | - | 3 | 3 |
| £100,000-£150,000 | - | - | - | - | - | - |
| £150,000-£200,000 | - | - | - | - | - | - |
| £200,000-£250,000 | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | - | 2 | 2 | - | 3 | 3 |
| Cyfanswm y gost £000 | - | 133 | 133 | - | 247 | 247 |

Talwyd costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS), cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y cyfrifyddwyd ar eu cyfer yn 2023-24 (rhoddir ffigurau cymharol ar gyfer 2022-23 hefyd).

Pan fydd yr adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr adran, nid cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.


| Cyfansoddiad y staff | Cyfanswm y menywod | Canran | Cyfanswm y dynion | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Pob cyflogai | 865 | 46% | 1,019 | 54% |
| Band Cyflog 1 yr Uwch-wasanaeth Sifil | 27 | 48% | 29 | 52% |
| Band Cyflog 2 yr Uwch-wasanaeth Sifil | 5 | 44% | 6 | 56% |
| Band Cyflog 3 yr Uwch-wasanaeth Sifil | 1 | 33% | 2 | 78% |

## Cynnwys cyflogeion

Mesur a ddefnyddir i sicrhau bod cyflogeion yn ymrwymedig i nodau a gwerthoedd eu sefydliad, ac yn cael cymhelliant i gyfrannu at lwyddiant y sefydliad yw'r Mynegai Ymgysylltu Cyflogeion Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn defnyddio pum cwestiwn i fesur ymgysylltu cyflogeion ac yn cyfuno'r holl ymatebion (cadarnhaol, niwtral a negyddol) yn sgôr mynegai cryno, er mwyn dweud wrth adrannau ble maent ar raddfa o amharod iawn i ymgysylltu (0%) i barod iawn i ymgysylltu (100%).

Ein sgôr ymgysylltu cyffredinol yw 59%, o gymharu â 58% yn 2022. Meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2023 yw 64%.

Mae dadansoddiad o ganlyniad Ofgem yn erbyn y pum maes fel a ganlyn:



## Polisïau Pobl Allweddol

Diweddarwyd ein polisi Gweithio Hybrid yn ystod y flwyddyn hon. Mae'n rhaid i bob cyflogai weithio o leiaf un diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd yn ei swyddfa ddynodedig, sy'n rhoi hyblygrwydd i fodloni gofynion dros fis calender (h.y., 20% o bresenoldeb yn y swyddfa ar gyfartaledd), gydag anogaeth i wneud rhagor. Ategir hyn gan drefniadau monitro newydd sydd wedi cael eu cyflwyno i ddeall y defnydd a wneir o swyddfeydd a sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi.

Mae'r polisi wedi'i gynllunio i fod yn deg, yn gynhwysol, ac yn gynhyrchiol i bawb ac mae'n taro cydbwysedd rhesymol rhwng anghenion y sefydliad a dymuniadau personol a fynegwyd drwy'r rhaglen ymgysylltu â'r staff. Nod y polisi yw helpu pobl i fynd i'r swyddfa yn ôl y disgwyl, a hyderwn y bydd ein holl gydweithwyr yn gweithio gyda'i gilydd i roi'r polisi hwn ar waith yn effeithiol.

Gwnaed newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd ynglŷn â Data Cyflogeion i gynnwys gwybodaeth am sut y caiff presenoldeb yn y swyddfa ei fonitro drwy ddangosfwrdd, a bod system monitro defnydd o ddesgiau yn cael ei defnyddio ym mhob un o swyddfeydd Ofgem.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Yn ein rôl ddeuol fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio.

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith: wrth recriwtio ac mewn cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu gyrfa. Ni ddylai neb wynebu gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu.

Yn yr arolwg o ymgysylltu staff yn 2023 cawsom sgôr o 84% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg, sef cynnydd o 1% o gymharu â 2022. Yn 2022-23, adnewyddwyd ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac un o'r blaenoriaethau allweddol oedd ffocws ar ddatblygu gweithlu amrywiol a chynhwysol a diwylliant cynhwysol. Ers lansio'r strategaeth, rydym wedi datblygu dangosfwrdd data cadarn i gofnodi cynrychioliaeth yn ein gweithlu yn ôl nodweddion gwarchodedig a gwell cyfraddau datgan data drwy ymgyrch fewnol. Rydym hefyd wedi dechrau casglu data ar gefndir economaidd-gymdeithasol ein staff.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ein targedau i ymgyrraedd atynt o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y gweithlu, a chynyddu cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig. Rydym wedi cyflawni achrediadau Arweinydd Hyderus o ran Gofalwyr Lefel 1 ac Arweinydd Hyderus o ran Anabledd (Lefel 3), gan ddangos ein hymrwymiad a'n cefnogaeth i'r rhai ag anableddau a gofalwyr.

Rydym wedi cynnal nifer o weithgareddau i wella symudedd cymdeithasol yn Ofgem, gan gynnwys cynllun profiad gwaith peilot ar y cyd â chyngor Tower Hamlets, cydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gynlluniau mentro a lleoliadau i fyfyrwyr gyda City, Prifysgol Llundain.

Gwnaethom lansio polisïau ar y Menopos a Thrawsnewid yn y gwaith i godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at gymorth i unigolion sy'n mynd drwy newidiadau o'r fath yn eu bywydau. Hefyd, mae Ofgem wedi parhau i gefnogi ein rhwydweithiau amrywiaeth sy'n cwmpasu menywod, LHDT+, ethnigrwydd, anabledd, iechyd meddwl a gofalwyr, ac wedi sefydlu rhwydweithiau newydd ar oedran ac i staff Mwslimaidd. Yn 2023, parhawyd i ddarparu hyfforddiant ar amrywiaeth a chynhwysiant i staff. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ym mhopeth a wnânt. Ar 31 Mawrth 2024:

- roedd yn hysbys bod gan 9% (2022-23: 8%) o'r staff anabledd
- roedd 46% (2022-23: 46%) o'r staff yn fenywod
- roedd 43% (2022-23: 45%) o'r staff ar raddau rheoli (Lefel 3 i SCS3) yn fenywod
- roedd 47% (2022-23: 47%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod
- roedd yn hysbys bod 29% (2022-23: 25%) o'r staff yn dod o darddiad ethnig lleiafrifol
- mae 18% (2022-23: 14%) o'r staff ar raddau rheoli (Lefel 3 i SCS3) o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai.

Ceir data bwlch cyflog rhwng y rhywiau Ofgem yn: Adroddiadau Bwlch cyflog rhwng y rhywiau Ofgem – gwasanaeth bwlch cyflog rhwng y rhywiau (gender-pay-gap.service.gov.uk).

Bu amrywiaeth a chynhwysiant yn agwedd allweddol ar ein hymgysylltu allanol â'r sector ynni ehangach y flwyddyn hon. Ym mis Mehefin 2023, roeddem yn falch o ffurfio partneriaeth ag Energy UK, Cymdeithas y Rhwydweithiau Ynni a'r Sefydliad Ynni, i gynnal y drydedd gynhadledd flynyddol ar Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

Sefydlwyd y grŵp 'Mynd i'r Afael â Chynhwysiant ac Amrywiaeth ym maes Ynni' (TIDE) yn 2022. Lansiodd Ofgem y grŵp ar y cyd ag Energy UK a Chymdeithas y Rhwydweithiau Ynni yng Nghynhadledd Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2022 fel grŵp traws-diwydiant i wella Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy'r sector ynni cyfan. Mae bellach yn cael ei redeg mewn partneriaeth gan Ofgem, Energy-UK, Cymdeithas y Rhwydweithiau Ynni, a'r Sefydliad Ynni. Mae mwy nag 20 o sefydliadau wedi'u cynrychioli yng Ngrŵp Llywio TIDE erbyn hyn, a mwy a 30 yn y grŵp.

Mae TIDE wedi lansio Ymrwymiad Arweinwyr yn ddiweddar i annog yr arweinwyr lefel uchaf yn y sector i arwain drwy esiampl ac ysgogi newid yn eu sefydliadau eu hunain. Rydym hefyd yn falch o fod wedi cefnogi lansiad gwiriad iechyd y cwmni, cyfres o weminarau a Hwb ar-lein, sy'n gweithredu fel siop un stop ar gyfer materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy'r sector ynni.

Yn Ofgem, rydym yn cofnodi data gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n rhan o'n rhaglen casglu gwybodaeth am gwsmeriaid, ac yn defnyddio hyn i lywio ein gwaith i gefnogi cwsmeriaid ac amrywiaeth eu hanghenion, yn ogystal â gweithgareddau eraill fel gwneud addewid POWERful Women a chymryd rhan ym mhrosiect 50:50 y BBC. Mae hyn yn ein galluogi i gynnal ymwybyddiaeth ehangach o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn allanol. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cefnogi'r defnyddwyr a wasanaethwn yn well, ac annog eraill yn y diwydiant i wneud yr un peth.

## Hybu iechyd a diogelwch yn y gwaith

Mae Ofgem yn cefnogi ac yn hyrwyddo amgylchedd gwaith diogel yn ei swyddfeydd, mewn swyddfeydd gartref a phan fydd staff yn ymweld â safleoedd. Adnewyddwyd Polisi Iechyd a Diogelwch Ofgem yn ystod 2023-24.

## Cydberthnasau ag Undebau Llafur

Yr Undebau Llafur a gydnabyddir yn Ofgem yw PCS ac FDA. Cynhelir cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Negodi yn fisol, ac ychwanegir cyfarfodydd ad hoc yn ôl yr angen i drafod mater brys neu benodol. Mae is-grŵp polisi adnoddau dynol hefyd wedi cael ei sefydlu i gyflwyno adroddiadau i'r Cyd-bwyllgor Negodi, er mwyn cytuno ar newidiadau newydd neu arwyddocaol i bolisïau ym maes adnoddau dynol. Mae gennym gydberthnasau cadarnhaol ac adeiladol â'r ddau Undeb Llafur. Gwneir pob ymdrech i hyrwyddo a sicrhau'r gydberthynas waith orau bosibl rhwng Ofgem a'r Undebau Llafur.

## Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2023-24, collwyd 4.3 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2022-23: 4.2 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y sector cyhoeddus sef 8.1 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai.

## Trosiant staff

Yn 2023-24, trosiant staff oedd 16.3% (2022-23: 24%). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 7.4% yn y Gwasanaeth Sifil. Gellir priodoli ein trosiant uchel yn rhannol i'r farchnad gystadleuol am dalent yn y sector ynni a hefyd y gwahaniaeth o ran cyflog o'n cymharu â rheoleiddwyr eraill. Yn 2024, lansiwyd ein Strategaeth newydd ar gyfer y Gweithlu ynghyd â chynllun gweithredu ategol er mwyn mynd i'r afael â'r trosiant. Ein nod yw lleihau ein trosiant ymhellach yn 2024-25 i 10% neu'n is.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
13 Ionawr 2025



# Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2023-24

# Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

## Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol

### Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2023-24

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SOPS) a nodiadau ategol.

Mae'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig yn cael eu harchwilio, fel y nodwyd yn Nhystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin.

Mae'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn eu Hamcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a ddaw o'r Gronfa Gyfunol yn bennaf), y mae Senedd y DU yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn manylu ar y cyflenwad ac mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo drwy bleidlais ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd endid yn mynd dros y terfynau a bennir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd barn amodol yn cael ei rhoi ar ei gyfrifon. Mae fformat y Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn ei gwneud yn bosibl cymharu'r hyn y mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cynnwys tabl cryno, sy'n manylu ar berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae Senedd y DU wedi'u cymeradwyo drwy bleidlais, arian parod a wariwyd (llunnir cyllidebau ar sail croniadau ac felly ni fyddai alldro yn cyfateb yn union i'r arian parod a wariwyd) a gweinyddiaeth.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: Alldro fesul llinell o'r Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro ag incwm gweithredu net yn y SOCNE, i gysylltu'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a, dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy at y Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Mae'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y bydd Senedd y DU yn ei chymeradwyo drwy bleidlais. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd, yn cynnwys trafodaeth gryno ar alldro yn erbyn yr amcangyfrif ac mae'n gweithredu fel cyflwyniad i ddatgeliadau'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS hefyd ym mhennod 1 o'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, sydd ar gael yn gov.uk.

Tablau cryno – yn adlewyrchu rhan 1 o'r Amcangyfrifon

**Tabl cryno 2023-24, cyflwynir pob ffigur mewn £000oedd**

| Math o Wariant | Nodyn SOPS | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymeradwywyd drwy bleidlais | Nis cymeradwywyd drwy bleidlais | Cyfanswm | Cymeradwywyd drwy bleidlais | Nis cymeradwywyd drwy bleidlais | Cyfanswm | Cymeradwywyd drwy bleidlais | Cyfanswm | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | | |
| – Adnodd | 1.1 | 6,351 | - | 6,351 | 38,383 | - | 38,383 | 32,032 | 32,032 | (57,936) |
| – Cyfalaf | 1.2 | 1,176 | - | 1,176 | 2,760 | - | 2,760 | 1,584 | 1,584 | 2,163 |
| **Cyfanswm Gwariant yn y Gyllideb** | | **7,527** | **-** | **7,527** | **41,143** | **-** | **41,143** | **33,616** | **33,616** | **(55,773)** |
| **Gwariant Heb fod yn y Gyllideb** | | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm yn y Gyllideb a Heb fod yn y Gyllideb** | | **7,527** | **-** | **7,527** | **41,143** | **-** | **41,143** | **33,616** | **33,616** | **(55,773)** |

Mae'r ffigurau yn y meysydd wedi'u hamlinellu â llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU. Dylid cyfeirio at y llawlyfr canllaw ar Amcangyfrifon o'r Cyflenwad sydd ar gael yn gov.uk am fanylion am y terfynau rheolaeth a gymeradwyir drwy bleidlais gan Senedd y DU.

**Gofyniad arian parod net 2023-24, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd**

| Math o wariant | Nodyn SOPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | 3 | (15,161) | 29,372 | 44,533 | **(32,368)** |

**Costau gweinyddol 2023-24, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd**

| Math o wariant | Nodyn SOPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddol** | 1.1 | 9,098 | 35,852 | 26,754 | **(8,203)** |

Er nad yw hwn yn derfyn a gymeradwyir drwy bleidlais ar wahân, bydd unrhyw achos o dorri'r gyllideb weinyddol hefyd yn arwain at bleidlais ar gostau ychwanegol.

Mae gan yr Adran Addasiadau Cyfnod Blaenorol o ganlyniad i gydnabod treth a gwariant priodoledig mewn perthynas ag ardoll y Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall.

Mae'n briodol i'r adran geisio awdurdod Seneddol ar gyfer addasiadau cyfnod blaenorol sy'n deillio o benderfyniad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i newid dosbarthiad penderfyniadau ynghylch ardoll y Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall. Mae addasiadau cyfnod blaenorol wedi'u cynnwys yn y Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol 2022-23 fel y nodir isod, sydd wedi'u cynnwys yn y Cyflenwad a gymeradwywyd drwy bleidlais yn Amcangyfrif Ofgem.

Cafodd penderfyniadau a wnaed gan Ofgem ynghylch ardoll y Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall eu dosbarthu'n fath o dreth a gwariant priodoledig yn ystod 2022-23 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Caiff hawliadau ardoll y Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall eu dosbarthu'n dreth ac yn wariant i Ofgem yn y flwyddyn y mae'r penderfyniad yn ymwneud â hi.

Caiff penderfyniadau ynghylch addasiadau "cywiro" i benderfyniadau ynghylch hawliadau ardoll y Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall eu trin fel addasiadau cyfnod blaenorol. Cymeradwywyd swm net o £16 miliwn o hawliadau "cywiro" ym mis Rhagfyr 2023 (mae'r rhain yn addasu gwerthoedd hawliadau blaenorol o 2021 a 2022). Roedd hyn yn cynnwys £41 miliwn o hawliadau eraill a ganiatawyd, a £25 miliwn o hawliadau blaenorol yr oedd yn rhaid eu had-dalu.

Mae'r dreth a'r gwariant priodoledig sy'n ymwneud â'r hawliadau "cywiro" hyn wedi cael eu cynnwys fel addasiad cyfnod blaenorol i gyllidebau 2022-23 (gydag effaith net o ddim, a ddangosir fel £1,000 symbolaidd er mwyn galluogi'r Senedd i gymeradwyo'r addasiad cyfnod blaenorol drwy bleidlais). Nid yw hyn wedi cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol am mai addasiad (Alldro) cyllidebol yn unig ydyw, fel y'i disgrifir yn SOPS 2.

| | Alldro Adnoddau 22-23 (ailddatganwyd) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinyddu | | | Rhaglen | | | |
| **Math o Wariant (Adnodd)** | **Gros** | **Incwm** | **Cyfanswm net** | **Gros** | **Income** | **Net total** | **Cyfanswm** |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | **Incwm** | **Cyfanswm net** | | | | |
| **Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais** | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 101,304 | (111,107) | (9,803) | 110,072 | (110,072) | - | (9,803) |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem gweinyddu | 38,186 | (36,586) | 1,600 | - | - | - | 1,600 |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu | 2,618 | (2,618) | - | 302 | (50,035) | (49,733) | (49,733) |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **142,108** | **(150,311)** | **(8,203)** | **110,374** | **(160,107)** | **(49,733)** | **(57,936)** |

Cyn eu hailddatgan, Gwariant Gros y Rhaglen oedd £94,333,000 ac Incwm y Rhaglen oedd £144,066,000. Ceir y tabl cyn iddo gael ei ailddatgan yng nghyfrifon cyhoeddedig 2022-23: https://www.ofgem.gov.uk/publications/ofgem-annual-report-and-accounts-2022-2023.

# Nodiadau i'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol, 2023-24 (£000oedd)

## SOPS1. Manylion yr alldro, fesul llinell o'r Amcangyfrif

### SOPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau fesul Llinell o'r Amcangyfrif

| | Alldro Adnoddau | | | | | | | Amcangyfrif | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinyddu | | | Rhaglen | | | | | | | | | |
| Math o Wariant (Adnodd) | Gros | Incwm | Cyfanswm net | Gros | Incwm | Cyfanswm net | Cyfanswm | Cyfanswm | Trosglwyddiadau | Cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2022-23 |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | | | |
| **Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais** | | | | | | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 132,259 | (125,754) | 6,505 | - | - | - | 6,505 | 31,350 | - | 31,350 | 24,845 | (9,803) |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem gweinyddu | 47,993 | (45,400) | 2,593 | - | - | - | 2,593 | 4,502 | - | 4,502 | 1,909 | 1,600 |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu | 3,590 | (3,590) | - | 6,037 | (8,784) | (2,747) | (2,747) | 2,531 | - | 2,531 | 5,278 | (49,733) |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **183,842** | **(174,744)** | **9,098** | **6,037** | **(8,784)** | **(2,747)** | **6,351** | **38,383** | **-** | **38,383** | **32,032** | **(57,936)** |

## SOPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf fesul Llinell o'r Amcangyfrif

| | Alldro | | | Amcangyfrif | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Wariant (Cyfalaf)** | **Gros** | **Incwm** | **Cyfanswm net** | **Cyfanswm** | **Trosglwyddiadau** | **Cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau** | **Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad** | **Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2022-23** |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | |
| **Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais** | | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 1,176 | - | 1,176 | 2,760 | - | 2,760 | 1,584 | 1,234 |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem gweinyddu | 9,163 | (9,163) | - | - | - | - | - | - |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu | - | - | - | - | - | - | - | 929 |
| **Cyfanswm cyfalaf** | **10,339** | **(9,163)** | **1,176** | **2,760** | **-** | **2,760** | **1,584** | **2,163** |

## SoPS2 Cysoni alldro â'r incwm gweithredu net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm Alldro | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2022-23 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** |
| **Cyfanswm Alldro Adnoddau** | SOPS1.1 | **6,351** | **(57,936)** |
| Ychwanegu: Incwm cyfalaf gan DESNZ/ BEIS | SOPS1.2 | (9,163) | (5,910) |
| Llai: Traul llog prydles | 7.3 | (531) | (177) |
| Ychwanegu: Incwm llog | SoCNE | 1,159 | - |
| Arall | | - | 1 |
| **Incwm Gweithredu Net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | SoCNE | **(2,184)** | **(64,022)** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ond yn wahanol iddynt. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau â'r (incwm)/gwariant gweithredu net, gan gysylltu'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol â'r datganiadau ariannol.

Caiff incwm cyfalaf ei gyllidebu fel cyfalaf DEL ond rhoddir cyfrif amdano fel incwm ar wyneb y SoCNE ac felly mae'n eitem gysoni rhwng cyfanswm yr alldro adnoddau ac incwm gweithredu net.

Caiff incwm llog ei gyllidebu fel adnoddau DEL ond caiff ei gynnwys fel incwm cyllid ar wyneb y SoCNE ac felly mae hefyd yn eitem gysoni rhwng cyfanswm yr alldro adnoddau ac incwm gweithredu net.

Cafodd ardoll y Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall ei dosbarthu'n fath o dreth a gwariant priodoledig yn ystod 2022-23 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cydnabyddir hawliadau ardoll y Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall ar ôl y dyddiad dosbarthu mewn cyllidebau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fewnlifau nac all-lifau i Ofgem oherwydd ardoll y Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall. O dan IFRS, nid yw hawliadau ardoll y Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall yn bodloni'r meini prawf cydnabod i fod yn incwm ac yn wariant i Ofgem ac felly nid yw'r hawliadau wedi'u cydnabod yn Natganiad o Incwm Net Cynhwysfawr Ofgem na'r nodiadau cysylltiedig.

## SoPS3 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro | Amcangyfrif | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif, arbediad/ (dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cyfanswm Alldro Adnoddau** | SOPS1.1 | 6,351 | 38,383 | 32,032 |
| **Cyfanswm Alldro Cyfalaf** | SOPS1.2 | 1,176 | 2,760 | 1,584 |
| **Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | | |
| ▪ Dibrisio ac amorteiddio | 3 | (5,700) | (9,300) | (3,600) |
| ▪ Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | 3 | (8,130) | (28,000) | (19,870) |
| ▪ IFRS 16 ychwanegiadau a gwarediadau | 7 | 645 | - | (645) |
| ▪ Eitemau eraill nad ydynt yn rhai arian parod | | (663) | (105) | 558 |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithredol:** | | | | |
| ▪ Gostyngiad mewn symiau derbyniadwy | 10 | (7,749) | 12,843 | 20,592 |
| ▪ Cynnydd mewn symiau taladwy | 11 | (6,249) | 7,993 | 14,242 |
| ▪ Defnydd o ddarpariaethau | 12 | 3,255 | 4,798 | 1,543 |
| ▪ Elfen cyfalaf taliadau mewn perthynas â phrydlesau | 7.4 | 1,903 | - | (1,903) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **(15,161)** | **29,372** | **44,533** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r Datganiad ynghylch Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, yn hytrach nag ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio rhwng yr alldro adnoddau a chyfalaf a'r gofyniad arian parod net.

## SoPS4 Dadansoddiad o incwm i'r gronfa gyfunol

Ni chasglwyd unrhyw incwm o'r Gronfa Gyfunol gennym yn 2023-24.

## Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol (archwiliedig)

### Rheoleidd-dra gwariant

Cymhwyswyd gwariant Ofgem at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU.

| Taliadau arbennig | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y taliadau arbennig | 3 | 7 |
| Cyfanswm gwerth y taliadau arbennig (£000) | 49 | 1,725 |

Nid oes gan Ofgem ddim i'w nodi mewn perthynas â'r canlynol:

- Colledion;
- Datgeliadau ffioedd a thaliadau;
- Rhwymedigaethau digwyddiadol o bell;
- Tueddiadau gwariant hirdymor.



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
13 Ionawr 2025

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DDAU DŶ'R SENEDD

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datgniadau ariannol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol mewn perthynas ag Ofgem:

- Y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024;
- Y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Lifoedd Arian a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu o bwys.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Ofgem ar 31 Mawrth 2024 a'i incwm gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisiwyd arnynt am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig* (2022). Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol* fy adroddiad.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Ofgem yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Ofgem o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Ofgem i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Ceir disgrifiad o'm cyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysedir y sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer Ofgem wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif a'm hadroddiad fel archwilydd ar yr wybodaeth honno. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais yn ystod yr archwiliad, neu yn ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

In the light of the knowledge and understanding Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Ofgem a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau materol yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn cyflwyno adroddiad ichi yn eu cylch os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan Ofgem neu na chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF neu os nad yw'r rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau o fewn Ofgem y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath reolaeth fewnol ar waith yn ôl yr angen i alluogi paratoi'r datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gam-ddatgan materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- asesu gallu Ofgem i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ofgem yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatgan materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### Y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Lluniaf weithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau cam-ddatgan materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll:

- ystyriais natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad Ofgem.

- holais y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Ofgem a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Ofgem ar y canlynol:
    - nodi cyfreithiau a rheoliadau, eu gwerthuso a chydymffurfio â hwy;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll; a'r
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Ofgem sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Ofgem â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- holais y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Ofgem a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
    - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau; ac
    - a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
- cefais drafodaeth â'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Ofgem ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn yn amcangyfrifon y rheolwyr. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae'n ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o wrthwneud gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ofgem a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Ofgem yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau materol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ofgem. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cyflenwi a Dyrannu (Prif Amcangyfrifon) 2023, a chyfraith cyflogaeth a deddfwriaeth treth berthnasol.

### Ymateb archwilio i risgiau a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr, y Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio a chwnsleriaid cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol; ac
- euthum i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr trwy brofi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau ynghylch amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Cyfleais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn

erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisiwyd arnynt ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisiwyd arnynt yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb fod yn Gyllideb (Adnoddau) a'r Gofyniad Arian Parod Net.

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio o bwys, ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
**Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**17 Ionawr 2025**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP



# Cyfrifon Adnoddau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2023-24

# Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm na gwariant eto.

| | Nodyn | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu | 4 | (191,532) | (206,255) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(191,532)** | **(206,255)** |
| Costau staff | 3 | 130,470 | 104,815 |
| Gwariant gweithredu arall | 3 | 58,878 | 37,418 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **189,348** | **142,233** |
| **Incwm gweithredu net** | 2 | **(2,184)** | **(64,022)** |
| Incwm cyllid | 4 | (1,159) | - |
| Traul cyllid | 7.3 | 531 | 177 |
| **Incwm net am y flwyddyn** | | **(2,812)** | **(63,845)** |
| **Incwm net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **(2,812)** | **(63,845)** |

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr adran. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, sef gwerth gweddilliol yr endid.

| | Nodyn | | 2023-24 £000 | | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 3,074 | | 2,565 | |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 7.1 | 14,553 | | 17,022 | |
| Asedau anniriaethol | 6 | 16,798 | | 10,199 | |
| ***Cyfanswm yr asedau anghyfredol*** | | | **34,425** | | **29,786** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 22,123 | | 29,872 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 9 | 37,161 | | 72,833 | |
| ***Cyfanswm yr asedau cyfredol*** | | | **59,284** | | **102,705** |
| ***Cyfanswm yr asedau*** | | | **93,709** | | **132,491** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 11 | (65,375) | | (94,798) | |
| Rhwymedigaethau prydlesau | 7.2 | (1,909) | | (1,899) | |
| Darpariaethau | 12 | (8,097) | | (2,871) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol*** | | | **(75,381)** | | **(99,568)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **18,328** | | **32,923** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Rhwymedigaethau prydlesau | 7.2 | (13,046) | | (15,170) | |
| Darpariaethau | 12 | (1,608) | | (1,872) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol*** | | | **(14,654)** | | **(17,042)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **3,674** | | **15,881** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 3,674 | | 15,881 | |
| ***Cyfanswm ecwiti*** | | | **3,674** | | **15,881** |



**Jonathan Brearley**
Prif Weithredwr
13 Ionawr 2025

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan yr adran, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyffredinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli cyfanswm asedau adran llai rhwymedigaethau, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn nac eitemau ariannu eraill.

| | Nodyn | Cronfa gyffredinol £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **(15,179)** |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr | 3 | 145 |
| Incwm net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | 63,845 |
| Cyllid seneddol net – tybiedig | | - |
| Cyllid seneddol net – a hawliwyd | | 40,466 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | 11 | (72,833) |
| Incwm gohiriedig a ryddhawyd i'r gronfa gyffredinol | | (563) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **15,881** |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr | 3 | 149 |
| Incwm net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | 2,812 |
| Cyllid seneddol net – tybiedig | | - |
| Cyllid seneddol net – a hawliwyd | | 22,000 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | 11 | (37,161) |
| Symudiadau cronfeydd wrth gefn eraill | | (7) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **3,674** |

# Datganiad o Lifau Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar gyfer yr adran yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddosbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Gweithgareddau buddsoddi yw'r graddau y mae mewnlifau ac all-lifau arian parod wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | |
| Incwm gweithredu net | SoCNE | 2,184 | 64,022 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | SoPS3, SoCNE | 13,962 | (7,827) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 7,749 | (6,141) |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11 | (29,423) | 50,941 |
| llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE | 11 | 35,672 | (58,467) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 12 | (3,255) | (325) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **26,889** | **42,203** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd | 5 | (1,821) | (1,234) |
| Asedau anniriaethol a brynwyd | 6 | (9,163) | (6,839) |
| Incwm cyllid | SoCNE | 1,159 | - |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(9,825)** | **(8,073)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | SoCiTE | 22,000 | 40,466 |
| Elfen cyfalaf taliadau mewn perthynas â phrydlesau | 7.4 | (1,903) | (1,763) |
| Blaendaliadau o'r Gronfa wrth Gefn | | 30,000 | 30,000 |
| Taliadau i'r Gronfa wrth Gefn | | (30,000) | (30,000) |
| **Cyllid net** | | **20,097** | **38,703** |

| | Nodyn | 2023-24<br>£000 | 2022-23<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **37,161** | **72,833** |
| Taliadau symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | SoCiTE | (72,833) | (14,366) |
| **(Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 9 | **(35,672)** | **58,467** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | 9 | 72,833 | 14,366 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | 9 | **37,161** | **72,833** |

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae Ofgem wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Datganiad ynghylch yr Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SOPS) a'r nodiadau cysylltiedig yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio sy'n dechrau ar dudalen 79.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau hyn ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir y cyfrifon i'r £'000 agosaf.

#### Busnes gweithredol

Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2024-25 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Rydym yn disgwyl parhau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Felly rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### 1.2 Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Ofgem yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

- Ffioedd trwydded – Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i Ofgem fantoli ei wariant â'i incwm. Mae'n ofynnol i Ofgem godi incwm o'r sector a reoleiddir ganddo er mwyn talu'r costau y mae Ofgem yn mynd iddynt wrth reoleiddio'r sector hwnnw. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofgem i adennill ei gostau gan drydydd partïon. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn gysylltiedig â'r gwaith sylfaenol sydd i'w gyflawni gan Ofgem fel rheoleiddiwr y Farchnad Nwy a Thrydan, ac fel y nodir yn y Flaenraglen Waith. Cydnabyddir refeniw yn y flwyddyn pan eir i'r rhwymedigaeth perfformiad (cost).

- Incwm gan yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net a thaliadau a ailgodir a ariennir gan Gynlluniau – O dan gytundebau lefel gwasanaeth/contractau â'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net a chyrff eraill y llywodraeth, mae Ofgem yn gweinyddu cynlluniau ynni ac amgylcheddol ar eu rhan. Darperir y gwasanaethau hyn ar sail cost lawn. Cydnabyddir incwm ar sail croniadau wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad a amlinellir yn y cytundebau lefel gwasanaeth/contractau gael eu bodloni dros amser. Caiff costau gweinyddu a ariennir yn uniongyrchol gan yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net yn hytrach na thrwy'r cynllun ei hun neu drwy lywodraethau eraill eu nodi ar wahân yn Nodyn 4 a'u hesbonio yn Nodyn 14.

- Ardoll Nwy Gwyrdd – Mae'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gosod rhwymedigaethau ar gyflenwyr nwy trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i wneud taliadau ardoll bob chwarter, er mwyn ariannu'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd, sef cynllun amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n cynnig cymhellion ariannol ar gyfer safleoedd biofethan treulio anerobig newydd er mwyn cynyddu cyfran y nwy gwyrdd yn y grid nwy. Nid oes rhwymedigaethau i drosglwyddo nwyddau na gwasanaethau i'r rhai sy'n talu'r ardoll (caiff ei thrin fel math o drethiant), oherwydd caiff y cyllid hwnnw ei ddefnyddio i dalu am daliadau a chostau rhedeg y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Mae'r FReM yn addasu IFRS 15 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gydnabod refeniw o drethiant nad yw'n ad-daladwy o gwbl ac nad yw'n arwain at unrhyw rwymedigaethau: pan fydd mater cyfatebol i ddigwyddiad trethadwy wedi digwydd; pan ellir mesur y refeniw yn ddibynadwy; ac mae'n debygol y bydd y buddiannau economaidd a gynorthwyir o'r digwyddiad trethadwy yn llifo i'r endid sy'n casglu. Ystyrir bod y meini prawf hyn wedi'u bodloni ar gyfer yr Ardoll Nwy Gwyrdd pan ddarperir y data pwyntiau mesuryddion i Ofgem gan gyflenwyr nwy.
- Incwm arall – Cyfrifir am incwm arall ar sail croniadau.

## 1.3 Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu.

Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail croniadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfanrwydd.

## 1.4 Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Ofgem dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS a'r CSOPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Darparwyd ar gyfer y gost lawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi a'i bod yn gyfrwymol.

## 1.5 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Delir eiddo, offer a chyfarpar ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi am werth cyfredol, gan fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r ased yn realistig Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth perthnasol. Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu eiddo, offer a chyfarpar mewn rhandaliadau hafal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, ar ôl ystyried gwerth gweddilliol. Mae oes asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau lesddaliadol | Oes y brydles |
| Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa | Pedair blynedd |
| Cyfarpar TG | Tair blynedd |

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Caiff cyfarpar TG a dodrefn, lle y gall asedau unigol gostio llai nag £2,000, eu cyfalafu ar sail grŵp.

## 1.6 Asedau anniriaethol ac amorteiddio

Caiff asedau anniriaethol sy'n gysylltiedig â meddalwedd bwrpasol a ddatblygwyd gan Ofgem i'w defnyddio i redeg amryw gynlluniau eu cydnabod fel costau hanesyddol a'u hamorteiddio dros oes y cynllun, neu bedair blynedd, pa un bynnag sydd fyrraf.

Wrth iddynt gael eu datblygu, cânt eu dosbarthu fel asedau sy'n cael eu hadeiladau ac ni chânt eu hamorteiddio nes y cânt eu comisiynu. Caiff costau datblygu sy'n uniongyrchol briodoladwy i'r gwaith o ddylunio a phrofi'r feddalwedd bwrpasol eu cyfalafu pan fyddant yn bodloni'r meini prawf a nodir yn IAS 38 Asedau Anniriaethol (fel y'u haddaswyd gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol). Caiff gwariant nad yw'n bodloni'r meini prawf ei gydnabod fel gwariant pan eir iddo.

## 1.7 Prydlesau

Bydd IFRS 16 Prydlesau yn gymwys o 1 Ebrill 2022 i gyrff FReM ac yn disodli IAS 17 Prydlesau. Mae IFRS 16 Prydlesau yn cynnig model cyfrifyddu un prydlesai, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydleseion gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni fydd cyfnod y brydles yn para 12 mis neu lai, neu os bydd yr ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i gael ei ddosbarthu'n ased "gwerth isel". Mae Ofgem wedi pennu gwerth isel i fod yn unol â'r trothwy cyfalafu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar, sef £2,000.

Ar gyfer prydlesau sy'n para 12 mis neu lai a phrydlesau asedau gwerth isel, cydnabyddir y taliadau prydles fel traul ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

O dan IFRS 16, mae'n ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod i ddechrau ar werth wedi'i ddisgowntio yr isafswm taliadau prydles dros gyfnod cymwys y brydles. Cymhwysodd Ofgem gyfradd ddisgowntio Trysorlys EF, sef 0.95%, fel y gyfradd benthyca cynyddrannol wrth gyfrifo'r gwerth wedi'i ddisgowntio ar adeg cymhwyso IFRS 16 i ddechrau. Pan fydd taliadau prydles yn y dyfodol yn cael eu newid oherwydd newid mewn mynegrif neu gyfradd neu adolygiad rhent, caiff rhwymedigaethau prydlesau sy'n bodoli eisoes eu hailfesur drwy ddefnyddio cyfradd ddisgowntio heb ei newid. Defnyddir cyfradd ddisgowntio ddiwygiedig ar gyfer prydlesau sy'n bodoli eisoes a gaiff eu haddasu'n briodol megis terfynu rhannol. Pan gaiff prydlesau sy'n bodoli eisoes eu haddasu penderfynir a yw'r trefniant yn gyfystyr â phrydles ar wahân. Defnyddir cyfradd ddisgowntio Trysorlys EF ar gyfer addasiadau i brydlesau a phrydlesau newydd (3.51% o 1 Ebrill 2023 i 31 Rhagfyr 2023 a 4.72% o 1 Ionawr 2024 i 31 Mawrth 2024).

Wedyn, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur drwy ddefnyddio'r model mesur cost yn IFRS 16 fel procsi priodol am werth cyfredol mewn defnydd presennol neu werth teg, a hynny am fod y prydlesau yn cynnwys telerau i ddiweddaru taliadau prydles yn unol â chyfraddau'r farchnad. At hynny, mae gan yr asedau hawl i ddefnyddio hyd oes byrrach na'u priod asedau sylfaenol.

Ar ôl cael eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu dibrisio ar sail llinell syth dros dymor disgwyliedig y brydles a chaiff llog ei gydnabod ar y rhwymedigaethau. Cydnabyddir y ddwy gost yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr. Caiff taliadau prydles eu gwrthbwyso yn erbyn y rhwymedigaethau prydlesau sy'n ddyledus. Trinnir TAW na ellir ei hadennill fel traul yn y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef ac felly nid yw wedi'i chynnwys wrth fesur rhwymedigaethau prydlesau ac yna werth yr asedau hawl i ddefnyddio.

Mae prydlesau perthnasol Ofgem yn gysylltiedig â rhentu eiddo ar gyfer swyddfeydd.

## 1.8 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys arian parod yn y banc ac mewn llaw. At ddiben y Datganiad o Lifau Arian Parod, mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys arian parod yn unig.

## 1.9 Darpariaethau

Lle mae gan Ofgem rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongladwy i dalu rhai costau, bydd Ofgem yn darparu ar gyfer hynny ar sail amcangyfrif y rheolwyr o werth, tebygolrwydd ac amseru taliadau yn y dyfodol. Er bod mwy o ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif yn gysylltiedig â darpariaethau cyfreithiol, bydd rheolwyr yn llunio eu hamcangyfrif gorau yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael.

Pan fydd amser-gwerth arian yn berthnasol, caiff y ddarpariaeth ei disgowntio i'w gwerth presennol drwy ddefnyddio cyfradd ddisgowntio safonol y llywodraeth (ar hyn o bryd, cyfradd nominal o 5.10% ar gyfer rhwymedigaethau ar ôl buddiannau cyflogaeth, cyfradd nominal o 4.26% ar gyfer darpariaethau cyffredinol byrdymor a chyfradd nominal o 4.03% ar gyfer darpariaethau cyffredinol tymor canolig). Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol.

## 1.10 Treth ar werth

Dangosir symiau yn glir o dreth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariant
- mae TAW na ellir ei hadennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu yr ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus gan Gyllid a Thollau EF ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 1.11 Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

## 1.12 Risgiau ariannol

Nid yw Ofgem yn sylweddol agored i risgiau sy'n gysylltiedig â hylifedd, cyfradd llog nac arian cyfred. Oherwydd natur ei gweithgareddau a'r ffordd y caiff Ofgem ei hariannu, ni chaiff ei hamlygu i'r un graddau o risg ariannol ag y mae endidau busnes yn eu hwynebu.

## 1.13 Rhwymedigaethau amodol

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Amodol, cyflwynir adroddiad ar rwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol at ddibenion adrodd ac atebolrwydd seneddol. Digwydd hyn lle cred y rheolwyr ei bod yn annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

## 1.14 Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 15 (megis arian a ddelir mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gan Ofgem unrhyw fudd ynddynt.

## 1.15 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

- **IFRS 17**

Ni ddaw IFRS 17 Contractau Yswiriant yn weithredol i'r sector cyhoeddus tan 1 Ebrill 2025. Ni ddisgwylir i'r effaith fod yn berthnasol i'r adran.

### 1.16 Penderfyniadau cyfrifyddu hanfodol ac ansicrwydd ynghylch amcangyfrif

- **Darpariaethau**

Mae darpariaethau yn dibynnu ar arfer barn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill y disgwylir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Lle y bernir bod rhwymedigaeth yn debygol o grisialu ac y gellir ei mesur gyda sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Datgelir rhagor o wybodaeth yn Nodiadau 1.9 a 12.

- **Oes ddefnyddiol asedau anghyfredol**

Ceir ansicrwydd ynglŷn ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau anghyfredol; caiff y rhain eu hadolygu ar y dyddiad adrodd a'u diweddaru os bydd disgwyliadau yn wahanol i'r amcangyfrifon blaenorol oherwydd traul, darfodiad technegol neu fasnachol neu gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau eraill ar y defnydd a wneir ohonynt.

- **Cyfnodau prydlesau**

O dan IFRS 16, mae Ofgem yn asesu'r tebygolrwydd y caiff cymalau terfynu neu opsiynau estyn eu harfer yn ystod cyfnodau prydlesau. Mae'r amcangyfrif hwn yn pennu hyd cyfnod y brydles sy'n effeithio ar rwymedigaethau prydlesau ac asedau hawl i ddefnyddio. Caiff asesiadau o'r fath eu hadolygu os bydd digwyddiad mawr neu newid sylweddol mewn amgylchiadau.

## 2. Datganiad o wariant/(incwm) gweithredu yn ôl cylchran weithredu

| | 2023-24 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gweithgareddau Rheoleiddio £000** | **Cyflawni a Chynlluniau £000** | **Gwasanaethau Corfforaethol £000** | **Cyfanswm £000** |
| Gwariant gros | 71,491 | 58,561 | 59,296 | 189,348 |
| Incwm | (68,195) | (66,718) | (56,619) | (191,532) |
| **Gwariant/(incwm) gweithredu net** | **3,296** | **(8,157)** | **2,677** | **(2,184)** |

| | 2022-23 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gweithgareddau Rheoleiddio £000** | **Cyflawni a Chynlluniau £000** | **Gwasanaethau Corfforaethol £000** | **Cyfanswm £000** |
| Gwariant gros | 64,070 | 41,106 | 37,057 | 142,233 |
| Incwm | (61,880) | (95,148) | (49,227) | (206,255) |
| **Gwariant/(incwm) gweithredu net** | **2,190** | **(54,042)** | **(12,170)** | **(64,022)** |

Mae adroddiadau cylchrannol yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

# 3. Gwariant

| | Nodyn | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau staff*:** | | | |
| Cyflogau** | | 96,631 | 79,070 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | 10,157 | 7,854 |
| Costau pensiwn eraill | | 23,212 | 17,393 |
| Ardoll Brentisiaethau | | 437 | 324 |
| Costau staff eraill | | 33 | 174 |
| | | **130,470** | **104,815** |
| **Rhenti o dan brydlesau gweithredu:** | | | |
| Prydlesau gweithredu (Adeiladau) | | 40 | 286 |
| | | **40** | **286** |
| **Taliadau cynlluniau:** | | | |
| Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd | | 1,118 | 333 |
| | | **1,118** | **333** |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Cydnabyddiaeth a threuliau'r archwilwyr*** | | 149 | 145 |
| Dibrisiant – eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 1,312 | 1,668 |
| Dibrisiant – asedau hawl i ddefnyddio | 7 | 1,824 | 1,964 |
| Amorteiddio – asedau anniriaethol | 6 | 2,564 | 1,291 |
| Addasiad cronni tâl gwyliau | | 957 | 292 |
| | | **6,806** | **5,360** |
| **Gwariant arall:** | | | |
| Ymgynghoriaeth | | 18,828 | 29,638 |
| Costau swyddfeydd | | 2,687 | 2,417 |
| Recriwtio a hyfforddiant | | 2,492 | 1,333 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 1,780 | 909 |
| Cyflenwadau a chyfarpar swyddfa | | 8,126 | 6,804 |
| Gwasanaethau proffesiynol | | 7,418 | 1,462 |
| Costau sy'n ymwneud â staff | | 424 | 333 |
| Gwariant arall | | 1,029 | 544 |
| | | **42,784** | **43,440** |

| | Nodyn | 2023-24<br>£000 | 2022-23<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Darpariaethau:** | | | |
| Symudiad mewn darpariaethau**** | 12 | 8,130 | (12,001) |
| | | **189,348** | **142,233** |

Ceir rhagor o ddadansoddiad o gostau staff yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ar dudalen 61
** Mae hyn yn glir o £6.063 miliwn (£3.630 miliwn yn 2022-23) wedi'i gyfalafu fel rhan o gyfanswm yr ychwanegiadau i asedau anniriaethol sy'n cael eu hadeiladu yn Nodyn 6.
*** Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.
**** Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys £87,000 a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer dadfeiliadau sydd wedi cael eu cyfalafu yn yr asedau hawl i ddefnyddio yn Nodyn 7, yn unol ag IFRS 16

## 4. Incwm

| | 2023-24 | | | 2022-23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm £000 | Costau llawn £000 | Gwarged £000 | Incwm £000 | Costau llawn £000 | Gwarged £000 |
| Ffioedd trwydded | 114,668 | 114,668 | - | 103,875 | 103,875 | - |
| Arall* | 76,864 | 74,680 | 2,184 | 102,380 | 38,358 | 64,022 |
| **Cyfanswm Gweithredu** | **191,532** | **189,348** | **2,184** | **206,255** | **142,233** | **64,022** |
| Incwm/traul cyllid | 1,159 | 531 | 628 | - | 177 | (177) |
| **Cyfanswm Net** | **192,691** | **189,879** | **2,812** | **206,255** | **142,410** | **63,845** |

| * Mae incwm arall yn cynnwys: | Nodyn | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|
| Tâl Tendr Trawsyrru ar y Môr a Ailgodir | | 3,163 | 2,487 |
| Yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net (yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gynt) | 14 | 50,703 | 39,446 |
| Taliadau wedi'u hailgodi a ariennir gan gynlluniau | | 9,230 | 7,387 |
| Ardoll Nwy Gwyrdd | | 11,212 | 52,653 |
| Adennill costau rhaglenni Rheoleiddio | | 1,957 | - |
| Amrywiol** | | 599 | 407 |
| | | **76,864** | **102,380** |

** Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ceisiadau am drwydded a mân eitemau eraill

# 5. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Gwelliannau lesddaliadol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 231 | 270 | 4,967 | 3,288 | 8,756 |
| Ychwanegiadau | - | 13 | 1,786 | 22 | 1,821 |
| Gwarediadau | - | - | (408) | - | (408) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **231** | **283** | **6,345** | **3,310** | **10,169** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 220 | 163 | 3,478 | 2,330 | 6,191 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 6 | 65 | 1,009 | 232 | 1,312 |
| Ar warediadau | - | - | (408) | - | (408) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **226** | **228** | **4,079** | **2,562** | **7,095** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **5** | **55** | **2,266** | **748** | **3,074** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2023 | 11 | 107 | 1,489 | 958 | 2,565 |

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Gwelliannau lesddaliadol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 229 | 265 | 3,740 | 3,288 | 7,522 |
| Ychwanegiadau | 2 | 5 | 1,227 | - | 1,234 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **231** | **270** | **4,967** | **3,288** | **8,756** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 212 | 97 | 2,256 | 1,958 | 4,523 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 8 | 66 | 1,222 | 372 | 1,668 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **220** | **163** | **3,478** | **2,330** | **6,191** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **11** | **107** | **1,489** | **958** | **2,565** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2022 | 17 | 168 | 1,484 | 1,330 | 2,999 |

Mae'r holl eiddo, offer a chyfarpar yn eiddo i Ofgem.

## 6. Asedau anniriaethol

Asedau meddalwedd gyfrifiadurol bwrpasol a grëwyd yn fewnol i'w defnyddio wrth redeg amryw gynlluniau Ofgem yw'r asedau anniriaethol. Cânt eu dosbarthu'n asedau sy'n cael eu hadeiladu i ddechrau ac nid ydynt yn cael eu hamorteiddio nes eu bod ar gael i'w defnyddio.

| | Meddalwedd gyfrifiadurol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 8,222 | 3,268 | 11,490 |
| Ychwanegiadau | - | 9,163 | 9,163 |
| Ailddosbarthiadau | 4,113 | (4,113) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **12,335** | **8,318** | **20,653** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 1,291 | - | 1,291 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 2,564 | - | 2,564 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **3,855** | **-** | **3,855** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **8,480** | **8,318** | **16,798** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2023 | 6,931 | 3,268 | 10,199 |

| | Meddalwedd gyfrifiadurol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - | 4,651 | 4,651 |
| Ychwanegiadau | - | 6,839 | 6,839 |
| Ailddosbarthiadau | 8,222 | (8,222) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **8,222** | **3,268** | **11,490** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - | - | - |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1,291 | - | 1,291 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **1,291** | **-** | **1,291** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **6,931** | **3,268** | **10,199** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2022 | - | 4,651 | 4,651 |

# 7. Prydlesau

## 7.1 Asedau hawl i ddefnyddio

Mae contractau prydlesau Ofgem yn cynnwys prydlesau adeiladu gweithredol.

| | Adeiladau |
|---|---|
| | £000 |
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 18,986 |
| Ychwanegiadau | 2,401 |
| Gwarediadau | (3,055) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **18,332** |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 1,964 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1,824 |
| Ar warediadau | (9) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **3,779** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **14,553** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2023 | 17,022 |

| | Adeiladau |
|---|---|
| | £000 |
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - |
| Cydnabod i ddechrau ar ôl mabwysiadu IFRS 16 | 18,986 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **18,986** |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1,964 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **1,964** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **17,022** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2022 | - |

## 7.2 Rhwymedigaethau prydlesau

| | Adeiladau 2023-24 | Adeiladau 2022-23 |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio:** | **£000** | **£000** |
| O fewn blwyddyn | 1,909 | 1,899 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 7,108 | 7,549 |
| Ar ôl pum mlynedd | 5,938 | 7,621 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **14,955** | **17,069** |

## 7.3 Symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr

| | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| Dibrisiant | 1,824 | 1,964 |
| Traul llog | 531 | 177 |
| TAW na ellir ei hadennill | 32 | 45 |
| **Cyfanswm a godwyd ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr** | **2,387** | **2,186** |

## 7.4 Symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o Lifau Arian Parod

| | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu'r prifswm ar brydlesau | 1,903 | 1,763 |
| **Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer prydlesau** | **1,903** | **1,763** |

# 8. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses Amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r mwyafrif o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran ac felly fel arfer nid yw'r Adran yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

Caiff y gwarannau a'r llythyrau credyd a ddisgrifir yn Nodyn 14 eu dal er mwyn rheoli risg yn y broses arwerthu tendrau ar y môr a'r Ardoll Nwy Gwyrdd a gynhelir gan Ofgem ar ran y llywodraeth. Nid yw Ofgem yn agored i risg yn gysylltiedig â'r gwarannau a ddelir ganddi mewn perthynas â'r broses hon.

# 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 72,833 | 14,366 |
| Newid net mewn balansau arian parod | (35,672) | 58,467 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **37,161** | **72,833** |
| Delir y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 37,161 | 72,833 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **37,161** | **72,833** |

Yn ychwanegol at yr arian a'r hyn sy'n cyfateb iddo a ddatgelir uchod, mae Ofgem yn dal asedau trydydd parti, sef arian parod a llythyrau credyd sy'n ymwneud â gwarannau datblygwyr tendrau ar y môr, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, cronfeydd Tariffau Cyflenwi Trydan, y Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy, cynlluniau Cymorth Nwy Gwyrdd a'r Cynllun Uwchraddio Boeleri. Disgrifir y rhain yn Nodyn 15.

# 10. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Incwm a gronnwyd | 15,342 | 22,940 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 4,046 | 4,590 |
| Rhagdaliadau | 2,172 | 2,028 |
| TAW | 547 | 299 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 16 | 15 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **22,123** | **29,872** |

Y symiau derbyniadwy eraill yw benthyciadau staff sy'n ddyledus, megis y rhai sy'n gysylltiedig â'r cynllun beicio i'r gwaith..

## 11. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2023-24<br>£000 | 2022-23<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Arian dros ben sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 37,161 | 72,833 |
| Ffioedd trwydded gohiriedig | 4,319 | 3,993 |
| Incwm gohiriedig arall | 158 | 1,956 |
| Croniadau | 13,729 | 9,006 |
| Symiau taladwy eraill | 4,186 | 2,911 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 5,405 | 3,907 |
| Symiau masnach taladwy | 417 | 192 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **65,375** | **94,798** |

Mae Ofgem yn annog staff i ddefnyddio eu hawl lawn i wyliau bob blwyddyn. Fodd bynnag, gall staff gario hyd at ddeg diwrnod o wyliau nas defnyddiwyd drosodd i'r flwyddyn nesaf. Caiff symiau nas defnyddiwyd ar 31 Mawrth eu cronni fel "symiau taladwy eraill".

## 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau a godir

| | Ymddeol yn gynnar | Ymadael gwirfoddol | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | 78 | - | 1,810 | 2,825 | - | 30 | 4,743 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 336 | 87 | 3,406 | 4,917 | - | 8,746 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | (341) | (196) | - | - | (537) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (20) | - | - | (3,235) | - | - | (3,255) |
| Effaith disgowntio | 4 | - | 4 | - | - | - | 8 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **62** | **336** | **1,560** | **2,800** | **4,917** | **30** | **9,705** |

| | Ymddeol yn gynnar | Ymadael gwirfoddol | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 103 | 208 | 1,705 | 14,798 | - | 255 | 17,069 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | 105 | - | - | - | 105 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | - | (11,973) | - | (127) | (12,100) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (19) | (208) | - | - | - | (98) | (325) |
| Effaith disgowntio | (6) | - | - | - | - | - | (6) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **78** | **-** | **1,810** | **2,825** | **-** | **30** | **4,743** |

| | Ymddeol yn gynnar | Ymadael gwirfoddol | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio ar 31 Mawrth 2024** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyn pen blwyddyn | 14 | 336 | - | 2,800 | 4,917 | 30 | 8,097 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 38 | - | 338 | - | - | - | 376 |
| Ar ôl pum mlynedd | 10 | - | 1,222 | - | - | - | 1,232 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **62** | **336** | **1,560** | **2,800** | **4,917** | **30** | **9,705** |

| | Ymddeol yn gynnar | Ymadael gwirfoddol | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgownti o ar 31 Mawrth 2023** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| O fewn blwyddyn | 16 | - | - | 2,825 | - | 30 | 2,871 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 45 | - | 338 | - | - | - | 383 |
| Ar ôl pum mlynedd | 17 | - | 1,472 | - | - | - | 1,489 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **78** | **-** | **1,810** | **2,825** | **-** | **30** | **4,743** |

**Ymddeol yn gynnar**

Yr adran sy'n talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS i gyflogeion, a oedd yn gweithio yn swyddfa Ofgem yng Nghaerlŷr, drwy dalu'r symiau gofynnol yn fisol i'r PCSPS.

**Ymadael gwirfoddol**

Mae darpariaethau diswyddo yn gysylltiedig ag achosion o ymadael gwirfoddol a drafodwyd â'r aelodau o staff dan sylw cyn 31 Mawrth 2024 ond na ddisgwylir iddynt ddigwydd tan 2024-25.

**Dadfeiliadau**

Mae darpariaethau ynglŷn â dadfeiliadau yn rhagweld costau yn y dyfodol i adfer eiddo wedi'i brydlesu'r adran i'w gyflwr fel yr oedd pan ddechreuodd y brydles.

**Cyfreithiol**

Roedd nifer o'n penderfyniadau o dan gyfnod rheoli prisiau RIIO-2 ar gyfer y sector dosbarthu nwy a'r sector trawsyrru a dosbarthu trydan yn destun apeliadau gerbron yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Cyhoeddwyd gorchmynion penderfyniad terfynol a chostau yn ystod y flwyddyn ariannol a defnyddiwyd cyfran RIIO-2 o'r ddarpariaeth gyfreithiol yn llawn.

Cododd nifer o risgiau cyfreithiol o ganlyniad i benderfyniadau Ofgem a wnaed yn ystod 2023-24. Amcangyfrifwyd gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar yr asesiad gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol o'r tebygolrwydd o her a'i llwyddiant posibl. Mae'r amcangyfrif o gostau yn ystyried ffactorau megis lefel cymhlethdod, adnoddau amcangyfrifedig a ddefnyddir i ymateb i her a chostau trydydd parti posibl.

**Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd**

Mae'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd yn gwneud taliadau i'r rhai sydd wedi cofrestru i gymryd rhan ynddo. Mae proses ymgeisio tri cham cyn y gellir cofrestru. Mae'r ddarpariaeth yn cydnabod ymgeiswyr sydd ar gamau terfynol y broses, sy'n debygol o gael eu cofrestru i fod yn rhan o'r cynllun yn y dyfodol, a phan fo'n debygol y byddai taliadau yn y dyfodol yn cael eu hôl-ddyddio i gwmpasu data 2023-24. Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar allbynnau amcangyfrifedig a'r dyddiad cymhwystra amcangyfrifedig.

**Darpariaethau eraill**

Mae darpariaethau eraill yn ymwneud â chostau sy'n weddill mewn perthynas â diffyg hanesyddol mewn cyfraniadau pensiwn i rai aelodau o staff a chyn-aelodau o staff.

## 13. Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir yn ystod ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at rwymedigaethau i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys. Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol y mae'n ofynnol eu datgelu o dan IAS 37.

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd £17.079 miliwn gennym i'r Adran Busnes a Masnach. Roedd £16.081 miliwn o'r swm hwn ar gyfer gwasanaethau eirioli. Trosglwyddwyd y £0.998 miliwn oedd yn weddill ar gyfer gwasanaethau metroleg. Caiff yr arian hwn ei gasglu gan Ofgem drwy ffi'r drwydded, ar ran yr Adran Busnes a Masnach. Yn 2022-23, trosglwyddwyd £13.892 miliwn i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar y pryd ar gyfer gwasanaethau eirioli a £0.918 miliwn ar gyfer gwasanaethau metroleg.

Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ac yn secondio staff iddi (BEIS gynt). Cyfanswm yr incwm gan yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn oedd £50.703 miliwn, yr oedd £9.118 miliwn ohono wedi cronni ar 31 Mawrth 2024 (incwm o £39.446 miliwn yn 2022-23 gan BEIS gyda £9.353 miliwn wedi cronni ar 31 Mawrth 2023).

Rydym yn gweinyddu Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau. Cydnabuwyd incwm o £1.800 miliwn yn ystod y flwyddyn gan NIAUR (£1.459 miliwn yn 2022-23), a £0.855 miliwn o incwm gan Adran yr Economi (£0.923 miliwn yn 2022-23). Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn ffigur y Taliadau a Ailgodir drwy Gynlluniau yn Nodyn 4.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer fach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog.

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd Ofgem i'r trafodion perthnasol canlynol ag aelodau o'r bwrdd:

- penodwyd Tony Curzon Price drwy asiantaeth i wneud gwaith cynghorol cyn ei benodiad yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Tachwedd 2023. Roedd y trefniant â'r asiantaeth ar waith rhwng mis Medi 2022 a mis Hydref 2023 ac un hyd braich ydoedd. Yn ystod 2023-24 talodd Ofgem £58,968 gan gynnwys TAW i'r asiantaeth am wasanaethau cynghori Tony Curzon Price (2022-23: £84,672 gan gynnwys TAW).
- Graham Mather yw Llywydd European Policy Forum Limited ac mae'n un o'i gyfarwyddwyr. Mae Ofgem yn aelod o'r Fforwm Seilwaith sy'n rhan o'r sefydliad hwn. Yn ystod 2023-24, talodd Ofgem ffi aelodaeth o £7,500 i'r European Policy Forum Limited (2022-23: £7,500).

Daeth un o gyflogeion Ofgem yn gyfarwyddwr FIGURE Forum CIC ym mis Awst 2023. Gwariodd Ofgem £15,260 mewn perthynas â FIGURE Forum CIC ar gyfer 2023-24 rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024.

Nid oes dim un o aelodau eraill yr Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn heblaw am gydnabyddiaeth a nodir ar dudalen 61.

# 15. Asedau trydydd partïon

## Gwarannau Datblygwyr Tendrau ar y Môr

Ynghyd â'r llywodraeth, rydym wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio trawsyrru ar y môr gystadleuol i benodi perchennog Trawsyrru ar y Môr drwy broses dendro gystadleuol.

Ni sy'n gyfrifol am reoli'r broses dendro gystadleuol y rhoddir trwyddedau trawsyrru ar y môr drwyddi.

Mae rhoi trwyddedau i weithredu asedau trawsyrru ar y môr newydd drwy broses dendro gystadleuol yn golygu y caiff cynhyrchwyr ynni eu partneru â'r chwaraewyr mwyaf effeithlon a chystadleuol yn y farchnad. Dylai hyn arwain at gostau is a safonau gwasanaeth uwch i gynhyrchwyr ynni ac, yn y pen draw, y defnyddwyr.

Rhan o strategaeth rheoli risg Ofgem ar gyfer y broses dendro gystadleuol yw dal gwarannau at ddibenion adennill costau os na chwblheir proses dendro. Mae'r gwarannau hyn ar ffurf llythyr credyd neu arian parod. Ar 31 Mawrth 2024 roedd Ofgem yn dal £8.25 miliwn mewn llythyrau credyd a £dim mewn arian parod (31 Mawrth 2023: £13.00 miliwn mewn llythyrau credyd, £dim mewn arian parod)

## Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Mae'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn un o'r prif ddulliau o gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y DU, a gweinyddir y cynllun gan Ofgem. Caeodd y cynllun i ymgeiswyr yn 2017. Ceir rhagor o wybodaeth am y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/ro/about-ro

Defnyddir sawl cyfrif banc i weinyddu'r cynllun:

- Cronfeydd allbrynu – Gall cyflenwyr gyflawni eu rhwymedigaeth ynni adnewyddaddwy drwy dalu i mewn i'r gronfa allbrynu. Caiff enillion y gronfa allbrynu eu had-dalu ar sail pro-rata i'r cyflenwyr hynny sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.
- Taliadau hwyr – Bydd unrhyw daliadau sy'n dod i law ar ôl 31 Awst yn daliadau hwyr. Mae'r rhain yn destun cosb llog ddyddiol flynyddol (5% a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr).
- Cilyddu – Pan fydd diffyg cyffredinol yn swm y rhwymedigaeth, mae'n ofynnol i gyflenwyr wneud taliad tuag at gilyddu. Caiff cronfeydd cilyddu eu hailddosbarthu i gyflenwyr sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.

Roedd cyfanswm o £40.48m o arian parod yn cael ei ddal yn y cyfrifon banc hyn ar 31 Mawrth 2024 (31 Mawrth 2023: £53.17 miliwn). Cydnabuwyd incwm o £6.58 miliwn yn 2023-24 mewn perthynas â chynlluniau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, yr oedd £0.66 miliwn ohono wedi'i gronni ar 31 Mawrth 2024 (incwm o £5.01 miliwn yn 2022-23 gyda £0.47 miliwn wedi'i gronni ar 31 Mawrth 2023). Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn ffigur y Taliadau a Ailgodir drwy Gynlluniau yn Nodyn 4.

## Cronfeydd lefelu Tariff Cyflenwi Trydan

Mae'r cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) yn rhaglen a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2010 i annog pobl i ddefnyddio technolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun FIT ac mae Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.

Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Cyfanswm y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â FIT ar 31 Mawrth 2024 oedd £0.92 miliwn (31 Mawrth 2023: £0.94 miliwn).

## Cynlluniau cymhelliad gwres adnewyddadwy (RHI) domestig ac annomestig

Mae'r cynllun RHI domestig yn gynllun ariannol gan y llywodraeth i annog newid i systemau gwresogi adnewyddadwy. Mae'n ffordd o helpu'r DU i leihau allyriadau carbon ac mae ar gael i gartrefi oddi ar y grid nwy ac ar y grid nwy.

Mae'r cynllun RHI annomestig yn rhaglen amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n rhoi cymhellion ariannol i gynyddu'r defnydd o wres adnewyddadwy gan fusnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau nid er elw.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r ddau gynllun ar ran yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ym Mhrydain Fawr, ac yn gweinyddu'r cynllun RHI annomestig yng Ngogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi. Y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r cynlluniau ar 31 Mawrth 2024 oedd: RHI domestig: £3.787 miliwn; RHI annomestig Prydain Fawr: £0.106 miliwn; RHI annomestig Gogledd Iwerddon: £0.114 miliwn (31 Mawrth 2023: £5.113 miliwn; £2.918 miliwn; £0.023 miliwn).

## Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd

Cynllun amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n cynnig cymhellion ariannol ar gyfer safleoedd biofethan treulio anerobig newydd er mwyn cynyddu cyfran y nwy gwyrdd yn y grid nwy yw'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Agorwyd y cynllun i gyfranogwyr ar 30 Tachwedd 2021 a bydd ar agor i geisiadau am bedair blynedd. Gwneir taliadau bob chwarter i gyfranogwyr cofrestredig dros gyfnod o 15 mlynedd, ar sail y swm o fiofethan cymwys y bydd cyfranogwr yn ei gyfrannu at y grid nwy.

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd 2021, mae'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gosod rhwymedigaethau ar gyflenwyr nwy trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i wneud taliadau ardoll bob chwarter i Ofgem er mwyn ariannu'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Rhaid i gyflenwyr nwy trwyddedig hefyd gynnig sicrwydd credyd, naill ai ar ffurf arian parod neu drwy gyflwyno llythyr credyd dilys, er mwyn helpu i sicrhau y caiff yr arian ei gasglu'n brydlon ac er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen digwyddiadau cilyddu. Rhaid i'r sicrwydd credyd bara o leiaf chwarter a'r pedair wythnos dilynol. Pan fydd ar waith, gall Ofgem ddefnyddio sicrwydd credyd cyflenwyr mewn achosion pan fydd cyflenwr yn peidio â thalu taliad ardoll neu daliad cilyddu cyfan neu ran ohono erbyn y dyddiad dyledus. Ar 31 Mawrth 2024, roedd Ofgem yn dal £1.915m mewn sicrwydd credyd arian parod ac £1.950 miliwn mewn llythyrau credyd (31 Mawrth 2023: £6.125 miliwn mewn arian parod, £10.188 miliwn mewn llythyrau credyd).

Pennir y polisi ynglŷn â'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd, a'r polisi cysylltiedig ynglŷn â'r Ardol Nwy Gwyrdd, gan yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ond gweinyddir y cynllun gan Ofgem.

### Cynllun Uwchraddio Boeleri

Cynllun amgylcheddol gan y Llywodraeth sy'n helpu i ddatgarboneiddio gwres mewn adeiladau yw'r Cynllun Uwchraddio Boeleri. Mae'n rhoi grantiau cyfalaf ymlaen llaw er mwyn helpu i dalu costau gosod pympiau gwres a boeleri biomas mewn cartrefi ac adeiladau annomestig yng Nghymru a Lloegr. Agorwyd y cynllun yn 2022, gyda £450 miliwn o arian grant ar gael tan 2025. Ar 30 Mawrth 2023, cyhoeddodd y llywodraeth y caiff y cynllun ei ymestyn am dair blynedd tan 2028. Ofgem sy'n gweinyddu'r cynllun, ond mae'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net yn gyfrifol am bolisi'r cynllun a'r ddeddfwriaeth a amlinellwyd yn Rheoliadau'r Cynllun Uwchraddio Boeleri (Cymru a Lloegr) 2022. Y balans banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r cynllun ar 31 Mawrth 2024 oedd £17.258 miliwn (31 Mawrth 2023: £1.364 miliwn).

## 16. Cosbau ariannol

Rheolir Ofgem gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi, gan gynnwys rhoi cosbau ariannol, mewn perthynas â'r cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio. Cesglir y symiau hyn gennym i'w talu i mewn i'r Gronfa Gyfunol. Mae crynodeb o'r ymchwiliadau a'r camau gorfodi ar gyfer y flwyddyn i'w weld yn Atodiad II.

| | **2023-24 £000** | **2022-23 £000** |
|---|---:|---:|
| Cosbau a osodwyd | 5,411 | 70 |
| | **5,411** | **70** |

Gosodwyd cosbau gwerth cyfanswm o £5,411,153 yn ystod 2023-24.

Hefyd, derbyniwyd £27,003 yn ystod 2023-24 mewn perthynas â chosb a osodwyd yn ystod 2019-20. Gosodwyd cosb o £200,000 yn wreiddiol ond cafodd y sefydliad ei ddiddymu a dim ond cyfran o werth y gosb a dderbyniwyd. Roedd £27,003 yn ddyledus i'w dalu i mewn i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2024.

## 17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd y broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ei hawdurdodi'n briodol gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.



# Atodiadau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2023-24

# Atodiad I

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

### Prosesau Rhanddeiliaid a Rheoleiddio'r Diwydiant

| Metrig (DPAau) | Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur | Targedau blynyddol gyfer 2023-24 | Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| Proses trawsyrru ar y môr | Rhoddwyd trwydded o ddechrau ymgyngoriadau Adran 8A5 | 70 diwrnod | 64 diwrnod |
| Proses trawsyrru ar y môr | Dewis Cynigydd a Ffefrir i gyflwyno'r "Gwahoddiad i Dendro" (heb gynnwys y Cynigion "Gorau" a "Therfynol") | 120 diwrnod | 74 diwrnod |
| Ceisiadau am drwydded | Penderfyniadau ar geisiadau am drwydded a wnaed o fewn y cyfnod penodedig | 100% | 99.2% |
| Cysylltiadau cwsmeriaid | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau cwsmeriaid | 80% o fewn 10 diwrnod gwaith | 99.23% |
| Chwythwyr chwiban | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i chwythwyr chwiban (allanol) | 100% – 1 diwrnod gwaith i gael ymgysylltiad cychwynnol | 97% |

### DPAau Cynlluniau Amgylcheddol a Chymdeithasol

Cyhoeddir dangosyddion perfformiad cynlluniau yn rheolaidd yn yr adran ar Gynlluniau Amgylcheddol a Chymdeithasol ar wefan Ofgem. Ceir crynodeb o rai o'r metrigau isod, sy'n rhestru'r cynllun, y metrig ac a gyflawnwyd neu a ragorwyd ar y targed ar gyfer 2023-24.

| Cynllun | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith (targed = 80%) | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes (targed = 99%) | Gwneud taliadau o fewn nifer y diwrnodau gwaith y cytunwyd arnynt (targed = 90% ar gyfer RHI Annomestig/95% ar gyfer cynlluniau eraill) |
|---|---|---|---|
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Domestig (RHI Domestig) | Oes | Islaw'r targed ym mis Hydref 2023 (92.05%) | Oes |
| Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig (NDRHI) | Oes | Islaw'r targed ym mis Ionawr 2024 (97.98%) | Islaw'r targed ym mis Mai 2023 (93.53%) |

| Cynllun | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith (targed = 80%) | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes (targed = 99%) | Gwneud taliadau o fewn nifer y diwrnodau gwaith y cytunwyd arnynt (targed = 90% ar gyfer RHI Annomestig/95% ar gyfer cynlluniau eraill) |
|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RO) | Oes | Oes | Below target in June 2023 (86.4%) and March 2024 (91.95%) |
| Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) | Oes | Oes | Oes |
| Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni (ECO) | Oes | Oes | dd/g |
| Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr (GBIS) | Oes | Oes | dd/g |
| Gostyngiad Cartrefi Cynnes (WHD) | Oes | dd/g | dd/g |
| Cynllun Uwchraddio Boeleri | Oes | Islaw'r targed ym mis Gorffennaf 2023 (96.30%) a mis Mawrth 2024 (98.94%) | Oes |
| Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd | Oes | Islaw'r targed ym mis Gorffennaf 2023 (96.30%) | Oes |

## Twyll a gwallau mewn cynlluniau

Mae Ofgem yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg o atal twyll yn y cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol y mae'n eu gweinyddu. Mae gan Ofgem dîm Atal Twyll penodol i ganfod ac atal twyll yn y cynlluniau a phan ganfyddir achosion o dwyll rydym yn eu cymryd o ddifrif. Y ffordd fwyaf effeithiol o leihau twyll yn y cynlluniau yw ei atal felly mae Ofgem yn gweithio'n agos gyda'r rhai sy'n llunio polisïau er mwyn asesu risgiau o dwyll a chymhwyso rheolaethau cadarn i'w gwneud yn fwy anodd i dwyllwyr beidio â chael eu canfod.

Er mwyn canfod twyll yn fwy effeithiol, mae'r Tîm Atal Twyll yn monitro risgiau a thueddiadau ac yn defnyddio dadansoddeg data, sy'n galluogi'r tîm i dargedu adnoddau at feysydd risg uchel a nodi meysydd newydd sy'n destun pryder cyn gynted â phosibl Rydym yn ategu hyn drwy ddull samplu trylwyr drwy ein gwaith archwilio er mwyn helpu i nodi achosion o ddrygioni ar gam cynnar. Mae hyn yn arf ataliol cryf i rwystro twyllwyr eraill yn y meysydd lle rydym yn gweld y nifer mwyaf o achosion o dwyll ar yr adeg honno ac atal problemau sy'n dod i'r amlwg rhag troi'n feysydd risg uchel.

Rydym yn monitro tueddiadau o ran diffyg cydymffurfiaeth a lefel twyll a gwall mewn cynlluniau y cymerir rhan ynddynt drwy ein rhaglenni archwilio. Gwerth y gwall a nodir yma yw effaith amcangyfrifedig twyll a gwall. Amcangyfrifir mai gwerth y taliadau a wnaed drwy wall yn ystod 2023-24 o dan y Cynllun Uwchraddio Boeleri yw £1.0 miliwn (1.18% o gyfanswm y taliadau) o

fewn cyfyng hyder 95% o £0.1 miliwn i £2.0 miliwn (2022-23 ailddatganwyd: 0.7 miliwn (1.5% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfyng hyder 95% o £0.2 miliwn i £1.3 miliwn). Amcangyfrifir mai gwerth y taliadau a wnaed drwy wall yn ystod 2023-24 o dan Gynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Prydain Fawr yw £3.2 miliwn (0.3% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfyng hyder 95% o £2.1 miliwn i £4.3 miliwn (2022-23: £7.2 miliwn (0.7% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfyng hyder 95% o £5.1 miliwn i £9.3 miliwn).

# Atodiad II

## Ymchwiliadau a Chamau Gorfodi 2023-24

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi. Byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion byr am ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan, er bod y polisi yn wahanol ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Cyfanwerthu (REMIT) a Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS). Isod ceir manylion yr ymchwiliadau a gwblhawyd gennym eleni. Mewn ymchwiliadau lle rydym wedi sicrhau taliadau unioni, gwnaeth y cwmnïau daliadau naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i raglenni a chronfeydd a fyddai'n elwa arnynt.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| United Gas and Power Limited ("UGP") | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth UGP ag Amodau Trwydded Safonol 0A, 7A, 7B a 21.B o'i Drwyddedau cyflenwi. | Canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gosodwyd cosb statudol o £1. Roedd hon yn ychwanegol at y swm o £2,111,798 (llai £1) y cytunodd UGP i'w dalu i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae'r gosb wedi'i chynnwys yn y ffigur ar gyfer cyfanswm y cosbau a osodwyd yn Nodyn 16 o'r cyfrifon adnoddau. | Ebrill 2023 |
| SSE Generation Limited ("SSE") | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth SSE ag Amod Trwydded Safonol 20A Amod Trwydded sy'n Cyfyngu ar Drawsyrru | Canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gosodwyd cosb statudol o £1. Roedd hon yn ychwanegu at y swm o £9,780,000 (llai £1) y cytunodd SSE i'w dalu i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae'r gosb wedi'i chynnwys yn y ffigur ar gyfer cyfanswm y cosbau a osodwyd yn Nodyn 16 o'r cyfrifon adnoddau. | Gorffennaf 2023 |
| Morgan Stanley & Co. International plc ("MSIP") | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth MSIP â Rheoliad 8(6) a Rheoliad 8(3) o Reoliadau Gorfodi REMIT. | Canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gosododd yr Awdurdod gosb ariannol o £5,411,149. Mae'r gosb wedi'i chynnwys yn y ffigur ar gyfer cyfanswm y cosbau a osodwyd yn Nodyn 16 o'r cyfrifon adnoddau. | Awst 2023 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| EP SHB Limited ("EPSHB") | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth EPSHB ag amod 20A o Amodau Trwydded Safonol Cynhyrchu Trydan | Canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gosodwyd cosb statudol o £1. Roedd hon yn ychwanegu at y swm o £23,630,000 (llai £1) y cytunodd EPSHB i'w dalu i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae'r gosb wedi'i chynnwys yn y ffigur ar gyfer cyfanswm y cosbau a osodwyd yn Nodyn 16 o'r cyfrifon adnoddau. | Rhagfyr 2023 |
| Hudson Energy Supply UK Limited ("HES") | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth HES ag Amodau Trwydded Safonol 0A, 7A, 7B a 21.B o'i Drwydded Cyflenwi Trydan | Canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Gosodwyd cosb statudol o £1. Roedd hon yn ychwanegu at y swm o £1,668,426 (llai £1) y cytunodd HES i'w dalu i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae'r gosb wedi'i chynnwys yn y ffigur ar gyfer cyfanswm y cosbau a osodwyd yn Nodyn 16 o'r cyfrifon adnoddau. | Ionawr 2024 |

Isod ceir manylion y taliadau unioni a sicrhaodd Ofgem drwy gamau gweithredu amgen neu waith cydymffurfio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau'n gyflym i ddefnyddwyr heb i ni arfer ein pwerau gorfodi statudol.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| E.ON Next Energy Limited ("E.ON Next") | Ymgysylltu Ofgem ag E.ON Next ynghylch cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r ffordd yr oedd wedi cymhwyso'r Safonau Perfformiad Gwarantedig o ran darparu bil terfynol mewn da bryd. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd E.ON Next i dalu £6,865,220 in mewn taliadau unioni. | Mai 2023 |
| Octopus Energy Limited | Ymgysylltu Ofgem ag Octopus Energy Limited ynghylch cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r ffordd yr oedd wedi cymhwyso'r Safonau Perfformiad Gwarantedig o ran darparu bil terfynol mewn da bryd. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Octopus Energy Limited i dalu £1,140,195 mewn taliadau unioni. | Mai 2023 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Good Energy Limited | Rhoddodd Good Energy Limited wybod ei hun ei fod wedi methu ag addasu'r tariff ar ôl i gwsmer newid ei ddull talu, gan arwain at godi tâl gormodol ar 6,966 o gwsmeriaid am gyfnodau gwahanol rhwng mis Ionawr 2019 a mis Ionawr 2023. Cyfaddefodd Good Energy Limited hefyd ei fod wedi methu â chydymffurfio ag Amod Trwydded Safonol 5 (methiant i ymateb i Geisiadau am Wybodaeth yn briodol). | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Good Energy Limited i ad-dalu £391,650 a gwneud taliadau ewyllys da gwerth £368,404 i'r cwsmeriaid dan sylw a thalu £1,250,000 i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae hyn yn cyfateb i dalu cyfanswm o £2,010,054. | Mai 2023 |
| Ovo Energy Limited | Rhoddodd Ovo Energy Limited wybod ei hun, oherwydd gwallau gweithredu wrth gymhwyso'r disgownt EPG at ei dariffau y codwyd tâl gormodol ar tua 11,000 o gwsmeriaid. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Ovo Energy Limited i ad-dalu £1,492,917 a gwneud taliadau ewyllys da gwerth £498,838 i'r cwsmeriaid dan sylw a thalu £10,000 i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae hyn yn cyfateb i dalu cyfanswm o £2,001,755. | Mai 2023 |
| E.ON Next Energy Limited ("E.ON Next") | Canfu Adolygiad o Gydymffurfiaeth y Farchnad Ofgem ynglŷn ag ansawdd gwasanaeth cwsmeriaid pob cyflenwr ynni (mis Hydref i fis Rhagfyr 2022) fethiannau sylweddol ym mherfformiad gwasanaeth cwsmeriaid E.ON Next, a arweiniodd yn enwedig at amseroedd aros gormodol ar gyfer galwadau i'w gwsmeriaid a chyfraddau rhoi'r gorau i alwad uchel. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd E.ON Next i dalu £4,000,000 i gwsmeriaid yr oedd y gwasanaeth cwsmeriaid gwael wedi effeithio arnynt ac i dalu £1,000,000 i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae hyn yn cyfateb i dalu cyfanswm o £5,000,000. | Mehefin 2023 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Bulb Energy Limited ("Bulb") | Cyn iddo gael ei gaffael gan Octopus Energy Limited, rhoddodd Bulb wybod ei hun am ddiffyg cydymffurfiaeth o ran eithriadau balansau ei gyfrif terfynol. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Bulb i dalu £231,861.58 i'r cwsmeriaid dan sylw a thalu £160,351.42 i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae hyn yn cyfateb i dalu cyfanswm o £392,213. | Mehefin 2023 |
| Bulb Energy Limited ("Bulb") | Cyn iddo gael ei gaffael gan Octopus Energy Limited, rhoddodd Bulb wybod ei hun am ddiffyg cydymffurfiaeth o ran mesuryddion cyfyngedig a mesuryddion cysylltiedig. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Bulb Energy Ltd i ad-dalu £106,231.65 a gwneud taliadau ewyllys da gwerth £78,311.29 i'r cwsmeriaid dan sylw a thalu £27,950.60 i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae hyn yn cyfateb i dalu cyfanswm o £212,493.54. | Mehefin 2023 |
| Outfox the Market/ Foxglove Energy Supply Limited ("Foxglove") | Mae angen gwybodaeth fanwl am sefyllfa ariannol cyflenwyr ar Ofgem er mwyn sicrhau bod cwmnïau yn gadarn. Methodd Foxglove droeon â nodi lefel briodol o fanylion o fewn y terfyn amser gofynnol. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Foxglove i dalu £1,800,000 i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Gorffennaf 2023 |
| Bryt Energy Limited | Mater ynglŷn â chymhwyso'r disgownt i Gwsmeriaid dan Anfantais Ariannol sy'n Gymwys at eu cyfraddau tybiedig a'u cyfraddau y tu allan i gontract, mewn perthynas â'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawth 2023. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Bryt Energy Limited ad-dalu £136,677.46 i'w gwsmeriaid. | Tachwedd 2023 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| British Gas Trading Limited ("BG") | Methodd BG â chyflawni'r targedau o ran gosod mesuryddion clyfar a bennwyd ar gyfer 2022. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd BG i dalu £3,370,000 i mewn i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Tachwedd 2023 |
| Bulb Energy Limited ("Bulb") | Methodd Bulb â chyflawni'r targedau o ran gosod mesuryddion clyfar a bennwyd ar gyfer 2022. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Bulb i dalu £1,830,000 i mewn i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Tachwedd 2023 |
| E.ON Next Energy Limited ("E.ON Next") | Methodd E.On Next â chyflawni'r targedau o ran gosod mesuryddion clyfar a bennwyd ar gyfer 2022. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytuodd E.ON Next i dalu £1,720,000 i mewn i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Tachwedd 2023 |
| Ovo Energy Limited ("Ovo") | Methodd Ovo â chyflawni'r targedau o ran gosod mesuryddion clyfar a bennwyd ar gyfer 2022. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Ovo i dalu £2,390,000 i mewn i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Tachwedd 2023 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Scottish Power Limited ("SP") | Methodd SP â chyflawni'r targedau o ran gosod mesuryddion clyfar a bennwyd ar gyfer 2022. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd SP i dalu £1,240,000 i mewn i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Hefyd, cytunodd SP i dalu £440,000 i mewn i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni mewn perthynas â'i rwymedigaethau o ran mesuryddion clyfar o dan Gerrig Milltir Blynyddol 2019. Mae hyn yn cyfateb i dalu cyfanswm o £1,680,000. | Tachwedd 2023 |
| SSE plc | Methodd SSE â chyflawni'r targedau o ran gosod mesuryddion clyfar a bennwyd ar gyfer 2022. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd SSE plc i dalu £252,000 i mewn i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Tachwedd 2023 |
| Octopus Energy Limited | Methodd Octopus Energy Limited â rhoi cwsmeriaid ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth ar ôl peidio â chael data ar Fannau Gweithredu Mesuryddion. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Octopus Energy Limited i dalu £622,060 i'r cwsmeriaid a thalu £480 i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae hyn yn cyfateb i dalu cyfanswm o £622,540. | Rhagfyr 2023 |
| Dorenell Windfarm Limited | Derbyniodd Dorenell Windfarm Limited ei fod wedi methu'n anfwriadol â chydymffurfio ag Amod Trwydded Safonol 20A (Amod Trwydded sy'n Cyfyngu ar Drawsyrru). | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Dorenell Windfarm Limited i dalu £5,530,000 i Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Mawrth 2024 |

Yn ogystal â hyn, arweiniodd achosion eraill o ymgysylltu ynghylch cydymffurfiaeth at y canlynol.

| Math o effaith | Gwerth |
|---|---|
| Ad-daliadau i gwsmeriaid | £76,804.06 |
| Taliadau iawndal i ddefnyddwyr | £4,374.97 |
| Taliadau unioni i'r Gronfa Taliadau Unioni Gwirfoddol | £108,882.36 |
| **Cyfanswm** | **£190,061.39** |

## Achosion agored

Isod ceir yr ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Noder, nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth. Nid yw Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am bob ymchwiliad agored, yn arbennig pan fydd Ofgem yn cynnal ymchwiliadau i achosion posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion REMIT neu Reoliadau NIS. Fel rheol, nid ydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr ymchwiliadau hyn, gan gynnwys pwy rydym yn ymchwilio iddo, oni chredwn fod angen gwneud hynny er budd defnyddwyr neu hyder y farchnad.

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| National Grid Electricity Transmission plc | Mawrth 2022 | Ymchwiliad i ganfod a yw National Grid Electricity Transmission plc wedi torri rhwymedigaethau statudol ac amoddau trwydded mewn perthynas â chyflwr ei asedau yn Harker ac oedi cyn cysylltu â'r dull cynhyrchu ar y safle. |
| British Gas Trading Limited ("BG") | Chwefror 2023 | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth BG ag Amodau Trwydded Safonol 0, 13.1 (a) a (d), 27, 28 ac 28B.1 o'r Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. |
| Ovo Energy Limited ("Ovo") | Mai 2023 | Ymchwiliad i bedwar endid cyflenwi trwyddedig Ovo sy'n rhan o'r rhiant-gwmni, Ovo Energy Limited, a'u cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol ("SLC") SLC0.3(c)(d), 26.4, 26.5(d)(f), 27A ac 28.1A, B o'r Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Mae'r rhain yn ymwneud â thrin cwsmeriaid domestig yn deg, rhwymedigaethau i gwsmeriaid ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth a sicrhau bod Mesuryddion Rhagdalu cwsmeriaid yn ddiogel ac yn rhesymol ymarferol o dan bob amgylchiad. |
| Rhwydweithiau Scottish and Southern Electricity | Mai 2023 | Ymchwiliad i ganfod a yw Scottish and Southern Electricity Networks yn cydymffurfio â'r rheolau ynglŷn â thrin cwsmeriaid yn deg, cadw Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth a sicrhau bod adnoddau digonol yn eu lle i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau. |
| Drax Power Limited | Mai 2023 | Ymchwiliad i ganfod a yw Drax Power Limited yn torri gofynion adroddiadau proffilio blynyddol mewn perthynas â'r cynllun Rhwymedigaethau Ynni Adnewyddadwy a materion cysylltiedig. |

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| BES Commercial Electricity Ltd a Business Energy Solutions Ltd | Medi 2023 | Ymchwiliad i ganfod a yw BES Commercial Electricity Ltd a Business Energy Solutions Ltd yn cydymffurfio â'r rheolau ynglŷn â sicrhau nad yw cyfraddau tybiedig yn rhy feichus i gwsmeriaid. |
| Community Energy Scheme UK Ltd a Community Energy Scheme Stoke Ltd | Hydref 2023 | Ymchwiliad i ganfod a yw Community Energy Scheme UK Ltd wedi torri deddfwriaeth diogelu defnyddwyr drwy ei arferion gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid. Ym mis Rhagfyr 2022, ehangwyd cwmpas yr ymchwiliad i gynnwys Community Energy Scheme Stoke Ltd, endid cyfreithiol arall sy'n contractio â defnyddwyr. |
| Maxen Power Supply Limited | Tachwedd 2023 | Ymchwiliad i ganfod a yw Maxen Power Supply Limited yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol ("SLC") SLC0A, 4A, 7A, 7.3, 14 a 14A o'r Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Mae'r rhain yn ymwneud â thrin microfusnesau yn deg, gallu gweithredol, prisiau cyfraddau tybiedig, telerau contractau, cyflenwi i gwsmeriaid sy'n ficrofusnesau a throsglwyddo cwsmeriaid ac atal trosglwyddiadau. |
| Tomato Energy Limited | Rhagfyr 2023 | Ymchwiliad i ganfod a yw Tomato Energy Limited yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 4A a 5 o'r Drwydded Cyflenwi Trydan. Mae hyn o ganlyniad i bryderon ynglŷn â darparu data o dan y Warant Pris Ynni. Mae'r rhain yn ymwneud â Gallu Gweithredol (SLC 4A) a Darparu Gwybodaeth i Awdurdod a Chadw Data (SLC 5). |
| Utilita Energy Limited | Chwefror 2024 | Ymchwiliad i ganfod a yw Utilita Energy Limited yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 4A, 11B, 12 a 12A o'i Drwydded Cyflenwi Trydan. Mae'r rhain yn ymwneud â Gallu Gweithredol (SLC 4A), y Cod Ynni Manwerthu (SLC 11B), Materion sy'n ymwneud â Mesuryddion Trydan (SLC 12), a Materion sy'n ymwneud â Dwyn Trydan (SLC 12A). |
| Heb ei ddatgelu | Mawrth 2024 | Agorwyd ymchwiliad mewn perthynas ag achosion a amheuir o dorri cyfraith cystadleuaeth o dan Bennod II o Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag achos a amheuir o gamddefnyddio sefyllfa gref yn y farchnad. |

## Gorchmynion Terfynol

Rhestrir isod fanylion am yr hysbysiadau ymgynghori ar gyfer Gorchymyn Terfynol lle y penderfynwyd peidio â rhoi un.

| Dyddiad codi ymgynghoriad | Cwmni | Pryder | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2023 | Foxglove Energy Supply Limited ("Foxglove") | Ar 9 Mehefin 2023, cyhoeddodd yr Awdurdod Hybysiad o Gynnig i roi Gorchymyn Terfynol i Foxglove o dan adran 26(1) a (2) o Ddeddf Trydan 1989 ac adran 29(1) a (2) o Ddeddf Nwy 1986. Yr ymddygiad a oedd yn achosi pryder ac a arweiniodd at y cynnig oedd bod Foxglove yn torri neu'n debygol o dorri'r egwyddor weithredol (Amodau Trwydded Safonol 4A) | Daeth yr Awdurdod i'r cagliad bod Foxglove wedi gwella ei allu gweithredol cymaint fel ei fod yn gallu ymateb yn gywir ac yn brydlon i unrhyw Geisiadau am Wybodaeth gan yr Awdurdod. Felly, ar 21 Gorffennaf 2023, gwnaeth yr Awdurdod benderfyniad i beidio â rhoi Gorchymyn Terfynol. |

## Gorchmynion Dros Dro

Rydym hefyd wedi nodi canlyniadau'r Gorchmynion Dros Dro a ddaeth i ben yn ystod y cyfnod hwn. Daeth Gorchmynion Dros Dro penodol a roddwyd yn y flwyddyn adrodd flaenorol i ben y flwyddyn hon.

| Gorchymyn Dros Dro a ddaeth i ben | Cwmni | Canlyniad y Gorchymyn Dros Dro |
|---|---|---|
| Mai 2023 | British Gas Trading Limited ("BG") | Ar 2 Chwefror 2023, rhoddodd yr Awdurdod Orchymyn Dros Dro i BG yn unol ag adran 25(2) o Ddeddf Trydan 1989 ac adran 28(2) o Ddeddf Nwy 1986. Roedd yn ymddangos i'r Awdurdod bod BG yn torri neu'n debygol o dorri Amodau Trwydded Safonol 0, 13.1 (a) a (d), 27.11A, 28.1A, 28.1B a 28B.1.<br>Roedd yr ymddygiadau a achosodd y pryderon hyn (ac a arweiniodd at roi Gorchymyn Dros Dro) yn ymwneud â gweithdrefnau BG ar gyfer gosod Mesuryddion Rhagdalu o dan Warant Berthnasol.<br>Bu'r Awdurdod yn ymgysylltu â BG drwy gydol y cyfnod pan oedd y Gorchymyn Dros Dro yn ei le. Derbyniodd yr Awdurdod ymgymeriadau ffurfiol a chyfreithiol orfodadwy gan British Gas. Yng ngoleuni'r ymgymeriad ffurfiol gan BG, penderfynodd yr Awdurdod beidio â chadarnhau'r Gorchymyn Dros Dro. Aeth y Gorchymyn Dros Dro yn ddi-rym ar 2 Mai 2023. |
| Mai 2023 | E.ON Next Energy Limited ("E.ON Next") | Ar 2 Chwefror 2023, rhoddodd yr Awdurdod Orchymyn Dros Dro mewn perthynas â thor-amodau gan E.ON Next, yn unol ag adran 25(2) o Ddeddf Trydan 1989 ac adran 28(2) o Ddeddf Nwy 1986.<br>Roedd yn ymddangos i'r Awdurdod bod E.ON Next yn torri neu'n debygol o dorri Amodau Trwydded Safonol 0.3(c)(i) a (iii) o'i Drwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan.<br>Bu'r Awdurdod yn ymgysylltu ag E.ON Next drwy gydol y cyfnod pan oedd y Gorchymyn Dros Dros Dro yn ei le. Ar ôl asesu'r wybodaeth a gyflwynwyd, roedd yr Awdurdod wedi'i fodloni bod E.ON Next wedi cymryd camau a oedd yn briodol, yn ein barn ni, i sicrhau cydymffurfiaeth â SLC 0.3(c)(i) a SLC 0.3(c)(iii) (mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid E.ON Next). Felly, penderfynodd yr Awdurdod beidio â chadarnhau'r Gorchymyn Dros Dro. Aeth y Gorchymyn Dros Dro yn ddi-rym ar 2 Mai 2023. |

| Gorchymyn Dros Dro a ddaeth i ben | Cwmni | Canlyniad y Gorchymyn Dros Dro |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2023 | Foxglove Energy Supply Limited ("Foxglove") | Ar 5 Gorffennaf 2022, rhoddodd y Awdurdod Orchymyn Dros Dro i Foxglove yn unol ag adran 25(2) o Ddeddf Trydan 1989 ac adran 28(2) o Ddeddf Nwy 1986. Roedd yr Awdurdod o'r farn bod Foxglove yn torri neu'n debygol o dorri egwyddor cyfrifoldeb ariannol (Amod Trwydded Safonol 4B).Ar 21 Gorffennaf 2023, gwnaeth y Awdurdod Orchymyn Dirymu yn unol ag adran 25(7)(c) o Ddeddf Trydan 1989 ac adran 28(7)(c) o Ddeddf Nwy 1986. Mae'r Awdurdod bellach wedi'i fodloni nad oes angen y darpariaethau a wnaed gan y Gorchymyn Dros Dro a gadarnhawyd mwyach at ddiben sicrhau cydymffurfiaeth Foxglove â SLC 4B. Fel y cyfryw, nid yw'r gorchymyn dros dro yn ei le mwyach. |

Nodiadau:

- Nid yw'r ffaith ein bod wedi agor ymchwiliad yn awgrymu bod y cwmnïau dan sylw wedi torri amodau'r drwydded neu rwymedigaethau eraill.
- Rydym yn defnyddio'r term ymchwiliadau yma i ddisgrifio ymchwiliadau lle rydym wedi defnyddio ein pwerau ffurfiol.

# Atodiad III

## Gofynion statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau 2000

Mae Adran 5(1) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol bob blwyddyn ar y canlynol:

- gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn;
- gweithgareddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriad a wneir ato gan yr Awdurdod.

Adroddir ar weithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn drwy gydol yr adroddiad hwn.

(Ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw gyfeiriadau at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae angen adrodd arnynt)

Mae Adran 5(2) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei adroddiad blynyddol:

- Arolwg cyffredinol o ddatblygiadau mewn perthynas â materion a ddaw o dan swyddogaethau'r Awdurdod, gan gynnwys, yn benodol, datblygiadau mewn cystadleuaeth rhwng personau sy'n ymwneud â'r canlynol neu â gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
  - morgludo, cludo neu gyflenwi nwy drwy bibellau; a'r
  - cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu neu gyflenwi trydan;

  (Cyfeirir at y datblygiadau hyn yn yr Adroddiad ar Berfformiad)
- Adroddiad ar gynnydd y prosiectau a ddisgrifir yn y flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn honno;

  (Rhoddir adroddiad ar gynnydd yn yr Adroddiad ar Berfformiad)
- Crynodeb o'r gorchmynion terfynol a'r gorchmynion dros dro a wnaed gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno;

  (Mae hwn ar gael yn Atodiad II)
- Crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno;

  (Mae hwn ar gael yn Atodiad II)
- Crynodeb o unrhyw hysbysiadau terfynol a roddwyd gan GEMA yn unol â REMIT yn ystod y flwyddyn honno;

  (Mae hwn ar gael yn Atodiad II)
- Adroddiad ar unrhyw gyfryw faterion eraill ag a all fod yn ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd.

Mae Adran 5(2A) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys adroddiad ar y canlynol yn ei adroddiad blynyddol

(a) y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 132(1) a (2) o Ddeddf Ynni 2013 mewn perthynas â datganiad strategaeth a pholisi a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau yr oedd y dynodiad datganiadau mewn grym am y flwyddyn gyfan neu ran ohoni);

(b) i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud yr hyn a nodir mewn blaenraglen waith neu ddogfen arall fel y pethau roedd yr Awdurdod yn bwriadu eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth roi ei strategaeth ar waith ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau polisi yn y datganiad strategaeth a pholisi.

(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dynodi datganiad strategaeth a pholisi sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn adrodd hon)

Mae Adran 5(3) o'r Ddeddf Cyfleustodau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod nodi yn ei adroddiad blynyddol unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag a34(3) o Ddeddf Nwy 1986 neu a47(2) o Ddeddf Trydan 1989.

(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol o'r fath)

978-1-5286-4875-2 E03123541